GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Adroddiad Blynyddol 2025/26

Yr hyn mae ein Hadroddiad yn ei ddweud wrthych

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn egluro beth rydym yn ei wneud fel Bwrdd Iechyd, y gofal rydym yn ei gynnig, sut rydym yn cynllunio, yn darparu ac yn gwella eich gwasanaethau gofal iechyd lleol. Mae'n disgrifio, mewn tair rhan, ein cyflawniadau a'n heriau drwy gydol 2024-2025 ar draws ystod eang o feysydd:

Rhan 1 Adroddiad Perfformiad

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar sut rydym wedi perfformio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru a'r camau gweithredu sydd ar y gweill i wella ein perfformiad.

Rhan 2 Adroddiad Atebolrwydd

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein gofynion atebolrwydd allweddol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 a Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (fel y'i haddaswyd ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus). Mae'n cynnwys ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS), sy'n rhoi gwybodaeth am sut rydym yn rheoli ein hadnoddau a'n risgiau a sut rydym yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu.

Rhan 3 Cyfrifon Ariannol

Mae ein Datganiadau Ariannol cryno yn manylu ar sut rydym wedi gwario ein harian a chyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.

Gellir lawrlwytho copïau o ddogfennau o wefan y Bwrdd Iechyd:
https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance1/

neu maent ar gael ar gais gan Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn BIPBC, Bloc 5, Cwrt Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG, trwy ffonio 03000 840008 neu drwy anfon e-bost at bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk

Cynnwys

Rhan Un - Yr Adroddiad Perfformiad

1	Trosolwg gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	04
2	Gofynion Adrodd	06
3	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	07
4	Dadansoddi Perfformiad 2025/26	17
5	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	35
6	Y Gymraeg	39
7	Cynaliadwyedd	44
8	Casgliad a Rhagolwg	49

Rhan Dau - Yr Adroddiad Atebolrwydd

1	Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	57
	• Adroddiad y Cyfarwyddwyr	57
	• Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol	63
	• Datganiad Llywodraethu Blynyddol	65
2	Adroddiad Tâl a Staff	120
3	Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru	139

Rhan Tri – Y Datganiadau Ariannol

1	Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig 2025-26	141

Rhan Un - Yr Adroddiad Perfformiad

1. Trosolwg gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer cyfnod 2025-26. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o gynnydd, heriau ac ymrwymiad parhaus ein staff, partneriaid, a'n cymunedau i wella gwasanaethau iechyd a gofal ar draws Gogledd Cymru eleni.

Mae'n bwysig ein bod yn myfyrio ar y cyflawniadau sylweddol ledled ein sefydliad yn ogystal â'r heriau gwirioneddol sy'n parhau i lunio'r amgylchedd yr ydym yn darparu gofal ynddo. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi profi gwydnwch ein gwasanaethau a'n staff ond er hynny, mae hefyd wedi dangos y cryfder, yr ymrwymiad a'r tosturi sy'n diffinio'r sefydliad hwn a'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu.

Er gwaethaf pwysau gweithredol parhaus, rydym wedi gwneud cynnydd ystyrlon mewn sawl maes allweddol. Mae ein timau ar draws y Bwrdd Iechyd wedi parhau i wella ansawdd a diogelwch gofal, wedi cyflwyno modelau newydd o ddarparu gwasanaethau, ac wedi cofleidio arloesi i roi canlyniadau gwell i gleifion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros mwy na dwy flynedd am driniaeth. Mae hwn wedi bod yn faes gwaith blaenoriaeth i ni ac rydym yn falch o weld y cynnydd a wnaed. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu'r nifer uchaf o ymgynghoriadau rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr yng Nghymru, gan ehangu mynediad ar yr un diwrnod ar gyfer mân gyflyrau ac optimeiddio meddyginiaethau, ac mae'n helpu i leihau'r pwysau ar feddygfeydd teulu ac Adrannau Achosion Brys. Mae dros £6.5m mewn contractau deintyddol newydd y GIG hefyd wedi'u sicrhau, gan wella mynediad at ofal deintyddol rheolaidd a gofal brys, sy'n flaenoriaeth allweddol arall i bobl Gogledd Cymru.

Bydd datblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru a rhaglen fferylliaeth newydd ym Mhrifysgol Bangor yn helpu i ddatblygu'r gweithlu yng Ngogledd Cymru. Eleni hefyd gwelwyd y garfan gyntaf yn cwblhau eu graddau ar gontract comisiynu Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sydd wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam.

Rydym wedi parhau i sicrhau buddsoddiad yn ein gwasanaethau newydd ac yn ein seilwaith gyda datblygiad newydd Hwb Llawfeddygol Gogledd Cymru yn Ysbyty Llandudno bron â'i gwblhau a chyhoeddi cynlluniau ar gyfer trawsnewidiad gwerth £33m yn Ysbyty Brenhinol Alexandra, yn Y Rhyl. Mae buddsoddi yn ein seilwaith digidol hefyd wedi parhau trwy gyflwyno system ragnodi electronig newydd ar draws ein holl safleoedd, lansio system cofnodion digidol newydd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, yn ogystal â chynnydd sylweddol sy'n cael ei wneud gyda chynlluniau ar gyfer system cofnodion cleifion electronig ehangach ar gyfer ein gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae'n bwysig ein bod hefyd yn cydnabod yr heriau amlwg yr ydym yn dal i'w hwynebu. Rydym ni'n gwybod bod gormod o bobl yn dal i aros yn rhy hir am ofal sydd wedi'i gynllunio, neu am fynediad at ofal a chymorth brys pan fydd arnynt ei angen. Mae llawer o bobl yn rhoi gwybod i ni eu bod yn anfodlon ar ansawdd y gofal, ac maent yn barod iawn i ganmol staff sy'n cynnig eu gofal, ond thema gyson yw ei bod yn cymryd gormod o amser i gael mynediad at ofal. Rydym yn cytuno â hynny; a dyna'r rheswm pam yn ystod 2026/27 mai mynediad prydlon at ofal yw'r flaenoriaeth bennaf i'r Bwrdd a'i waith.

Mae recriwtio a chadw staff mewn rhai meysydd clinigol allweddol yn parhau i fod yn anodd, ond rydym wedi gwneud ymdrechion aruthrol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ran recriwtio staff yn gyffredinol, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei groesawu'n llwyr. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus ledled y DU ac nid yw'r gwasanaeth iechyd yma yng Ngogledd Cymru yn eithriad yn hynny o beth. Mae cynnig y gwerth gorau posibl ar gyfer y pwrs cyhoeddus yn hanfodol yng ngoleuni'r pwysau hwn ar draws y system. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gwasanaethau, ein partneriaid a chymunedau'n ehangach i ddod o hyd i atebion cynaliadwy i'r heriau hyn. Mae creu iechyd a lles positif ar gyfer y dyfodol yn allweddol, er bod ceisio gwella gofal a chymorth mewn cymunedau a gofal sylfaenol gan ar yr un pryd alluogi mynediad at wasanaethau eilaidd ac arbenigol yn parhau i fod yn un o rolau craidd y Bwrdd ac rydym yn ailddatgan ein hymrwymiad i symud ymlaen mewn partneriaeth.

Rydym yn llwyr gydnabod hyd a lled yr heriau sydd o'n blaen, ond dylem hefyd gael ein calonogi gan y gwelliannau yr ydym eisoes wedi'u cyflawni. Mae hyn i gyd yn adlewyrchu ymroddiad ein staff o'r Bwrdd i'n wardiau cymunedol a pharodrwydd timau ar draws y Bwrdd Iechyd i ymdrechu i wella'r ffordd rydym yn gweithio er budd cleifion. Ein gwaith nawr yw adeiladu ar y momentwm hwn a pharhau i gryfhau gwasanaethau i bobl Gogledd Cymru.

2. Gofynion Adrodd

Pwrpas adran berfformiad Adroddiad Blynyddol 2025/26, fel y'i hamlinellir yn yr arweiniad a ddarperir yn Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2025/26, yw darparu gwybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ei brif amcanion a strategaethau a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r gofynion wedi'u seilio ar y materion y mae'n ofynnol mynd i'r afael â nhw fel y'u hamlinellir ym Mhennod 4A o Ran 15 Deddf Cwmnïau 2006, fel y'i haddasir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol a Llawlyfr Arweiniad GIG Cymru.

Mae prif nodweddion yr adroddiad perfformiad yn deillio o gynllun cytunedig y sefydliad ac yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r rhain.

Daeth y ddyletswydd ansawdd i rym cyfreithiol ym mis Ebrill 2023 yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd iechyd lunio Adroddiad Dyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Gonestrwydd bob blwyddyn. Mae'r rhain wedi cael eu cyhoeddi ar wahân i'r Adroddiad Perfformiad hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol.

3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Y bwrdd iechyd yw'r sefydliad gofal iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £2.4 biliwn ac ar ddiwedd mis Mawrth 2026, roedd ganddo weithlu o ryw 21,000 o bobl. Rydym yn gweithredu fel system iechyd integredig, sydd wedi ymrwymo i ddarparu gofal tosturiol o ansawdd uchel mewn partneriaeth â'r cyhoedd, cyrff statudol, a sefydliadau'r trydydd sector.

Rydym yn darparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer poblogaeth o fwy na 700,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth yn cwmpasu gofal sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl, a gofal ysbyty acíwt.

Ym maes gofal sylfaenol, darperir gwasanaethau'r GIG drwy fodel cymysg o gontractwyr annibynnol a gwasanaethau a reolir yn uniongyrchol. Mae'r rhwydwaith gofal sylfaenol yn cynnwys 95 o bractisau meddygon teulu, 71 o bractisau deintyddol ac orthodontig, 70 o bractisau optometreg, a 144 o fferyllfeydd cymunedol (gweler Atodiad 1).

Mae gwasanaethau cymunedol yn cwmpasu ystod eang o ddarpariaeth, gan gynnwys nyrsio cymunedol, ymweliadau iechyd, ffisiotherapi, a gofal lliniarol. Caiff y gwasanaethau eu cyflwyno trwy rwydwaith o ganolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau cymunedol, a 17 o ysbytai cymunedol, wedi'u cydlynu ar draws 14 o ardaloedd lleol (gweler Atodiad 1).

Caiff gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol eu darparu trwy gyfleusterau ledled Gogledd Cymru, a chânt eu cynorthwyo gan unedau iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol ledled y rhanbarth. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol, ac iechyd meddwl ar gyfer poblogaeth Carchar Ei Fawrhydi Berwyn yn Wrecsam.

Darperir gwasanaethau ysbyty acíwt yn bennaf o dri phrif safle: Ysbyty Gwynedd (Bangor), Ysbyty Glan Clwyd (Bodelwyddan) ac Ysbyty Maelor Wrecsam (Wrecsam). Darperir gwasanaethau llawfeddygol ychwanegol yn Abergele a Llandudno.

Er na ellir darparu gwasanaethau'n lleol, gan gynnwys triniaethau hynod arbenigol neu anghyffredin, mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu gofal gan ddarparwyr eraill y GIG ar draws Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau mynediad parhaus ar gyfer cleifion.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau, mae'r bwrdd iechyd yn cyflawni rôl allweddol o ran gwella iechyd a lles y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno rhaglenni brechu a gwasanaethau iechyd ysgolion, ochr yn ochr â mentrau ataliol ac iechyd cyhoeddus ehangach.

Ym mis Chwefror 2023, daeth y bwrdd iechyd yn destun Mesurau Arbennig. Mae BIPBC wedi dangos cynnydd o ran atgyfnerthu dulliau llywodraethu ac arwain, ond, mae'r sefydliad yn parhau i fod mewn mesurau arbennig oherwydd heriau parhaus yn ymwneud â materion gweithredol a darparu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru

yn parhau i gynnig goruchwyliaeth a chymorth ychwanegol, ac ar hyn o bryd, nid oes unrhyw amserlen wedi'i chadarnhau o ran isgyfeirio o fesurau arbennig.

Yn ystod 2025/26, mae cynnydd wedi parhau i sicrhau bod gweithgarwch y sefydliad yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r bwrdd iechyd wedi gweithio i gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol, gyda ffocws cynyddol ar gynllunio a gweithio mewn partneriaeth yn y tymor hir. Mewn cydweithrediad â phartneriaid, mae Cynlluniau Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pum mlynedd ar gyfer 2023-2028 wedi cael eu cytuno ac maent yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau â'r gwaith i atgyfnerthu ei ddull o ran iechyd y boblogaeth, gan weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau ledled Gogledd Cymru. Yn ystod 2025/26, gwnaeth partneriaid gydweithio i roi'r cynllun cyflawni blynyddol ar waith sy'n cyd-fynd â'r asesiad rhanbarthol o anghenion y boblogaeth wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2023-2028. Mae'r gwaith hwn yn ategu cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd. Mae rhaglen 'Gogledd Cymru Iach' yn parhau i gynnig fframwaith strategol ar gyfer y gwaith hwn, gan ategu ymyriadau wedi'u targedu a dulliau cydweithredol ar draws sefydliadau partner.

Fel sefydliad angori o fewn y rhanbarth, mae'r bwrdd iechyd hefyd yn cyfrannu at amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach. Mae hyn yn cynnwys hybu cydraddoldeb a hawliau dynol, cefnogi datblygu cynaliadwy, amddiffyn yr amgylchedd, a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r bwrdd iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid i fynd i'r afael â blaenoriaethau ar y cyd, gan gynnwys lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella dulliau ymgysylltu â'r gymuned, ac uchafu cyfleoedd i weithio'n integredig. Mae'r partneriaid allweddol yn cynnwys:

- Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol
- Llais
- Awdurdodau Lleol ledled Gogledd Cymru
- Cydbwyllgor Canolbarth Cymru
- Sefydliadau GIG cyfagos yng Nghymru ac yn Lloegr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol
- Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Rhanbarthol
- Sefydliadau trydydd sector
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)

Ein poblogaeth

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth breswyl o ryw 700,000 o bobl, wedi'u gwasgaru ar draws ardal sy'n cynnwys oddeutu 2,500 milltir sgwâr. Mae hyn yn cyfateb i ddwysedd poblogaeth cyfartalog o 112 o bobl am bob cilometr sgwâr. Mae dwysedd y boblogaeth yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth, a Sir y Fflint sydd â'r boblogaeth fwyaf dwys gyda 353 o bobl am bob cilometr sgwâr, a Gwynedd sydd â'r boblogaeth leiaf dwys gyda 46 o bobl am bob cilometr sgwâr.

Mae proffil demograffig Gogledd Cymru yn sylweddol hŷn na chyfartaledd Cymru, ac mae'n cynnwys cyfran uwch o drigolion sy'n 65 oed ac yn hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n 85 oed ac yn hŷn.

Grŵp Oedran	BIPBC (%)	Cymru Gyfan (%)
0-15	17	17.3
16-64	59.2	61.1
65-84	20.8	18.8
85 neu'n hŷn	3.1	2.7

Ffynhonnell: https://stats.gov.wales/en-GB/82d9faea-b515-41cd-aedb-8f4594f66ce5

Ar y cyfan, mae canlyniadau iechyd y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru yn cymharu'n ffafriol â rhanbarthau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyffredinol hon yn cuddio amrywiadau sylweddol yn y rhanbarth. Erys anghydraddoldebau sylweddol, ac mae rhai cymunedau'n profi lefelau amddifadedd sy'n uwch o lawer. Yn benodol, mae Gorllewin y Rhyl 2 a De-ollewin y Rhyl 2 ymhlith y pump uchaf o ran yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan dynnu sylw at yr angen am ymyriadau parhaus wedi'u targedu er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn.

Y pum ardal fwyaf difreintiedig yn BIPBC			
Enw LSOA*	**Awdurdod Lleol**	**Safle WIMD** 2019**	**Safle WIMD** 2015**
Gorllewin y Rhyl 2	Sir Ddinbych	1	1
De Orllewin y Rhyl 1	Sir Ddinbych	19	5
Queensway 1	Wrecsam	9	7
Gorllewin y Rhyl 1	Sir Ddinbych	2	9
Gorllewin y Rhyl 3	Sir Ddinbych	11	10

*LSOA – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, sef ardaloedd daearyddol ystadegol penodedig, sydd oll â thua 1,500 o drigolion, a ddiffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

**WIMD – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (data 2025)

Ar draws Gogledd Cymru, mae cyfran y plant rhwng 0-19 oed sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol yn amrywio o ryw 30.8% i 35.6%, o gymharu â chyfartaledd Cymru Gyfan o ryw 31-32%.

Plant mewn teuluoedd incwm isel | Plant | Plant, pobl ifanc ac addysg | Data | Hafan - InfoBaseCymru

- Wrecsam a Sir y Fflint sy'n cyfrif am y cyfeintiau mwyaf o blant yr effeithir arnynt, sy'n adlewyrchu maint y boblogaeth ac yn dangos y galw mwyaf ar y cyfan am wasanaethau.

- Mae Siroedd Dinbych a Chonwy yn cyflwyno her gyfunol o niferoedd mawr a chynnydd sylweddol dros amser, sy'n awgrymu bod meysydd o bwysau cynyddol.

- Mae gan Ynys Môn a Gwynedd niferoedd absoliwt is ond maent yn parhau i wynebu heriau'n gysylltiedig â natur wledig yr ardal a mynediad at wasanaethau.

Mae pob un o'r chwe awdurdod wedi profi cynnydd dros amser, yn amrywio rhwng +3% a +6.2% ac mae'r cynnydd mwyaf yn Siroedd Conwy (+6.2%) a Dinbych (+6.1%).

Mae lefelau tlodi plant ar draws Gogledd Cymru yn parhau i fod yn uchel, ac mae rhwng un o bob tri o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol. Mae cyfraddau yn Ynys Môn a Sir Ddinbych yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru, a Chonwy sy'n dangos y gyfradd gyflymaf o ran y cynnydd. Er bod cyfraddau Sir y Fflint a Wrecsam yn nes at y cyfartaledd cenedlaethol, mae graddfa'r angen yn parhau i fod yn sylweddol. Mae'r duedd ar i fyny hon ar draws yr holl awdurdodau'n tynnu sylw at her ar draws y rhanbarth a her sy'n gwaethygu, sy'n gofyn am ymateb wedi'i dargedu ac ymateb system gyfan.

Mae amddifadedd yn parhau i gael effaith niweidiol sylweddol ar iechyd y boblogaeth, ac mae pwysau'r argyfwng costau byw presennol yn debygol o waethygu'r effeithiau hyn. Mewn ymateb i hyn, mae'r bwrdd iechyd wedi sefydlu grŵp llywio pwrpasol er mwyn canfod a chydlynu camau gweithredu'r sefydliad. Mae ystod o fentrau'n cael eu datblygu trwy ddull economi sylfaenol, ochr yn ochr â chydweithio parhaus â phartneriaid er mwyn cynnig cymorth wedi'i dargedu. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â thlodi bwyd, cymorth gyda thanwydd a gwresogi, mynediad at gyngor ar arian a chyllid, rhagnodi cymdeithasol, a chymorth ehangach o ran iechyd a lles.

O gymharu â chyfartaleddau Cymru, mae cyflyrau iechyd hirdymor fymryn yn fwy cyffredin ymhlith poblogaeth Gogledd Cymru:

Cyflwr Hirdymor	BIPBC (%)	Cymru Gyfan (%)	BIPBC o gymharu â Chymru
Asthma	17.9	16.3	Uwch
Ffibriliad atrïaidd	14.8	14.4	Uwch
Canser	8.3	8.4	Is
Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD)	7.6	7.1	Uwch

Ataliaeth eilaidd o ran clefyd coronaidd y galon	4.3	3.7	Uwch
Dementia	3.6	3.4	Uwch
Diabetes mellitus (cleifion 17oed+)	2.8	2.7	Uwch
Epilepsi (cleifion 18 oed+)	2.7	2.3	Uwch
Methiant y galon	2.3	2.2	Uwch
Gorbwysedd	1.4	1.4	Cyfartal

Cofrestrau afiechydon yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu | StatsCymru

Yng Nghyfrifiad 2021, gwnaeth 194,295 o drigolion yng Ngogledd Cymru adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cynrychioli 29.1% o'r boblogaeth, o gymharu â 17.8% ar draws Cymru. Fel bwrdd iechyd, rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau statudol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'n rôl ehangach fel cyflogwr mawr o ran cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym yn ymrwymedig i atgyfnerthu defnydd o'r Gymraeg ymysg ein gweithlu ac i gyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor yr iaith o fewn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae rhagor o wybodaeth am ein gweithgarwch o ran y Gymraeg wedi'i darparu ar dudalen 37 yr adroddiad hwn.

Ein Staff a Recriwtio

O 31 Mawrth 2026, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflogi mwy na 20,000 o unigolion, ac roedd hynny'n gyfystyr ag 18,366 o weithwyr llawn amser.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o nifer y gweithwyr, ar gyfartaledd, yn ôl grŵp staff yn ystod y flwyddyn.

Grŵp Proffesiynol	**Rhagolwg cyfwerth ag amser llawn (WTE) o 31.03.2026**
Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol Ychwanegol	885.3
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	4292.9
Gweinyddol, Clercyddol ac Aelodau'r Bwrdd	4025.8
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	1345.6
Ystadau ac Ategol	1495.4
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	354
Meddygol a Deintyddol	1845.6
Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig	6319.5
Myfyrwyr	22.4
Cyfanswm	**20,589.4**

Absenoldeb Salwch

Mae cyfradd absenoldeb salwch wedi parhau i fod yn gyson yn ystod y flwyddyn, ac mae'r ganran gychwynnol yr un peth o gymharu â Mawrth 2026 (5.7%). Y gyfradd dreigl am absenoldeb salwch sy'n dal i fod yr ail un orau o gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru.



Adolygiadau Arfarnu a Datblygiad Personol (PADR)

Mae cyfradd ganrannol staff sydd wedi cael PADR o fewn y 12 mis diwethaf wedi parhau i fod yn weddol sefydlog ar 79.7% ar ddechrau'r flwyddyn ac ar 80.7% ar ddiwedd y flwyddyn. Y gyfradd dreigl am PADR sy'n dal i fod yr ail un orau o gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru.



Gwariant ar Asiantaethau

Ar 1.7% ym mis Mawrth 2026, mae canran y cyfanswm gwariant o ran y bil am staff asiantaethau wedi haneru o gymharu â'r sefyllfa o 3.4% ym mis Ebrill 2025 ac mae lleihad mwy o gymharu â'r sefyllfa o 4.4% ym mis Ebrill 2024. Mae hyn yn helpu i wella dilyniant gofal ar gyfer ein cleifion a'n gwasanaethau. Y gyfradd o ran gwariant ar asiantaethau sy'n dal i fod y drydedd un orau o gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru.



Ein Hystâd

Mae'r bwrdd iechyd yn rheoli un o'r portffolios eiddo mwyaf yng Nghymru. Caiff gwasanaethau eu darparu o dros 230 o eiddo, gan gynnwys safleoedd y mae meddygon teulu'n berchen arnynt, cyfleusterau a ddatblygwyd trwy drefniadau trydydd parti, a'r rhai sy'n cael eu prydlesu gan landlordiaid preifat. Mae'r ystad yn ymestyn dros ryw 400,000 o fetr sgwâr o arwynebedd llawr.

Ar lefel gyfanredol, mae perfformiad ystadau'n dal i fod islaw targedau cenedlaethol a chyfartaledd GIG Cymru am y rhan fwyaf o ddangosyddion o ran cyflyrau a pherfformiad, ac eithrio defnydd o fannau. Mae cyfran sylweddol o'r ystad, rhyw 45% yn fras, yn dyddio'n ôl dros 40 mlynedd. O ganlyniad, mae ôl-groniad sylweddol o ran gofynion cynnal a chadw er mwyn dod ag asedau sydd islaw'r safonau derbyniol ar hyn o bryd - o ran cyflwr ffisegol a chydymffurfiaeth â gofynion diogelwch tân gorfodol a deddfwriaeth statudol - yn unol â'r lefel ofynnol.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys yr ystad gofal sylfaenol, lle mae heriau tebyg yn bodoli. Mae hyn yn cynnwys pwysau o ran yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw, yr angen am welliannau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau hygyrchedd, a lefelau uchel o ddefnyddio mannau, ac adroddir ar orlenwi sylweddol mewn rhai lleoliadau.

Gwnaed buddsoddiad cyfalaf gwerth £29.4m yn Ysbyty Llandudno a ddechreuodd yn 24/25 ac a fydd yn agor yn 2026. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynnwys adeiladu dwy theatr lif laminaidd newydd ar gyfer gosod cymalau'r glun a'r ben-glin newydd, ward wedi'i hadnewyddu, adran radioleg wedi'i hadnewyddu a'i hehangu ac uwchraddio'r ganolfan ynni. Bydd capasiti'r ganolfan yn rhoi llawdriniaeth i 1,900 o bobl y flwyddyn unwaith y bydd ar agor a bydd cleifion o bob rhan o Ogledd Cymru sy'n bodloni'r meini prawf yn cael cynnig i dderbyn eu llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno.

Ein Gweithgarwch Ysbyty

Ar y cyfan, gwnaeth gweithgarwch gynyddu o 3.6% i 1.38 miliwn rhwng 2024/25 a 2025/26, ac roedd y twf dwysaf i'w weld mewn gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau gofal cleifion allanol, tra'r oedd gofal heb ei drefnu wedi parhau i fod yn sefydlog ar y cyfan. Roedd cynnydd cymedrol o ran galw am ofal achosion brys (Yr Adran Achosion Brys +1.8%, derbyniadau brys +0.5%), mewn gwrthgyferbyniad â chynnydd cadarn mewn derbyniadau achosion dydd (+11.3%), gweithgarwch gofal

wedi'i gynllunio i gleifion mewnol (+9%), ac yn enwedig mân lawdriniaethau i gleifion allanol (+45.3%) ac endosgopïau (+18.9%), gan adlewyrchu adferiad o ran gofal dewisol ac ehangu gwasanaethau. Mae'r gostyngiad yn nifer y rhai sy'n mynychu'n rheolaidd (-3.6%) hefyd yn dangos ffyrdd gwell o reoli llwybrau, gan amlygu newid strategol parhaus tuag at ddarpariaeth gofal dydd rhagweithiol.

Yn ystod 2025/26, yn ein hysbytai, gwelsom:

Math o Weithgarwch	Niferoedd gwirioneddol 2025/26 (gwahaniaeth canran ers 2024/25)
Achosion yn yr Adran Achosion Brys (Newydd ac Ail-achosion)	247,050 (+1.8%)
Cleifion Mewnol yr Adran Achosion Brys	98,394 (+0.5%)
Achosion Cleifion Allanol	894,632 (+3.8%)
Mân Weithredoedd i Gleifion Allanol	1632 (+45.3%)
Endosgopïau	24,665 (+18.9%)
Asesu Cyn Llawdriniaethau	30,774 (+3.2%)
Derbyniadau Achosion Dydd wedi'u Cynllunio	46,527 (+11.3%)
Derbyniadau Cleifion Mewnol wedi'u Cynllunio	13,372 (+9%)
Y Sawl sy'n Mynychu'n Rheolaidd yn ystod y Dydd	24,366 (-3.6%)
Cyfanswm*	**1,381,412** (+3.6%)

Gweithgarwch Ysbytai 2025/26

Patient Type	Plan	Actual	Difference	Difference (%)
ED Attendances	244,271	247,050	2,779	1.1%
Elective Daycases	40,164	46,527	6,363	15.8%
Elective Inpatients	12,155	13,372	1,217	10.0%
Emergency Inpatients	98,129	98,394	265	0.3%
Endoscopies	20,805	24,665	3,860	18.6%
MOPS (Cleansed DC)	1,333	1,635	302	22.7%
Outpatient F2F	757,877	795,636	37,759	5.0%
Outpatient Virtual	110,115	98,996	-11,119	-10.1%
Regular Day Attenders	50,891	24,366	-26,525	-52.1%
Ward Attenders	12,775	12,839	64	0.5%
Well Baby	4,215	3,979	-236	-5.6%
Grand Total	**1,352,730**	**1,367,459**	**14,729**	**1.1%**

Ar y cyfan, roedd gweithgarwch yn ystod 2025/26 1.1% yn uwch na'r cynllun (14,729) wedi'i sbarduno'n bennaf gan gynnydd mewn apwyntiadau cleifion allanol wyneb yn wyneb wrth i'r bwrdd iechyd ganolbwyntio ar leihau nifer y cleifion â'r arosiadau hiraf.

Cafodd achosion dydd gofal dewisol (+15.8%), derbyniadau gofal wedi'i gynllunio i gleifion mewnol (10.0%), endosgopïau (+18.6%) a mân lawdriniaethau (+22.7%) oll eu cyflawni'n uwch na'r cynllun, gan amlygu adferiad cryf ym maes gofal dewisol a defnydd effeithiol o fuddsoddiadau. Roedd gweithgarwch gofal heb ei drefnu'n parhau i fod yn unol â'r cynllun i raddau mawr, ac roedd achosion yn yr adran achosion brys ychydig yn uwch na'r cynllun (+1.1%) ac roedd derbyniadau brys yn unol â disgwyliadau (+0.3%).

Fframwaith Perfformiad Integredig

Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gymeradwyo ei Fframwaith Perfformiad Integredig 2023-27 ym mis Medi 2023. Pwrpas yr IPF hwn yw integreiddio dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) o:

1. Deilliannau allweddol o'r Cynllun Blynyddol/Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)
2. Fframwaith Perfformiad Sicrwydd a Goruchwylio GIG Cymru
3. Mesurau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru
4. Asesiadau Sicrwydd Polisi GIG Cymru
5. Deilliannau allweddol mewn ymateb i Lywodraeth Cymru (LIC), Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC) ac argymhellion ffurfiol eraill

Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad mwy targededig, bydd hyn yn ategu atgyfnerthu dulliau craffu ar berfformiad gan y Bwrdd a'i bwyllgorau trwy sicrhau bod metrigau'n cael eu diffinio'n ddigonol ac yn glir.

Mae crynodeb o Berfformiad yn erbyn y Targedau Cenedlaethol Allweddol wedi'i amlinellu yn y fframwaith Perfformiad Cenedlaethol 25/26.

Mesur	Targed	Sefyllfa Diwedd Mawrth 2026	Sgoriau (Byrddau Iechyd yng Nghymru)	Sefyllfa Cymru Gyfan
Canran y cleifion sy'n treulio llai na 4 awr ym mhob cyfleuster gofal brys (h.y. ED) mawr a bach, o'r amser cyrraedd hyd at dderbyn, trosglwyddo neu ryddhau.	Gwelliant o gymharu â'r un mis yn 2024/25	51.90%	7fed o 7 (Mawrth 2026)	64.20%
Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal brys (h.y. ED) mawr a bach, o'r amser cyrraedd hyd at dderbyn, trosglwyddo neu ryddhau	Lleihad o gymharu â'r un mis yn ystod y flwyddyn flaenorol, tuag at y targed cenedlaethol o sero	3,843	7fed o 7 (Mawrth 2026)	10,939
Yr amser canolrifol o amser cyrraedd adran achosion brys hyd at frysbennu gan glinigydd	15 munud neu lai	20	4ydd o 6 (Mawrth 2026)	17
Yr amser canolrifol o amser cyrraedd adran achosion brys hyd at asesiad gan unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau clinigol	15 munud neu lai	121	5ed o 6 (Mawrth 2026)	78
Nifer y cleifion sy'n aros dros 1 awr i gael eu trosglwyddo o ambiwlans	0	2,061	6ed o 6 (Mawrth 2026)	4,303
Canran y cleifion sy'n dechrau eu triniaeth canser diffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r pwynt y codwyd amheuaeth (waeth beth yw'r llwybr cyfeirio)	Tuedd o welliant o 12 mis tuag at darged cenedlaethol o 80% erbyn 31 Mawrth 2026	54.00%	6ed o 6 (Mawrth 2026)	60.20%
Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnostig penodol	0	13,778	7fed o 7 (Mawrth 2026)	24,733
Nifer y cleifion (pob oedran) sy'n aros mwy na 14 wythnos am therapi penodol	0	1,339	6ed o 7 (Mawrth 2026)	4,946
Nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad cleifion	0	5,759	8fed o 8 (Mawrth 2026)	12,697

allanol newydd (Cleifion yng Nghymru)				
Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 104 wythnos i gael eu cyfeirio am driniaeth (Cleifion yng Nghymru)	0	2,139	8fed o 8 (Mawrth 2026)	2,589
Nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol cleifion allanol sy'n wynebu oedi o fwy na 100%	Lleihad o gymharu â'r un mis yn ystod y flwyddyn flaenorol	128,079	7fed o 7 (Mawrth 2026)	293,112
Canran yr apwyntiadau offthalmoleg R1 a fynychwyd a oedd o fewn eu dyddiad targed clinigol neu o fewn 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed clinigol	Tuedd o welliant o 12 mis tuag at darged cenedlaethol o 95%	61.30%	5ed o 8 (Mawrth 2026)	59.80%
Canran yr asesiadau iechyd meddwl ar gyfer pobl o dan 18 oed a gynhaliwyd o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn cyfeiriad ar gyfer pobl o ran 18 oed	80%	88.90%	5ed o 7 (Mawrth 2026)	91.60%
Canran yr ymyriadau therapiwtig ar gyfer pobl o dan 18 oed a ddechreuwyd o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS	80%	85.90%	5ed o 7 (Mawrth 2026)	87.80%
Canran trigolion y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth ddilys ar gyfer pobl o dan 18 oed	90%	91.30%	5ed o 7 (Mawrth 2026)	93.80%
Canran y plant a phobl ifanc sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau asesiad niwroddatblygiadol ADHD neu ASD	80%	12.30%	7fed o 7 (Mawrth 2026)	24.10%
Canran yr asesiadau iechyd meddwl ar gyfer pobl 18 oed a hŷn a gynhaliwyd o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn cyfeiriad	80%	87.20%	5ed o 7 (Mawrth 2026)	83.00%

Canran yr ymyriadau therapiwtig ar gyfer pobl 18 oed a hŷn a ddechreuwyd o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS	80%	91.40%	5ed o 7 (Mawrth 2026)	94.40%
Canran trigolion y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth ddilys ar gyfer oedolion 18 oed ac yn hŷn	90%	84.30%	5ed o 7 (Mawrth 2026)	84.80%
Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol Iechyd Meddwl Arbenigol i Oedolion	80%	54.80%	3ydd o 7 (Mawrth 2026)	51.40%

4. Dadansoddi Perfformiad 2025/26

Trosolwg

Mae'r adran hon yn rhoi asesiad clir o berfformiad sefydliadol, gan amlinellu'r prif gyflawniadau, meysydd heriol, a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i sbarduno gwelliannau. Mae'n dod â data meintiol, dadansoddi naratif, a chyd-destun at ei gilydd er mwyn cyflwyno trosolwg cynhwysfawr o berfformiad gwasanaeth ar draws y bwrdd iechyd. Mae'r mesurau perfformiad a'r targedau yr adroddir arnynt yn yr adran hon yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26.

Metrigau Ansawdd

Mae metrigau perfformiad ansawdd yn ategu diogelwch cleifion trwy ddarparu mesurau clir a chyson yn ymwneud â pha mor dda y mae gofal yn cael ei gynnig. Maent yn helpu i nodi risgiau, amrywiadau a meysydd ar gyfer gwella, gan ganiatáu camau gweithredu prydlon er mwyn lleihau niwed. Trwy ategu penderfyniadau ar sail gwybodaeth, atebolrwydd a dysgu parhaus, mae metrigau ansawdd yn cyflawni rôl allweddol o ran gwelliannau canlyniadau ac atgyfnerthu dulliau llywodraethu ar draws gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol hwn yn rhoi adroddiad tryloyw a chynhwysfawr o gynnydd hyd yma, yr heriau parhaus, a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i wella canlyniadau a phrofiadau ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru. I gael safbwynt mwy manwl a hirdymor, dylid hefyd gyfeirio at Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2025/26.

Digwyddiadau Byth Newydd

Mae nifer y digwyddiadau byth newydd yn ddangosydd allweddol o ansawdd, diogelwch a llywodraethu yn y bwrdd iechyd. Yn 2025/26, cafodd 11 o ddigwyddiadau byth newydd eu cofnodi, gan gynrychioli cynnydd o chwe digwyddiad byth o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r bwrdd iechyd sydd â'r ail lefel uchaf yn adrodd cyfanswm o saith.

Mae'r lefel hon o niwed y gellid ei osgoi'n parhau i beri pryder difrifol ac mae'r bwrdd iechyd yn ymrwymedig i sicrhau gwelliannau parhaus. Mae ymrwymiad clir i atgyfnerthu systemau a dysgu i ategu lleihad parhaus o ran digwyddiadau byth, yn cynnwys uchelgais i gyflawni dim digwyddiadau byth newydd trwy gydol 2026/27 a thu hwnt.

Ymdrinnir â phob digwyddiad byth fel digwyddiad difrifol o ran diogelwch cleifion ac maent yn destun proses ymchwilio gadarn yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae ymchwiliadau'n canolbwyntio ar ganfod methiannau o ran system a phroses yn hytrach na beio unigolyn, gan sicrhau bod modd cyflawni dysgu ystyrlon. Pan fo angen, caiff camau uniongyrchol eu cymryd er mwyn amddiffyn diogelwch cleifion tra bydd ymchwiliadau'n cael eu cwblhau.



Digwyddiadau adroddadwy cenedlaethol

Metrig perfformiad cenedlaethol yw hwn sy'n rhan o'r fframwaith perfformiad cenedlaethol, mae'n mesur nifer y Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol sy'n parhau i fod ar agor am 90 o ddiwrnodau neu fwy. Mae Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol yn ddigwyddiad diogelwch cleifion y gellid ei atal i raddau mawr y mae'n rhaid iddo gael ei adrodd yn ffurfiol gan fod ganddo'r potensial i beri niwed sylweddol. Mae cofnodi a monitro perfformiad o ran y digwyddiadau hyn yn bwysig gan ei fod yn ategu tryloywder, yn atgyfnerthu dulliau llywodraethu, yn caniatáu dysgu ar draws y system gyfan, ac yn helpu sefydliadau gofal iechyd i nodi risgiau ac i atal niwed tebyg rhag digwydd eto. Ar gyfer 2025/26, mae PBC yn adrodd cyfradd o 0.58 (yn ôl dyddiad y digwyddiad), sy'n neilltuol is na chyfradd Cymru gyfan o 0.76 ac yn is o lawer na chyfradd gyfartalog Cymru gyfan o 1.94. Yn ogystal, mae PBC yn dangos perfformiad cryf o ran prydlondeb ymchwiliadau. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad yn cofnodi'r amser canolrifol isaf i gwblhau ymchwiliadau ar draws Cymru, sef 74 o ddiwrnodau, o gymharu ag amser canolrifol Cymru gyfan o 126 o ddiwrnodau nes cael canlyniad.

Nifer y Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol yn ôl dyddiad y digwyddiad



Amseroedd Ymateb i Gwynion

Gwnaeth cyfraddau cau cwynion a gafodd eu cau o fewn 30 o ddiwrnodau wella trwy gydol y flwyddyn, gan ragori ar y targed cenedlaethol o 75% bob mis gyda safleoedd mor uchel â 80%. Bu gwelliant sylweddol o ran nifer, ansawdd a chyflymder cau cwynion yn ystod 2025/26. O 31 Mawrth 2026, cyfanswm y cwynion hir (Dros 30 diwrnod gwaith) ar lefel genedlaethol oedd 1,210 yr oedd BIPBC yn gyfrifol am 1,210 (5.04%) o'r rhain, gan nodi bod dim cwynion yn y categorïau 180 o ddiwrnodau gwaith neu uwch. Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, gwnaethom dderbyn llai o gwynion fesul 100,000 o'r boblogaeth o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan ar 7 yn ystod y 12 mis.

Yn ystod 2025/26, gwnaeth PBC ragori'n gyson ar gyfartaledd Cymru gyfan o ran cyfran y cwynion a gafodd eu cau o fewn y targed o 30 diwrnod gwaith, gan gyflawni cyfraddau uwch bob mis. Gwnaeth PBC hefyd ddangos perfformiad cryf o ran prydlondeb datrys cwynion. Yr amser canolrifol i gau cwyn oedd 21 o ddiwrnodau gwaith, sy'n golygu mai PBC oedd isaf ar draws Cymru ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac ymhell islaw amser canolrifol Cymru gyfan o 29 diwrnod.



Mae'r cwynion sy'n weddill yn tueddu i fod yn fwy cymhleth eu natur ac yn aml, maent yn cynnwys ffactorau lluosog neu fewnbwn traws-sefydliadol. O ganlyniad, mae'r achosion hyn yn gofyn am ddull mwy cynhwysfawr ar gyfer ymchwilio a datrys, sy'n gallu arwain at derfynau amser hirach ar gyfer cwblhau.

Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn ymwneud ag oedi neu'r amgyffrediad yn ymwneud ag absenoldeb triniaeth, wedi'i sbarduno i raddau mawr gan amseroedd aros hirfaith ar draws gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau gofal brys a gofal argyfwng. Mae'r pwysau hwn wedi cael effaith amlwg ar brofiad cleifion a disgwyliadau gofal.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno Gwasanaeth Cymorth gyda Rhestrau Aros dan arweiniad y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS). Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwybodaeth brydlon, arweiniad a sicrwydd i gleifion sy'n aros am driniaeth, gan sicrhau bod unigolion yn cael eu cynorthwyo, eu hysbysu a'u bod yn gallu codi pryderon tra byddant yn parhau i fod ar restrau aros.

Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Yn 2025/16, gwelwyd gwelliant parhaus o ran canran y Practisau Cyffredinol (Meddygfeydd) a gyflawnodd yr holl safonau a amlinellir yn y Safonau Mynediad Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ystod oriau. Ar hyn o bryd, mae'r bwrdd iechyd wedi'i raddio 6 allan o 7 yn genedlaethol ac mae perfformiad chwarter 3 ar 99%, sy'n welliant o 3% ers dechrau'r flwyddyn.

Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol

Rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Mawrth 2026, cynhaliodd y bwrdd iechyd adolygiad archwilio dwfn o Wasanaethau Deintyddol ym maes Gofal Sylfaenol. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys asesu meysydd allweddol gan gynnwys perfformiad gwasanaeth, modelau darparu, gweithlu, a strwythur gwasanaeth cyffredinol. Mae nifer o gamau gweithredu ar y gweill i fynd i'r afael â phwysau sydd wedi'i nodi ac i wella mynediad. Mae mentrau lle bo'r arosiadau hiraf i'w cael wedi cael eu blaenoriaethu, gan gynnwys prosesau cryfach o ran dilysu gweithredol a chlinigol, ochr yn ochr ag adolygu lefelau derbyn cyfeiriadau a threfniadau cyfeirio, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithlon.

Mae'r Porth Mynediad Deintyddol yn parhau i berfformio'n dda yn lleol, gan ategu gwell mynediad a goruchwyliaeth o ran gwasanaethau. Ar ôl cyfnod o berfformiad gwael yn ystod chwarter 1 25/26, bu gwelliant cyson bob mis. Fodd bynnag, mae heriau cydnabyddedig yn y system yn parhau ar lefel Cymru gyfan, ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain trwy gydweithio cenedlaethol.



Canran o ran gwerth contractau gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol (GDS) a gyflawnwyd (ar gyfer cyrsiau triniaeth i gleifion newydd, cleifion brys newydd a chleifion hanesyddol).

Mae cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â diwygio'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) ac mae gweithgorau cenedlaethol a lleol wedi cael eu sefydlu i ddatblygu a gweithredu'r gofynion manwl. Mae'r model contractau newydd yn rhoi pwyslais cryfach ar fframwaith ansoddol a dull system gyfan ar gyfer darpariaeth gofal deintyddol.

Mae achos busnes ar gyfer system glinigol newydd i gleifion ym maes Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn cael ei ddatblygu, a bydd yn gwella ansawdd data, adrodd, a dulliau rheoli gwasanaethau. Ochr yn ochr â hyn, mae rhaglen o adolygiadau gwasanaeth ar y gweill, gan gynnwys Gwasanaethau Deintyddol Brys, Gwasanaethau Deintyddol Personol a gofal cartref, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth a bwriadau comisiynu yn y dyfodol.

Bydd defnyddio contractau deintyddol newydd yn ategu mwy o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd o ran gwasanaethau, a fydd o fudd i ddeintyddiaeth ar y stryd fawr a gwasanaethau deintyddol arbenigol ar draws Gogledd Cymru.

Gwasanaethau Fferylliaeth Gymunedol

Ar draws Gogledd Cymru, mae 144 o blith y 147 o fferyllfeydd cymunedol y bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau ychwanegol, gan ddangos dulliau ymgysylltu cadarn â'r rhwydwaith fferylliaeth gymunedol. Er bod rhai amrywiadau o ran y nifer a'r mathau o wasanaethau a gynigir yn parhau, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i gydweithio â chontractwyr fferyllol i leihau amrywiadau heb eu gwarantu ac i ategu cynnig gwasanaeth sy'n fwy cyson ar draws y rhanbarth.

Mae rhoi cymorth o ran practis cyffredinol a lleihau apwyntiadau gyda meddygon teulu y gellid eu hosgoi'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i weinidogion a'r sefydliad. Yn 2025/26, roedd y bwrdd iechyd yn anelu at gynyddu nifer yr ymgynghoriadau â Fferyllwyr Presgripsiynu Annibynnol (PIP) a gafodd eu cynnig ar draws maes gofal sylfaenol. Rhagorwyd ar y targed hwn, wrth i 30,900 o ymgynghoriadau PIP gael eu cwblhau yn erbyn targed o 27,835, sy'n golygu mai'r bwrdd iechyd oedd y sefydliad a oedd yn perfformio orau yng Nghymru o ran y mesur hwn. Mae hyn yn adlewyrchu

effaith bositif defnyddio sgiliau uwch ym maes fferylliaeth glinigol i wella mynediad at ofal ac i leihau pwysau ar ymarferwyr cyffredinol.

Mae rhagor o gymorth ar gyfer practis cyffredinol yn cael ei gynnig trwy'r Cynllun Anhwylderau Cyffredin (CAS), sy'n galluogi cleifion i dderbyn asesiadau a thriniaethau ar gyfer mân gyflyrau'n uniongyrchol gan fferyllfeydd cymunedol. Mae'r cynllun wedi dangos twf cyson, wrth i niferoedd ymgynghori gynyddu'n sylweddol yn ystod 2025/26. Ar gyfartaledd, cafodd rhyw 8,000 o ymgynghoriadau bob mis eu cynnig, o gymharu â rhyw 5,000 bob mis yn ystod 2022/23, gan bron i ddyblygu gweithgarwch ac yn atgyfnerthu rôl fferylliaeth gymunedol o ran rheoli galw ym maes gofal sylfaenol.

Mae arloesi o ran mynediad at feddyginiaethau hefyd yn cael ei ddatblygu trwy brosiect ar y cyd â Phrifysgol Bangor, sydd â'r nod o ystyried modelau yn y dyfodol ar gyfer darparu meddyginiaethau brys mewn lleoliadau gweledig ac anghysbell. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae cynllun peilot ar gyfer peiriant dosbarthu meddyginiaeth robotig, a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn cael ei gynnal yn Ysbyty Dolgellau. Mae'r system yn galluogi cleifion lle bo angen meddyginiaeth frys y tu allan i oriau agor fferyllfa arferol i gael mynediad yn ddiogel at feddyginiaethau presgripsiwn. Bydd unigolion sy'n cysylltu â GIG 111 Cymru y tu allan i oriau ac sy'n cael eu hasesu i fod ag angen am feddyginiaeth frys yn derbyn cod mynediad unigryw, sy'n caniatáu iddynt gasglu meddyginiaethau o'r uned robotig. Bydd y gwersi cynnar a ddysgir o'r cynllun peilot hwn yn sail i fodelau gwasanaeth yn y dyfodol ac i gynllunio systemau'n ehangach.

Gwasanaethau Menywod

Mamolaeth

Yn 2025, roedd 5,381 o enedigaethau. Roedd hyn fymryn yn is na'r 5,587 o enedigaethau yn ystod 2024. Y gyfradd am doriadau Cesaraidd yn 2025 oedd 43.44%. Roedd 14 o farw-enedigaethau (ar ôl 24 wythnos o'r cyfnod cario), sy'n hafal i 2.6 am bob 1,000 o enedigaethau, yn fras. Mae'r gyfradd hon yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru sef 4.4 am bob 1,000 o enedigaethau, fel yr adroddwyd ar gyfer 2024, gan adlewyrchu arferion clinigol a safonau gofal effeithiol.

Bu ffocws ar sicrhau bod gofynion Datganiad Ansawdd Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol yn cael eu cwblhau, a gwnaeth y bwrdd iechyd gyflawni a chwblhau pob un o'r saith cam gweithredu allweddol yn llwyddiannus o fewn y terfyn amser penodol. Mae hyn yn adlewyrchu ymagwedd gydgysylltiedig a rhagweithiol tuag at wella ansawdd, sicrwydd, a datblygu safonau gofal mamolaeth a newyddenedigol yn barhaus. Gwnaeth y bwrdd iechyd ymgysylltu'n llawn ag Asesiad o Ofal Mamolaeth a Newyddenedigol Llywodraeth Cymru ac mae'n gweithio gyda chydweithwyr ar draws y bwrdd iechyd ac ehangach yng Nghymru ar y gwelliannau parhaus.

Gynaecoleg

Mae'r gwasanaeth yn derbyn 306 dderbyniadau brys bob mis, ar gyfartaledd. Yn ystod 2025/26, nifer y cyfeiriadau at y gwasanaeth oedd 21,277, roedd hyn yn gynnydd o 14.8% (2,735) o gymharu â'r 18,492 o gyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod 2024/25. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n aros am apwyntiad cyntaf fel cleifion allanol wedi lleihau o 10,599 ar ddiwedd Mawrth 2025 i 4,801 ym mis Mawrth 2026, yn dilyn buddsoddiad

sylweddol gan Lywodraeth Cymru mewn darpariaeth fewnoli a gweithgarwch lleol ychwanegol. Fodd bynnag, mae ôl-groniad gofal dilynol wedi cynyddu o 3,195 i 6,532 yn ystod y flwyddyn, mae hyn yn gynnydd sylweddol gan fod apwyntiadau cyntaf i gleifion allanol yn uwch na'r gweithgarwch craidd arferol a ariennir. Oherwydd cynnydd cyson mewn cyfeintiau cyfeirio (5% yn 2025), nid yw'r gwasanaeth wedi cyflawni'r lefelau perfformiad disgwyliedig o ran llwybrau canser. Mae'r perfformiad presennol yn dangos bod 38% o gleifion wedi cael eu trin yn unol â'r llwybr cenedlaethol lle'r amheuir canser yn 2025/26, ond, mae'r gwasanaeth wrthi'n rhoi camau gweithredu ar waith i wella'r sefyllfa hon.

Cynllun Iechyd Menywod
Mae Cynllun Iechyd Menywod Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2024, yn amlinellu rhaglen ddeng mlynedd i wella canlyniadau iechyd a gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer menywod ar draws Cymru. Mae'r Cynllun yn mabwysiadu dull cwrs bywyd ac mae'n canolbwyntio ar wyth maes blaenoriaeth, gan gynnwys iechyd mislif, y menopos, iechyd y pelfis, endometriosis, atal cenhedlu, iechyd cyn cenhedlu, trais yn erbyn menywod a merched, a chyflyrau iechyd hirdymor.

Un o'r prif ymrwymiadau o fewn Cynllun Blynyddol 2025/26 BIPBC oedd sefydlu Hwb Iechyd Menywod erbyn mis Mawrth 2026. Mewn ymateb i hyn, cafodd Cynllun Braenaru'r Hwb Iechyd Menywod ei sefydlu yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno, gan osod y sylfeini ar gyfer model gofal mwy integredig a hygyrch ar gyfer menywod ar draws Gogledd Cymru.

Yn ystod 2025/26, gwnaed cynnydd sylweddol, gan gynnwys cwblhau asesiadau o iechyd y boblogaeth a galw, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithgareddau dylunio gwasanaethau, sicrhau cyllid a llety, a phennu trefniadau llywodraethu. Gwnaeth yr Hwb ddechrau darparu gwasanaethau fesul cam, gan gynnig mynediad i ffisiotherapi ym maes iechyd y pelfis, cymorth seicolegol, optimeiddio iechyd ar ôl camesgoriad, a gwasanaethau'r menopos. Cafodd llwybrau cyfeirio newydd, gan gynnwys llwybrau hunangyfeirio, eu datblygu hefyd er mwyn gwella mynediad at ofal.

Gwnaeth y Bwrdd Iechyd ddangos ei ymrwymiad ymhellach i iechyd menywod trwy gyflwyno Cynhadledd Iechyd Menywod yn llwyddiannus lle bu mwy na 400 o gynrychiolwyr yn bresennol. Daeth y cyfnod Braenaru ar ben ar 31 Mawrth 2026 ac ar hyn o bryd, mae'n cael ei werthuso'n ffurfiol er mwyn bod yn sail i ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol ac i ategu rhoi'r Cynllun Iechyd Menywod ar waith yn barhaus ar draws Gogledd Cymru.

Cafodd Achos Busnes ei gyflwyno i Dîm Gweithredol BIPBC ar 25 Chwefror 2026, gan amlinellu'r gofynion cyllid i ymestyn yr Hwb Braenaru ar ei ffurf bresennol. Gwnaeth y Tîm Gweithredol gefnogi parhau ag elfen gweithlu'r Hwb tan ddiwedd Mehefin 2026, gan ganiatáu cwblhau'r gwerthusiad lleol a rhoi amser i dderbyn cadarnhad ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.

Gwasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Cyflwyniad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithredu tair Adran Achosion Brys (ED) Math 1 (Acíwt) wedi'u cynnal gan rwydwaith o naw Uned Mân Anafiadau (MIUs) ar draws arwynebedd 6,172km2 (2,383mi^2) Gogledd Cymru. Mae'r bwrdd iechyd yn cael cymorth gan Ysbyty Athrofaol Brenhinol Stoke ar gyfer cleifion trawma mawr, Canolfan Walton ar gyfer anafiadau critigol i'r ymennydd ac Ysbyty Brenhinol y Galon a'r Frest yn Lerpwl ar gyfer achosion cardioleg cymhleth.

Trosglwyddiadau Ambiwlans

Ar 43,061, roedd bron i 1,858 yn llai o drosglwyddiadau ambiwlans i'n safleoedd ysbyty yn 2025/26 o gymharu â 44,919 yn 2024/25, sef lleihad o 4%. Mae prydlondeb trosglwyddo cleifion o'r ambiwlans i'r ysbyty'n elfen bwysig o ofal, nid yn unig i'r unigolyn dan sylw ond hefyd er mwyn rhyddhau'r ambiwlans i ddelio â galwadau eraill yn y gymuned. Mae'r darlun yn gymysg o ran adrodd ar berfformiad. Gwnaeth nifer y bobl y cafodd eu gofal ei drosglwyddo o fewn 45 munud gynyddu o 16,193 yn 2024/25 i 16,455 yn ystod 2025/26. Fodd bynnag, gwnaeth cleifion a oedd yn aros am fwy na phedair awr i'w gofal gael ei drosglwyddo gynyddu hefyd (o 7,775 ym mis Ebrill 2025 i 8,379 ym mis Mawrth 2026, sef cynnydd o 4% trwy gydol y flwyddyn).

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr oedi yma'n digwydd pan fo'r adran achosion brys yn llawn a'i bod yn ddiogelach ar lefel glinigol i ddelio â'r claf yn yr ambiwlans. Fodd bynnag, gall hyn effeithio ar allu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) yn ddiweddarach i ddefnyddio ambiwlansys ar gyfer achosion brys eraill. Daw oedi o ran trosglwyddiadau ambiwlans o ganlyniad i gyfyngiadau o ran llif y system, yn bennaf, nid methiant un pwynt.

Nifer yr Achosion o Oedi wrth Drosglwyddo o Ambiwlansys a oedd yn para Awr neu Fwy



Nifer yr Achosion o Oedi wrth Drosglwyddo o Ambiwlansys a oedd yn para Pedair Awr neu Fwy



Adrannau Achosion Brys

Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, roedd mwy na 180,000 o achosion yn ein Tair Adran Achosion Brys Acíwt, sef 493 o achosion bob dydd, ar gyfartaledd. Mae hyn yn gynnydd o 1,122 o achosion (0.6%) o gymharu â 2024/25. Yn ystod yr un cyfnod, roedd dros 66,000 o achosion yn ein naw Uned Mân Anafiadau (MIU), sef 181 o achosion bob dydd, ar gyfartaledd. Mae hyn yn gynnydd o 1751 (0.03%) o achosion o gymharu â 2024/25.

Yn anffodus, mae perfformiad wedi gwaethygu yn ystod y flwyddyn, gyda chanran gyfartalog y cleifion sy'n treulio mwy na 12 awr yn ein hadrannau achosion brys wedi cynyddu o 22% i 24%. Gwnaeth nifer y cleifion a oedd yn profi arosiadau o dros 12 awr gynyddu o 38,976 i 43,908 (cynnydd o 13%) a gwnaeth y sawl a oedd yn aros dros 24 awr gynyddu o 18,188 i 21,728 (cynnydd o 19%).

Oedi yn Achos Llwybrau Gofal

Mae nifer o ffactorau rhyng-gysylltiedig yn dylanwadu ar oedi o ran llif ysbyty, gan gynnwys trosglwyddiadau ambiwlans ac amseroedd aros yn yr adran achosion brys. Un ffactor sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at hyn yw oedi o ran llwybrau gofal cleifion ar ôl i unigolion gael eu hasesu i fod yn addas ar lefel feddygol i'w rhyddhau. Pan fydd oedi cyn rhyddhau, bydd cleifion yn parhau i lenwi gwelyau cleifion mewnol, gan leihau'r capasiti am dderbyniadau newydd. Mae hyn yn cyfyngu ar symudiadau cleifion o'r adran achosion brys i wardiau, gan gynyddu amseroedd aros a chyfrannu at orlenwi. Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar drosglwyddiadau ambiwlans, wrth i allu adrannau achosion brys i ddelio â chleifion newydd yn brydlon fynd yn is. Yn aml, mae'r oedi hwn yn gysylltiedig â ffactorau y tu hwnt i'r ysbyty, megis argaeledd gofal cymdeithasol, gwasanaethau cymunedol, a'r cydlyniant sydd ei angen ar gyfer cleifion sydd ag anghenion cymhleth. O ganlyniad, gall oedi o ran llwybrau rhyddhau greu tagfeydd ar draws y system, sy'n golygu eu bod yn un o'r prif ysgogiadau, nid yr unig ysgogiad, o ran llif ysbyty is a phwysau'n ymwneud â pherfformiad.

Yn ystod 2025/26, roedd 318 o gleifion bob mis, ar gyfartaledd, lle gwelwyd oedi o ran eu llwybr gofal. Mae'r diwrnodau bob mis lle gwelwyd oedi ar gyfartaledd wedi cynyddu o 10,721 o ddiwrnodau i 12,520 o ddiwrnodau o 2024/25 hyd at 2025/26. Gwelwyd cynnydd cyffredinol o 21,583 o ddiwrnodau lle gwelwyd oedi wrth gymharu â

chyfanswm nifer o ddiwrnodau lle gwelwyd oedi yn 2024/25 hyd at 25/26. Mae'r rhain yn amrywio rhwng oedi o ran asesiadau mewnol, asesiadau amlasiantaethol (gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol), llunio'r pecynnau gofal priodol a diffyg gwelyau mewn lleoliadau nyrsio a chartrefi gofal.

Sbrintiau'r Gaeaf

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gyfarwyddo dau sbrint y gaeaf ar draws Cymru er mwyn gwella oedi o ran llwybrau gofal a gwella llif cleifion gan gydweithio ag awdurdodau lleol.

Gwnaeth Sbrint 1 arwain at welliannau, gan gynnwys lleihad o 21.8% o ran cleifion sy'n profi oedi o ran Llwybrau Gofal (PoCD) a lleihad o 13.9% o ran diwrnodau colli gwelyau, gan hefyd atgyfnerthu gwaith amlddisgyblaethol, gweledegd rhyddhau o'r ysbyty a llif dros y penwythnos.

Roedd Sbrint 2 yn canolbwyntio ar gynnal y cynnydd hwn, ymgorffori ymddygiad newydd, atgyfnerthu prosesau penderfynu ar sail data, a sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cynnal yn wyneb pwysau tymhorol wedi'r Nadolig. Gwnaeth y system ddangos adferiad cyflymach o gymharu â gaeafau yn y gorffennol, gan gadarnhau gwell gwydnwch ar draws pob un o'r tri safle acíwt.

Gofal Strôc

Mae perfformiad o ran gofal strôc yn ystod y cyfnod adrodd islaw'r safonau a ddisgwylir gan boblogaeth Gogledd Cymru. Mae cydymffurfiaeth â nifer o fesurau Rhaglen Archwilio Genedlaethol Sentinel Strôc (SSNAP) yn parhau i fod yn isel, gan amlygu heriau parhaus ar draws y llwybr strôc.

Ar gyfartaledd, mae 112 o gleifion bob mis yn cael eu derbyn i'r ysbyty gydag achos tybiedig o strôc, ac o'r rhain, caiff 27% o gleifion eu trosglwyddo i Uned Strôc Acíwt (ASU) o fewn y targed o bedair awr. Mae perfformiad yn amrywio ar draws safleoedd gan fod cydymffurfiaeth ar 46.5% yn Ysbyty Gwynedd, 20.8% yn Ysbyty Glan Clwyd a 18.4% yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Dim ond 13.2% o gleifion a oedd yn gymwys ar gyfer thrombolysis a dderbyniodd driniaeth, o gymharu â tharged cenedlaethol o 20%. Yn yr un modd, dim ond 2.8% a gafodd thrombectomi, 7.2 pwynt canran yn fyr o'r targed cenedlaethol o 10%.

Mae thrombolysis a thrombectomi'n ymyriadau lle bo amser yn hollbwysig sy'n gwella canlyniadau'n sylweddol o gael eu cynnig yn brydlon ar ôl i strôc ddechrau. Efallai y bydd cyfraddau triniaeth is, yn rhannol, yn adlewyrchu patrymau o ran cyflwyniad a allai beri oedi i gydnabod ac uwchgyfeirio. Mae rhyw 50% o gleifion strôc yn mynd drostynt eu hunain at adrannau achosion brys ar draws y bwrdd iechyd, gan godi i dros 60% yn Ysbyty Maelor Wrecsam dros nifer o fisoedd yn ystod y cyfnod adrodd. Yn ogystal, mae mynediad cyfyngedig at staff arbenigol ym maes strôc y tu allan i oriau'n cyfrannu at amrywiadau o ran rheoli cleifion strôc acíwt, gan effeithio ar berfformiad cyffredinol o ran dangosyddion allweddol.

Er bod y perfformiad presennol yn tynnu sylw at yr angen am gydlynu llwybrau'n well, canfod achosion yn gynt, a gweithio cryfach ar draws systemau, mae arwyddion

cynnar o gynnydd. Mae cyflwyno dulliau brysbennu cyn-ysbyty dros fideo ganol mis Chwefror 2026 yn cynorthwyo gwneud diagnosis yn gynt ac yn hwyluso mynediad prydlon at driniaethau megis thrombolysis a thrombectomi.

Bydd y bwriad i gyflwyno delweddu darlifiad trwy Domograffeg Gyfrifiadurol (CT), yn ddiweddarach eleni, sy'n ymestyn y cwmpas therapiwtig ar gyfer triniaethau adfer llif y gwaed, yn gwella mynediad at yr ymyriadau hyn ac yn cymell manteision i berfformiad.

Bydd gwella llwybrau strôc hyperacíwt, yn enwedig mynediad prydlon i Unedau Strôc Acíwt (ASU) a gwell mynediad at therapïau adfer llif y gwaed, yn hollbwysig er mwyn gwella canlyniadau i gleifion ac i leihau amrywiadau anesgusodol o ran gofal ar draws Gogledd Cymru.

Y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Mae cyflawni rhaglen genedlaethol y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ochr yn ochr â rhaglenni mawr allweddol lleol, yn parhau i aeddfedu ac i gryfhau. Caiff y gwaith hwn ei danategu gan drefniadau rhanbarthol effeithiol ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a'n chwe phartner awdurdod lleol, yn cynnwys ymrwymiad ar y cyd i wella canlyniadau a mynediad at wasanaethau ar gyfer y boblogaeth leol.

Mae'r prif fentrau gwella'n cynnwys datblygu gwasanaethau cymunedol ym maes atal codymau, rhoi Un Pwynt Mynediad (SPOA) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ar waith, a sefydlu Gwasanaethau Eiddilwch Acíwt wrth y Drws Ffrynt ar draws yr holl safleoedd ysbytai acíwt.

Gofal wedi'i Gynllunio a Chanser

Canser

Yn ystod 2025/26, cafodd dros 55,000 o gleifion eu cyfeirio at y Bwrdd Iechyd gyda symptomau lle'r amheuwyd canser. O'r rhain, derbyniodd dros 5,700 ddiagnosis canser (rhyw 10%). Bob mis, bydd dros 4,500 o bobl yn derbyn profion ar gyfer symptomau lle'r amheuir canser a bydd rhyw 4000 o gleifion yn derbyn y newyddion positif na chafodd canser ei ganfod. Mae nifer y cleifion sy'n dod trwy'r broses llwybr carlam wedi codi'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf, ond mae bellach yn sefydlogi. Mae'r cynnydd hwn o ran y niferoedd wedi herio'r bwrdd iechyd o ran canfod y capasiti gwasanaeth sy'n ofynnol i fodloni'r terfynau amser 62 diwrnod sydd wedi'u pennu ar gyfer y llwybr hwn.

Felly, mae perfformiad o ran targed y llwybr lle'r amheuir canser (SCP) yn parhau i wynebu heriau gan fod cydymffurfiaeth ar y cyfan wedi gostwng i 55.% yn ystod y flwyddyn. Mae pwysau o ran y gweithlu yn parhau mewn nifer o arbenigeddau allweddol gan gynnwys dermatoleg, gastroenteroleg ac wroleg ac mae'r meysydd allweddol hyn yn arwain at oedi i nifer fawr o gleifion.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r bwrdd iechyd wedi ehangu ei wasanaeth teledermosgopi i ategu'r gwasanaethau dermatoleg, yn ogystal â chontractio gweithgarwch ychwanegol gan bartïon allanol. O fewn gwasanaethau gastroberfeddol, mae gwasanaeth

brysbennu newydd o dan arweiniad nyrsys wedi cael ei gyflwyno ar yr holl safleoedd er mwyn symleiddio llwybrau a lleihau amser cyn cael diagnosis.

Diagnosteg

Nifer y cleifion sy'n aros 8 wythnos am ddiagnostig penodol



Gwnaeth y nifer a oedd yn aros am fwy nag wyth wythnos am weithred ddiagnostig adroddadwy gynyddu yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y ffocws ychwanegol ar leihau nifer y cleifion a oedd yn aros am fwy na 52 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol o dros 30,000 ym mis Awst 2025 i 5,858 ar ddiwedd mis Mawrth 2026 a arweiniodd yn ei dro at alw ychwanegol am archwiliadau diagnostig.

Cafodd capasiti ychwanegol ei gomisiynu trwy gydol y flwyddyn mewn rhai meysydd ac yn benodol yn ystod chwarter 4 i gynorthwyo dulliau ym maes radioleg ac endosgopi. Gwnaeth hyn ategu'r lleihad o ran y niferoedd a oedd yn aros rhwng mis Ionawr 2026 a diwedd mis Mawrth 2026. Disgwylir i'r gwelliant hwn barhau yn ystod 2026/27.

Llwybrau Cyfeirio at Driniaeth (RTT)

Mae llwybr cyfeirio at driniaeth (RTT) yn ymdrin â'r pedwar cam y bydd claf yn eu dilyn ar ôl cael ei gyfeirio at driniaeth yn yr ysbyty. Y rhain yw:

- Cam 1: amser sy'n cael ei dreulio'n aros rhwng cyfeirio ac apwyntiad cyntaf i gleifion allanol
- Camau 2 a 3: Profion diagnostig, sganiau neu weithredoedd eraill y gallai fod eu hangen cyn cael triniaeth, gan gynnwys penderfyniad am y camau nesaf o ran triniaeth os bydd angen
- Cam 4: yr arhosiad i driniaeth ddechrau (cleifion mewnol neu achos dydd)

Nifer y cleifion sy'n aros dros 156 wythnos am driniaeth



Nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos am driniaeth



Nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad cleifion allanol newydd



Trwy gydol 2025/26, bu ffocws ar leihau nifer y bobl sy'n profi'r arosiadau hiraf. O ddiwedd Mawrth 2026, nid oedd unrhyw gleifion yn aros am 208 wythnos neu fwy gan gynnal y sefyllfa ers 2025.

Cleifion sy'n aros mwy na 156 wythnos a 104 wythnos fu'r prif ffocws yn ystod y flwyddyn yn cynnwys lleihad sylweddol o ran y ddwy garfan. Mae'r sefyllfa 156 wythnos wedi lleihau o 599 ar ddiwedd Mawrth 2025 i ddau glaf ar ddiwedd Mawrth 2026. Yn yr un modd, mae perfformiad tordyletswydd 104+ wythnos ar 2,161 wedi gwella o 63% ers diwedd Mawrth 2025, sef lleihad o 3,658 o gleifion. Mae hyn yn ogystal â'r 2,500 o gleifion, yn fras, sy'n cael eu gweld bob mis ar y llwybrau gofal

rheolaidd. Mae ymhell dros 30,000 o bobl wedi cael eu gweld yn ystod y flwyddyn o fewn llwybrau Cyfeirio at Driniaeth.

Disgwylir lleihad parhaus yn achos cleifion sy'n aros o fewn y garfan 104 wythnos ac mae'r bwrdd iechyd yn derbyn cymorth pellach gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn y maes hwn.

Mae nifer y cleifion sy'n aros am fwy na 52 wythnos am apwyntiad newydd i gleifion allanol wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y flwyddyn o'r lefel uchaf sef, 31,357 ym mis Mai 2025 i 5,858 ar ddiwedd mis Mawrth 2026, sef lleihad o 83.1%.

Yn 2025/26, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i wynebu llawer o heriau ac mae'n parhau i fynd i'r afael â'r heriau hyn trwy'r canlynol;

- gwell defnydd o gapasiti mewnol
- dilysu cleifion sy'n aros am weithredoedd
- rhoi methodoleg Trin yn eu Tro ar waith ac
- ymgysylltu â'r sector masnachol i gynnig datrysiadau byrdymor ar gyfer diffygion capasiti.

Cleifion sy'n aros am fwy na 100% o amser clinigol dilynol priodol



Mae nifer y cleifion sy'n aros y tu hwnt i 100% o'u gofal dilynol clinigol arfaethedig wedi cynyddu trwy gydol y flwyddyn i 128,079 ar ddiwedd mis Mawrth 2026. Y pedwar arbenigedd gyda'r cyfaint mwyaf o gleifion sy'n aros am fwy na 100% yw offthalmoleg, gastroenteroleg, trawma ac orthopedig ac wroleg sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am ryw 45.4% (58,144) o'r cyfanswm.

Mae Rhaglen Newid Mawr Gofal wedi'i Gynllunio yn darparu'r fframwaith i integreiddio'r broses o ailddylunio llwybrau, arfer gorau cenedlaethol, argymhellion GIRFT ac egwyddorion gofal iechyd yn seiliedig ar werth.

Gwasanaethau Therapi

Mae nifer y cleifion sy'n profi arosiadau am fwy na 14 wythnos am ymyriadau therapi wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Mae'r prif bwysau i'w gael ym maes ffisiotherapi, oherwydd prinder llety addas, ac yn ogystal, mae lefelau staffio'n effeithio ar ddeieteg.

Nifer y cleifion (pob oed) sy'n aros mwy na 14 wythnos am therapi penodol



Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) (18 oed ac yn hŷn)

Iechyd Meddwl

Mae'r bwrdd iechyd wedi croesawu cyhoeddi Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Llywodraeth Cymru, sydd ynghyd â hwyluso'r Rhaglen Strategol Iechyd Meddwl yn ein cynorthwyo i wneud gwelliannau ar draws ein gwasanaethau ar ffurf gwybodaeth a chyfarwyddyd wedi'u rhannu ledled Cymru. Gan ategu ein portffolio trawsnewid presennol, rydym wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu a chyflwyno model mynediad agored ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn gwella mynediad ar gyfer ein cleifion ac yn y pen draw, caiff ei gynorthwyo a'i wella trwy roi'r Cofnod Iechyd Electronig ar waith yr ydym wedi'i ddatblygu hyd at y cam caffael eleni. Rydym hefyd wedi ehangu o ran darparu ein gwasanaethau arbenigol trwy ddatblygu gwasanaeth niwed trwy gamblo a lansiwyd ym mis Ebrill 2026.

Mae perfformiad o ran rhan 1 (asesu) o'r Mesur Iechyd Meddwl wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyflwyno 1,051 yn fwy o asesiadau a 426 yn fwy o ymyriadau cyntaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o dan ran 1 y Mesur Iechyd Meddwl. Rydym wedi lansio defnydd ehangach o blatfform electronig Silver Cloud ym mis Mawrth 2026 er mwyn cynorthwyo cleifion ymhellach sydd ag anghenion iechyd meddwl sy'n amrywio rhwng bod yn ysgafn a chymedrol.

Mesur Iechyd Meddwl (MHM) Oedolion Rhan 1a: Cyfeirio at Asesu o fewn 28 Diwrnod



Mesur Iechyd Meddwl Oedolion Rhan 1b: Asesu hyd at ymyrraeth Therapiwtig o fewn 28 Diwrnod



Mae cyflawni Rhan 2 y Mesur Iechyd Meddwl, er ei fod yn rhannol gyson, yn parhau o fod yn fyr o gyflawni'r targed. Mae'r timau wedi dechrau rhoi cynllun gweithredu ar gyfer gwella ar waith sy'n ymdrin â llwybrau, rheoli argyfyngau yn y gymuned yn ogystal â chofnodi data er mwyn sicrhau ein bod yn symud at sefyllfa well ar gyfer ein cleifion yn y dyfodol.

Mesur Iechyd Meddwl Oedolion Rhan 2: Cynllun Triniaeth a Gofal Dilys ar Waith



Materion staffio fu'r prif ddylanwad ar gyflawni o ran y mesur therapïau seicolegol sydd wedi arwain at ddirywiad perfformiad yn ystod y flwyddyn. Bydd recriwtio arfaethedig ar ddechrau 2025/26 yn ategu adfer y sefyllfa hon.

Therapïau Seicolegol: Cyfeirio at driniaeth o fewn 26 Wythnos



Gwnaeth perfformiad therapïau seicolegol ddangos gwelliannau yn ystod y flwyddyn ond mae materion amgylcheddol wedi effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau'n unol ag anghenion. Mae datrysiadau'n cael eu datblygu er mwyn gwella'r sefyllfa i gleifion a staff.

Lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal yn ystod 2025/26. Dechreuodd y flwyddyn gyda 17 o gleifion mewn lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal, gan leihau i ddeg o gleifion erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Roedd hyn yn fodd o gyflawni'r targed diwedd blwyddyn y cytunwyd arno'n lleol yn cynnwys 10 o gleifion ac mae'n adlewyrchu ffocws parhaus ar wella llif cleifion, atgyfnerthu goruchwyliaeth glinigol, a gwella capasiti gwasanaethau lleol.

Gan adeiladu ar y cynnydd hwn, mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi datblygu rhaglen uchelgeisiol ar gyfer 2026/27 gyda'r nod o gael gwared ar leoliadau y Tu Allan i'r Ardal yn gyfan gwbl. Mae'r llwybr at sicrhau sefyllfa o ddim lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal wedi'i danategu gan bum galluogydd allweddol: goruchwylio a phenderfynu clinigol cryfach, gwasanaethau gwell o ran argyfyngau ac osgoi derbyn i'r ysbyty, gwell llif o ran cleifion a hyd arhosiad is, ailddylunio llwybrau ac optimeiddio capasiti, a threfniadau cadarn o ran llywodraethu ac atebolrwydd.

Mae'r prif gamau gweithredu'n cynnwys uwch oruchwyliaeth glinigol o ran yr holl geisiadau am leoliadau y Tu Allan i'r Ardal, rhoi model derbyniadau pwrpasol ar waith yn cynnwys dulliau clir o ran cynllunio at ryddhau o'r adeg derbyn, datblygu dewisiadau amgen gwell ar gyfer rheoli argyfwng yn y gymuned, dulliau rheoli cryfach o ran oedi gyda rhyddhau, gwerthuso a chyflwyno modelau gwasanaeth llwyddiannus yn ehangach, a monitro gweithgarwch lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal ar lefel weithredol. Gyda'n gilydd, bydd y mesurau hyn yn ategu cyflawni llwybrau gofal lleol cynaliadwy ac yn lleihau dibyniaeth ar leoliadau y Tu Allan i'r Ardal ymhellach yn ystod 2026/27.

Anableddau Dysgu

Mae ychydig dros 3,000 o oedolion wedi cofrestru â meddygon teulu fel rhai sydd ag anabledd dysgu o fewn poblogaeth y bwrdd iechyd. O'r rhain, roedd 763 wedi ymgysylltu â Gwasanaethau Anableddau Dysgu ar gyfer Oedolion yn PBC erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phractisau

meddygon teulu i gynorthwyo gyda'u cylch gwaith o ran cynnig Gwiriadau Iechyd Blynyddol i unigolion sydd ag anableddau dysgu. Mae hyn yn cynnwys cymorth uniongyrchol ar gyfer cleifion a chydweithio â phractisau, ochr yn ochr â defnyddio'r systemau data presennol o ran gofal sylfaenol Cymru Gyfan, sydd wedi cael eu cyflwyno er mwyn atgyfnerthu'r broses o gofnodi, monitro ac adrodd gweithgarwch yn ymwneud â Gwiriadau Iechyd Blynyddol ar draws practisau meddygon teulu. Rydym yn gweithio gyda phractisau meddygon teulu a thimau digidol i optimeiddio ansawdd data, gwella cysondeb codio, a gwella llifoedd data o fewn y systemau hyn. Mae cymorth uniongyrchol i gleifion yn canolbwyntio ar hwyluso'r niferoedd sy'n manteisio ar wiriadau iechyd i gleifion a'r broses o'u cynnig, yn enwedig y rhai mewn lleoliadau anodd eu cyrraedd, trwy en Tîm Cyswllt Iechyd a'n mentrau 'Lab mewn Bag'. Yn ogystal, lle mae mynediad at wasanaethau meddygon teulu'n parhau i fod yn gyfyngedig, rydym yn atgyfnerthu modelau clinig cydweithredol ymhellach gyda meddygon teulu, er mwyn gwella hygyrchedd a sicrhau bod darpariaeth gwiriadau iechyd yn deg. Ar gyfer y flwyddyn 2025/26, adroddir mai 37% yw canran y sawl sy'n manteisio ar y cynnig i gael Gwiriadau Iechyd Blynyddol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi dechrau adrodd yn ffurfiol ar y Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd o fis Rhagfyr 2025 ac erbyn diwedd y flwyddyn, sicrhaodd lefel gydymffurfiaeth o 73% o gymharu â'r targed cenedlaethol o 80%.

Mae'r bwrdd iechyd wedi gweld cynnydd graddol o ran y sawl sy'n manteisio ar Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anableddau Paul Ridd ac mae'n cyflawni 86.29% ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â'r targed o 50%.

Hyfforddiant Ymwbyddiaeth o Anableddau Dysgu Paul Ridd



Gwasanaethau Plant

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Ar 88.9% ar gyfer Rhan 1a (targed o 80%) a 91.3% (targed o 90%) ar gyfer Rhan 2 o'r Mesur Iechyd Meddwl, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos gwelliant cyson o ran darparu asesiadau a chynlluniau triniaeth a gofal dilys ar gyfer y rhai sydd o dan 18 oed. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran cydymffurfiaeth â Rhan 1b, gan gyflawni 85.6% yn erbyn y targed o 80% ym mis Mawrth 2026. Bydd datblygu'r ddarpariaeth grŵp o fewn gwasanaeth CAMHS yn ategu cynaliadwyedd o ran cyrraedd targedau Rhan 1. Mae datblygu gwasanaethau newydd megis gwasanaeth Hwb y Plant yn Y Rhyl yn parhau, gan weithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau addysg a gofal cymdeithasol.

Rhan 1a Canran Asesiadau CAMHS o fewn 28 diwrnod



Rhan 1b Canran Ymyriadau therapiwtig CAMHS o fewn 28 diwrnod o asesu



CAMHS Rhan 2: Cynllun Triniaeth a Gofal Dilys ar Waith



Niwroddatblygiad

Yng Ngogledd Cymru, roedd dros 6,920 o blant a phobl ifanc ar y rhestr aros am asesiad niwroddatblygiad erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am asesiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn unol â'r darlun cenedlaethol ochr yn ochr â chapasit cyfyngedig o fewn y timau cymharol fach. Mae perfformiad o gymharu â'r targed 26 wythnos ym maes niwroddatblygiad er mwyn i blant a phobl ifanc fanteisio ar y gwasanaeth niwroddatblygiad yn wael ar 12.3% ym mis Mawrth 2026, o gymharu â 15.1% ym mis Mawrth 2025.

Yn dilyn adolygiad o'r broses asesu lawn a chyflwyno asesiadau darbodus, mae'r gweithgarwch yr ymgymerir ag ef gan y timau wedi cynyddu o 63%. O ganlyniad, mae'r bwlch misol o ran capasiti wedi lleihau o 227 i 154 ar draws y bwrdd iechyd.

Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n aros am lai na 26 wythnos am asesiad niwroddatblygiad



Cydnabyddir yn genedlaethol nad yw'r modelau gwasanaeth presennol i blant a phobl ifanc lle bo angen asesiadau, diagnosis, a chymorth ar gyfer cyflyrau niwrowahanol yn addas at eu diben mwyach. I gydnabod hyn, mae byrddau iechyd yng Nghymru yn gweithio ochr yn ochr â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Plant a Llywodraeth Cymru i ddatblygu modelau gwasanaeth a llwybrau priodol sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well. Yn y cyfamser, mae'r bwrdd iechyd yn cymryd camau i leihau'r amseroedd aros ar gyfer plant lle bo angen mynediad at y gwasanaeth, gan gynnwys mewnoli / allanoli mwy o gapasiti.

5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu nifer o ofynion i gyrff cyhoeddus unigol, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i wneud y canlynol:

- Pennu a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n uchafu cyfraniad y Bwrdd Iechyd at y saith nod llesiant cenedlaethol (Adran 3(2)(a)) a chymryd yr holl gamau rhesymol i gyrraedd yr amcanion hynny (Adran 3(2)(b)).
- Cyhoeddi datganiad yn ymwneud ag amcanion llesiant (Adran 7(1)).
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn dangos y cynnydd a wnaed o ran cyrraedd amcanion y sefydliad (Adran 13(1) ac Atodlen 1).
- Cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol trwy baratoi Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cymdeithasol (Adran 18) mewn partneriaeth ag Undebau Llafur cydnabyddedig.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a sut mae rhaglen strategol, partneriaethau a chynlluniau cyflawni'r Bwrdd Iechyd yn gwella llesiant ar draws Gogledd Cymru. Mae'n crynhoi cynnydd yn 2025 - 2026, yn disgrifio'r amcanion wedi'u hadnewyddu, ac mae'n tynnu sylw at feysydd allweddol yn ymwneud â chydweithio ac arwain systemau.

Ffigur 1 - Amcanion Llesiant BIPBC

Dechreuodd y broses o adnewyddu amcanion llesiant y bwrdd iechyd ym mis Gorffennaf 2024 a chafodd ei chymeradwyo ym mis Mai 2025. Wrth bennu'r amcanion, mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud y canlynol:

- cymhwyso'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy a'r saith nod llesiant cenedlaethol;
- mabwysiadu trosolwg hirdymor ar anghenion iechyd a gofal ein poblogaeth gan gynnwys galw yn y dyfodol, gofynion y gweithlu, ac effaith ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach;
- blaenoriaethu atal trwy ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, lleihau niwed a salwch y gellid eu hosgoi, a chynorthwyo pobl i fyw bywydau iachach am yn hirach; ac
- alinio â fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau BIPBC.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llesiant er mwyn arolygu'r gwaith i adolygu'r amcanion. Er mwyn mabwysiadu ymagwedd strwythuredig a chymesur, cafwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, Comisiwn Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol, Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru a chynrychiolwyr Undebau Llafur.

Cafodd yr adolygiad ei lywio gan dystiolaeth a gasglwyd o'r canlynol:

- Asesiad o arfer cyfredol o ran gwaith teg a chaffael a chontractio sy'n gyfrifol ar lefel gymdeithasol. Canfuwyd bylchau a chytunwyd ar gamau gweithredu i wella gwaith teg, caffael a chontractio.

- Gweithgareddau llesiant ar gyfer y Bwrdd Iechyd a phartneriaethau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, atal, penderfynyddion ehangach iechyd a datgarboneiddio.
- Crynodeb BIPBC o rannau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yng Nghytundeb Cyfunol 2022 - 2024.

Yn ogystal, cafodd arolwg i'r cyhoedd a staff ei gyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol ac ym mwletin y staff, a chafodd holiaduron eu dosbarthu ymysg pob un o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Roedd y gwaith hwn, ynghyd â'r adborth ymgysylltu, yn sail i adolygu amcanion llesiant BIPBC. Mae'r amcanion wedi cael eu cynllunio i integreiddio â'r saith nod llesiant cenedlaethol, yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac â chynlluniau partneriaid, gan sicrhau bod camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at ymagwedd gydlynus a system gyfan tuag at wella llesiant ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r amcanion yn adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r boblogaeth yn eu hwynebu, megis newid demograffig, anghydraddoldebau iechyd, ac argyfwng yr hinsawdd, ac mae'n pennu cyfeiriad clir ar gyfer gwelliant cynaliadwy a hirdymor.

Nodau llesiant cenedlaethol ac egwyddorion datblygu cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy weithredu mewn ffordd gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar bum egwyddor datblygu cynaliadwy allweddol - ystyriaethau, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys yn y tymor hir. Mae'r Ddeddf hefyd yn diffinio sut mae'n rhaid i sefydliadau weithredu er mwyn cyflawni saith nod llesiant cenedlaethol. Bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau ei fod yn cyfrannu gymaint â phosibl at bob un o'r nodau.

Ffigur 2 - Pum egwyddor datblygu cynaliadwy allweddol a saith nod llesiant cenedlaethol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Mae'r aliniad rhwng amcanion llesiant y bwrdd iechyd a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r saith nod llesiant cenedlaethol yn helpu i sicrhau bod camau gweithredu'n creu system iechyd o ansawdd ar gyfer pobl gogledd Cymru.

Rhaglen strategaeth y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd yn datblygu rhaglen strategaeth fawr sydd â'r bwriad o lunio dyfodol iechyd a llesiant ar draws gogledd Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu pedwar cynnyrch strategol rhyng-gysylltiedig - y Weledigaeth Strategol a Bwriadau Strategol, y Strategaeth 10 Mlynedd a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol.

Mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael eu cymhwyso i'r rhaglen strategaeth er mwyn sicrhau bod y bwrdd iechyd yn gweithredu mewn ffordd sy'n gwella llesiant nawr ac yn y dyfodol.

Cynnyrch Strategol BIPBC:	Sut mae ymagwedd strategol BIPBC yn ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Egwyddorion datblygu cynaliadwy
Gweledigaeth Strategol Ddrafft	Sefydlu cyfeiriad sy'n canolbwyntio ar y dyfodol sy'n ystyried anghenion cenedlaethau yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth yn ymgorffori newid tuag at ymyrraeth gynnar a gwella iechyd yn y tymor hir.	Ataliaeth
Bwriadau Strategol	Mae'r Bwriadau Strategol yn trosi'r weledigaeth yn feysydd ffocws blaenoriaethol sydd â'r nod o leihau galw ar wasanaethau ac sy'n mynd i'r afael â gwraidd achosion salwch trwy alinio blaenoriaethau â'r saith nod llesiant cenedlaethol a chynlluniau sector cyhoeddus eraill.	Atal ac Integreiddio
Strategaeth 10 Mlynedd	Bydd yn darparu glasbrint ar gyfer cyflawni'r Weledigaeth a'r Bwriadau Strategol, gan ymgorffori modelau gofal ataliol a buddsoddi mewn adnoddau'n gynt. Caiff hyn ei gyflawni trwy gydgynllunio â phartneriaid a darparu gorwel gynllunio ar gyfer gweithlu, ystadau, digidol a chynaliadwyedd ariannol BIPBC.	Cydweithio a'r Tymor Hir
Y Cynllun Gwasanaethau Clinigol	Bydd yn canolbwyntio ar sut caiff gwasanaethau eu trefnu i ddiwallu anghenion yn y dyfodol trwy gynllunio llwybrau clinigol sy'n lleihau niwed, salwch a galw am wasanaethau y gellid ei osgoi. Bydd cleifion, clinigwyr a chymunedau'n helpu i lunio modelau gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y boblogaeth ac sy'n cynnig gofal diogel a chynaliadwy.	Atal, Cydweithio a Chynnwys

Mesur Cynnydd

Bydd Strategaeth Hirdymor a Chynllun Gwasanaethau Clinigol y bwrdd iechyd yn dod â'r bwriadau strategol, yr amcanion llesiant a'r cynlluniau strategol allweddol ynghyd un mewn lle, gan amlinellu'r fframwaith ar gyfer yr iteriad nesaf o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. (IMTP) Bydd hyn yn cynnwys gwelliannau mesuradwy yn unol â chyfres gytunedig o ddangosyddion a fydd yn cyd-fynd â'r weledigaeth strategol ddrafft, dangosyddion perfformiad ac sydd wedi'u pennu'n unol â'r amcanion llesiant a'r fframweithiau canlyniadau cenedlaethol.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gweithio gyda staff a phartneriaid i gytuno ar y canlyniadau cyffredinol y byddwn yn ceisio eu cyflawni. Er nad yw'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am bob un ffactor sy'n pennu iechyd a llesiant cyffredinol poblogaeth Gogledd Cymru, bydd y dangosyddion a'r canlyniadau'n ganllaw i ddangos effaith y Strategaeth Hirdymor a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r modd o'u cyflawni.

Beth Nesaf

Mae'n hamcanion llesiant yn sail i wella sut rydym yn gweithio er mwyn gwella iechyd a llesiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae IMTP 2026 - 2029 a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026 - 2027 yn amlinellu camau gweithredu ar gyfer cyflawni sy'n ategu bwriadau strategol a datganiad gweledigaeth ddrafft y Bwrdd Iechyd.

Fel rhan o waith ymgysylltu ehangach ar ddatblygu Strategaeth Hirdymor a Chynllun Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd Iechyd - caiff adolygiad pellach o'r amcanion llesiant ei gynnal gyda phartneriaid a rhanddeiliaid sy'n cyd-fynd â'r terfynau amser o ran ymgysylltu â'r Strategaeth Hirdymor. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y negeseuon a geir yn adroddiad 'Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' - a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2025.

6. Y Gymraeg

Mae darparu gwasanaethau yn newis iaith cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn hanfodol i ddarparu gofal o ansawdd uchel, ac mae o arwyddocâd arbennig i unigolion sy'n agored i niwed. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu o fewn fframwaith statudol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a pharhau i fod yn atebol i Gomisiynydd y Gymraeg am sicrwydd a chraffu allanol.

Mae ein dull yn cyd-fynd â fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sef Mwy na Geiriau. Mae arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael eu cyflawni drwy Fforwm Strategol y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bob chwarter i ystyried materion yn ymwneud ag atebolrwydd, rheoli risg, adrodd ar bryderon, a chydnabod llwyddiannau'n ffurfiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r prif feysydd ffocws wedi cynnwys y canlynol:

- Atgyfnerthu darpariaeth weithredol o ran Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys rhoi'r cynllun pum mlynedd ar waith sy'n gysylltiedig â Safon 110, sy'n amlinellu

sut y gellir gwella capasiti i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, gan anelu gwaith wedi'i dargedu at grwpiau blaenoriaeth
- Blaenoriaethu Rhaglen Hyfforddiant y Gymraeg ar gyfer grwpiau staff sy'n cyd-fynd â'r Safonau a chynllun pum mlynedd Mwy na geiriau
- Gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol a gweledded o ran y Gymraeg trwy ymgyrchoedd, gweithgareddau mewnol, lledaenu arfer gorau
- Manteisio gymaint â phosibl ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ategu hyfforddiant mewnol yn y gweithle, a darparu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer byrddau iechyd eraill trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth er mwyn optimeiddio capasiti ac arbenigedd

Trwy'r gwaith hwn, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ymgorffori dull sy'n canolbwyntio ar gleifion sy'n sicrhau bod unigolion yn derbyn gofal prydlon wedi'i gynnig yn eu dewis iaith, gan ategu ansawdd a thegwch o ran darpariaeth gwasanaeth.

Mae seilwaith Tîm y Gymraeg yn cyd-fynd â phedwar maes ffocws penodol sy'n sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion a'r hyn sy'n ofynnol. Mae cynnydd wedi'i wneud ar draws yr holl feysydd i wella ein capasiti i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Deddfwriaeth a Llywodraethu

Fel sefydliad sector cyhoeddus sy'n gweithredu o dan fframwaith deddfwriaethol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, dyletswydd y Bwrdd Iechyd yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth i gleifion gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith wedi canolbwyntio ar atgyfnerthu integreiddio gofynion y Gymraeg ar draws rhaglenni sefydliadol allweddol. Mae Tîm y Gymraeg wedi cyflawni rôl ganolog o ran llunio'r manylebau ar gyfer system cofnodion iechyd ym maes Iechyd Meddwl, gan sicrhau bod dewis iaith yn cael ei ymgorffori o'r cychwyn cyntaf wrth ddylunio systemau.

Mae cynnydd pellach wedi'i wneud o ran gwella asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn ymwneud â newidiadau i wasanaethau, gan sicrhau bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn cael eu prif ffrydio'n llawn o fewn prosesau cynllunio a phenderfynu.

Fel rhan o drefniadau llywodraethu'r Gymraeg, caiff adolygiadau Siopwr Cudd eu cynnal bob chwarter er mwyn asesu cydymffuriaeth y sefydliad â Safonau'r Gymraeg ac i nodi cyfleoedd am welliannau pellach. Mae'r adolygiadau hyn yn archwilio gweledded a chywirdeb arwyddion dwyieithog, ansawdd rhyngweithiadau o'r pwynt cyntaf, ac argaeledd adnoddau yn y Gymraeg. Mae'r canfyddiadau'n ategu darpariaeth gyson o ran gwasanaethau ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg ar draws yr holl safleoedd ac maent yn amlygu meysydd lle y gellir atgyfnerthu profiadau cleifion wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ac ar draws sianeli digidol. Eir i'r afael â chanlyniadau o'r profiadau hyn trwy brosesau llywodraethu sefydledig, gan helpu i wella ansawdd gwasanaethau ac i atgyfnerthu llesiant emosiynol cleifion, yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ofal dwyieithog o ansawdd uchel.

Hyrwyddo'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ a'i Weithredu

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaeth y bwrdd iechyd ymgymryd â chyfres o fentrau a oedd â'r bwriad o atgyfnerthu ymwybyddiaeth staff o werth y Gymraeg ac i wella profiadau cleifion yn y dyfodol.

Trwy gydweithio â Gyrfa Cymru, gwnaeth Tîm y Gymraeg gyflwyno rhaglen o weithdai, ffug gyfweliadau, a ffeiriau gyrfaoedd ar draws ysgolion uwchradd a cholegau yng ngogledd Cymru, gan hybu sgiliau yn y Gymraeg fel ased hanfodol ar gyfer cyflogaeth ym maes iechyd a gofal yn y dyfodol. Mae'r gwaith ymgysylltu cynnar hwn yn ategu datblygu gweithlu dwyieithog yn y tymor hir, gan gyfrannu at well canlyniadau i gleifion trwy sicrhau bod darpar staff yn gallu cyfathrebu'n hyderus â chleifion sy'n siarad Cymraeg. Mae'r gweithgarwch hefyd yn codi ymwybyddiaeth ymysg darpar weithwyr am ddisgwyliadau'r Bwrdd Iechyd o ran darpariaeth gwasanaeth dwyieithog.

Gwnaeth Tîm y Gymraeg ymgymryd ag ystod o weithgareddau ymgysylltu allanol yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam ym mis Awst 2025, lle gwnaethant ymgysylltu'n uniongyrchol â chleifion, y cyhoedd, a sefydliadau partner. Gwnaeth y bwrdd iechyd gynnal stondin gwybodaeth, casglu adborth trwy holiadur ar fynediad at wasanaethau'r Gymraeg, a gwnaeth godi ymwybyddiaeth o rôl y tîm ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd gweithgareddau pellach a oedd yn rhan o'r Eisteddfod yn cynnwys sesiynau cydweithredol â Gyrfa Cymru, cymryd rhan mewn trafodaeth panel â Phrifysgol Wrecsam ar bwysigrwydd y Gymraeg ar gamau cynnar datblygu gyrfa, a digwyddiad dathlu'n cydnabod cyflawniadau dysgwyr Cymraeg y bwrdd iechyd. Roedd y gweithgareddau hyn yn fodd o atgyfnerthu dealltwriaeth y cyhoedd am uchelgeisiau dwyieithog y bwrdd iechyd a gwnaethant atgyfnerthu gwerth galluoedd yn y Gymraeg o ran y gweithlu.

Cafodd digwyddiad blynyddol Wythnos y Gymraeg ei gynnal yn y bwrdd iechyd ym mis Hydref 2025, ac fel rhan o'r gweithgareddau, gwnaeth y bwrdd iechyd lansio fideo Mwy na geiriau, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, gan fanylu ar wasanaethau a gynigir gan Ward y Plant yn Ysbyty Glan Clwyd. Yn y fideo, rhannwyd profiad mam a mab a oedd wedi manteisio ar wasanaethau Cymraeg o adeg derbyn i'r ysbyty ymlaen, gan nodi'r gwahaniaeth yr oedd wedi'i wneud i'r gofal a dderbyniwyd. Yn ystod y gweithgareddau wythnos o hyd, gwnaeth Mudiad Meithrin a Cymraeg i Blant ymweld â Wardiau'r Plant ar bob un o'r tri safle acíwt gyda'r cymeriad cartŵn Cymraeg, Dewin, er mwyn hybu pwysigrwydd ymgysylltu o ran y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar, gan atgyfnerthu pwysigrwydd dewis iaith i blant a theuluoedd.Cafodd stondinau gwybodaeth eu cynnal ar draws y tri ysbyty acíwt a'r tri ysbyty cymunedol, lle cafodd staff eu hannog i wneud addewidion personol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau o ddydd i ddydd.

Gwnaeth y gweithgareddau hyn atgyfnerthu ymwybyddiaeth staff o'r camau ymarferol y gallant eu cymryd i ategu gofal dwyieithog a gwnaethant gyfrannu at wella profiad cleifion trwy feithrin amgylchedd sy'n fwy croesawgar ac yn fwy sensitif ar lefel ieithyddol. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau ymgysylltu mewnol ac allanol hyn yn dangos cynnydd parhaus o ran ymgorffori'r Gymraeg ar draws y sefydliad ac o ran atgyfnerthu canlyniadau i gleifion a staff fel ei gilydd.

Datblygu'r Gweithlu

Mae Tîm Hyfforddiant Cymraeg y Bwrdd Iechyd wedi cael blwyddyn hynod lwyddiannus arall, gan ddatblygu a gweithredu rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau yn y Gymraeg sydd â'r bwriad o ddiwallu anghenion y sefydliad. Mae'r Tîm wedi parhau i fabwysiadu ymagwedd strategol trwy alinio darpariaeth hyfforddiant â gofynion deddfwriaethol a chan fynd ati'n rhagweithiol i nodi meysydd ar draws y sefydliad lle bo angen cymorth dysgu ychwanegol.

Roedd ystod eang o gyrsiau Cymraeg yn parhau i gael eu cynnig i staff ar draws pob lefel yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys rhaglenni pwrpasol ar gyfer staff derbynfeydd mewn lleoliadau gofal acíwt a gofal sylfaenol. Roedd darpariaeth ychwanegol yn cynnwys sesiynau un-i-un dwys Gwefra dy Gymraeg, a chynnig Cwrs Croeso fel cwrs byr rhagweithiol i ennill sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg. Yn dilyn cwblhau'r sesiynau hyn, gwnaeth y rhan helaethaf o'r cyfranogwyr symud ymlaen at ddysgu pellach gyda'r Tiwtor Mewnol. Mae'r galw am hyfforddiant wedi cynyddu'n sylweddol, gan adlewyrchu anghenion y sefydliad a dulliau cryf o ran ymgysylltu â staff.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ei bartneriaeth ffurfiol â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer cyfnod adrodd 2025-2026, ac mae pwyslais parhaus ar y Cynllun Cymraeg Gwaith. Gan gydweithio â Thîm y Gymraeg, gwnaeth y Ganolfan gyflwyno rhaglen wedi'i thargedu ar gyfer Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd, a oedd â'r nod o atgyfnerthu hyder staff a hyfedredd yn y Gymraeg. Roedd y bartneriaeth hefyd yn cynnig cymorth uwch o ran hyfforddiant yn y gweithle i staff ar lefel weithredol.

Ym mis Mawrth 2026, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnal ei ddigwyddiad Dysgwr y Flwyddyn er mwyn dathlu llwyddiannau staff. Roedd y digwyddiad yn cydnabod ymrwymiad dysgwyr sydd wedi ymgymryd â datblygu eu Cymraeg er mwyn gwella gallu'r sefydliad i gynnig gofal yn iaith gyntaf y claf. Roedd hefyd yn gyfle i staff rannu eu rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg, gan dynnu sylw at bwysigrwydd magu hyder wrth ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun proffesiynol. Bu'r digwyddiad yn llwyddiant ysgubol a dangosodd y ffordd y caiff y Gymraeg ei hintegreiddio fwyfwy i arferion gweithredol o ddydd i ddydd ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi parhau i gyfrannu'n at Raglen Feddygaeth Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn, gan weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a darlithoedd gwybodaeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn ategu datblygu gweithwyr gofal iechyd yn y dyfodol trwy sicrhau eu bod yn cael gwybod am ddisgwyliadau a gofynion y Bwrdd Iechyd o ran darpariaeth yn y Gymraeg.

Gwasanaethau Cyfieithu:

Mae'r Tîm Cyfieithu'n parhau i gyflawni rôl ganolog o ran cynnal gwasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd trwy gynnig darpariaeth cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd. Mae twf parhaus yn y galw yn tynnu sylw at ymrwymiad y sefydliad i gynnig cyfathrebu dwyieithog sy'n brydlon ac o ansawdd uchel yn unol â Safonau'r Gymraeg ac mae'n adlewyrchu dealltwriaeth gynyddol ymysg staff am eu cyfrifoldebau o ran sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn cael ei hymgorffori i weithrediadau o ddydd i ddydd.

Mae cynnal prosesau sicrhau ansawdd cadarn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r tîm, a chaiff ceisiadau brys a sensitif o ran amser eu rheoli'n brydlon er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn gallu manteisio ar wybodaeth hanfodol yn eu dewis iaith heb oedi diangen.

Yn 2025-2026, gwnaeth y tîm ffurfioli Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddarparu cymorth cyfieithu gyda cheisiadau ysgrifenedig. Mae'r bartneriaeth hon wedi bod yn hynod effeithiol, ac mae'r ddau sefydliad wedi cytuno i barhau â'r trefniant ar gyfer 2026-2027, gan ddangos perfformiad cryf, dibynadwyedd, a chapasiti'r tîm i gynnig gwasanaethau cyfieithu o ansawdd uchel.

Mae'r data canlynol yn dangos cydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â'i ddyletswyddau adrodd rheoleiddiol.

- Derbyniwyd pum cwyn yn ystod y flwyddyn adrodd yn ymwneud â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Y prif faterion a godwyd oedd gohebiaeth ac arwyddion uniaith Saesneg, cwyn yn ymwneud â'r gwasanaeth teleffoni, a chwyn yn ymwneud â dewis iaith yn ystod cyfweliadau. Cafodd un gŵyn ei huwchgyfeirio at statws ymchwiliad.

- 96.22% oedd canran y gweithwyr sydd wedi cofnodi eu lefel sgiliau iaith ar y Gofrestr Staff Electronig (ESR) ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, sy'n gynnydd ers y llynedd. Darperir dadansoddiad fesul lefel sgiliau iaith isod.

Rhif Gweithiwr	**2025/26**	
Lefel Hyfedredd Unigol	**Cyfanswm**	**%**
0 – No Skills / Dim Sgiliau	10,717	48.82%
1 – Entry/ Mynediad	2,845	12.96%
2 – Foundation / Sylfaen	1,429	6.51%
3 - Intermediate / Canolradd	1,551	7.06%
4 – Higher / Uwch	1,640	7.47%
5 – Proficiency / Hyfedredd	2,941	13.40%
Cyfanswm	**21,123**	**96.22%**
Cyfanswm nifer y staff	**21,439**	

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn adrodd, wedi'u categoreiddio fel swyddi lle:

- Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol – 274
- Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth benodi i'r swydd – 69
- Roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol – 3,631
- Nid oedd sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol - 10

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar wahân sy'n canolbwyntio'n benodol ar Wasanaethau'r Gymraeg, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion adrodd a nodir yn Safonau'r Gymraeg. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan y Bwrdd Iechyd o fewn

chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol, a bydd ar gael yn Y Gymraeg - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Bydd adroddiad 2025/26 yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2026.

7. Cynaliadwyedd

Gan fod tystiolaeth bod newid yn yr hinsawdd ar gynnydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'i ymrwymiad i leihau effaith ein gweithgareddau. Rydym wedi ymgymryd â nifer o gamau gweithredu a byddwn yn parhau i gymryd camau gweithredu i gyfrannu at gyflawni statws net-sero yn y Sector Cyhoeddus erbyn 2030. Mae cynnydd a diweddariadau wedi'u hamlinellu isod:

System Rheoli Amgylcheddol ISO14001:2015

Mae ISO14001:2015 yn parhau i gael ei mewnosod yn y Bwrdd Iechyd trwyddo draw, ac mae ardystio wedi'i gynnal yn dilyn yr ailachredu tair blynedd a gyflawnwyd ar 4 Mai 2024. Yn ystod cyfnod adrodd 2025/2026, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu'r System Rheoli Amgylcheddol trwy'r canlynol:

- Rhaglenni goruchwylio ac archwilo mewnol parhaus
- Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu
- Parhau i fynd i'r afael â'r holl feysydd lle y canfuwyd diffyg cydymffurfiaeth yn flaenorol

Mae'r System Rheoli Amgylcheddol yn parhau i wneud y canlynol:

- Gwella perfformiad amgylcheddol
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol
- Ategu cyflawni amcanion amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio

Hyfforddiant ynghylch Materion Amgylcheddol a Gwastraff

Mae'r pecyn e-ddysgu ar gyfer rheoli amgylcheddol a rheoli gwastraff yn parhau i gael ei fewnosod ar draws y sefydliad ac mae'n parhau i fod yn ofyniad hyfforddiant gorfodol.

Yn ystod 2025/2026:

- Mae lefelau cydymffurfiaeth wedi parhau i fod ar lefel uchel (uwchben 90%).
- Mae ffocws ychwanegol wedi cael ei roi ar dargedu hyfforddiant mewn meysydd risg uchel, yn enwedig gwahanu gwastraff.
- Mae gwaith yn parhau i wella hygyrchedd hyfforddiant a dulliau ymgysylltu.

Rhaglen Amcanion Amgylcheddol Corfforaethol

Cafodd Rhaglen Amcanion Amgylcheddol 2022-2025 ei chwblhau yn ystod 2025. Mae rhaglen newydd ar gyfer 2025-2028 yn cael ei datblygu er mwyn gwneud y canlynol:

- Adlewyrchu gofynion datgarboneiddio Llywodraeth Cymru
- Cyd-fynd â strategaethau diwygiedig y Bwrdd Iechyd
- Atgyfnerthu'r broses gyflawni o ran uchelgeisiau Sero-net

Bydd y prif flaenoriaethau'n cynnwys:

- Lleihau gwastraff a gwell cydymffurfiaeth â deddfwriaeth genedlaethol
- Gwell prosesau o ran adrodd ar ddata a chyfrifyddu carbon
- Gwydnwch ac addasu o ran yr hinsawdd

Rheoli Gwastraff

Yn dilyn cyflwyno Gofynion Gwastraff Llywodraeth Cymru (Ebrill 2024), mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud y canlynol:

- Ymgorffori gwahanu ac ailgylchu'n llwyddiannus wrth eu tarddiad ar draws safleoedd cymunedol
- Ymgysylltu'n barhaus â chontractwyr a thimau gweithredol er mwyn gwella cydymffurfiaeth

Yn ystod 2025/2026:

- Mae gwaith wedi mynd rhagddo'n dda ar safleoedd ysbytai acíwt, er bod heriau'n parhau
- Mae cynlluniau peilot wedi'u targedu yn cael eu harchwilio er mwyn ategu'r broses weithredu
- Mae gwaith yn parhau i roi ffrwd wastraff halogedig ('y Cynllun Teigr') ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd

Mae'r cyfyngiadau wedi cynnwys y canlynol:

- Cyfyngiadau o ran seilwaith ar wardiau ac mewn mannau clinigol
- Capasiti o fewn caeadleoedd gwastraff
- Pwysau ariannol
- Mae ymagwedd fesul cam ac ar sail risg yn cael ei mabwysiadu er mwyn ategu cydymffurfiaeth.

Grwpiau Gwyrdd

Mae Grwpiau Gwyrdd ar draws pob un o dair ardal y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflawni rôl bwysig o ran ategu mentrau cynaliadwyedd.

Yn ystod 2025/2026:

- Gwelwyd gwell ymgysylltu clinigol
- Mae prosiectau wedi canolbwyntio ar leihau gwastraff a gwella bioamrywiaeth,
- Mae cysylltiadau cryfach wedi'u creu gyda'r Grŵp Llywio Amgylcheddol

Rheoli Ynni a Charbon / Adeiladu Cynaliadwy

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu'r broses o gyflawni ei Strategaeth Ystadau a'r Gynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio yn ystod 2025/2026.

Datblygiadau Allweddol:

Ynghylch: Rhaglen Fit

- Mae Cam 1 (2025-2027) wedi symud at Gynnig Gradd Buddsoddi
- Mae gwaith manwl o ran dylunio a chynllunio at weithredu ar y gweill
- Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn fenter "Buddsoddi i Arbed", gan dargedu lleihau carbon a gwella effeithlonrwydd ynni

Fferm Solar Ysbyty Gwynedd

- Mae trafodaethau ynghylch dichonoldeb a thrafodaethau mewn partneriaeth wedi symud yn eu blaenau
- Mae prosesau cynllunio a datblygu achosion busnes wedi cael eu rhoi ar waith
- Mae'r cynllun yn parhau i fod yn gyfle allweddol i wneud y canlynol:
    - Lleihau dibyniaeth ar y grid
    - Gwella cynhyrchu adnewyddadwy ar safleoedd
    - Cynnal datgarboneiddio yn y tymor hir

Cynnydd Strategol
Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud y canlynol:

- Ymgorffori cynaliadwyedd i brosesau cynllunio cyfalaf
- Targedu sgôr BREEAM "Da Iawn" fel y gofyniad lleiaf
- Gwella cyfleoedd gymaint â phosibl ar gyfer technolegau carbon isel

Caffael Cynaliadwy

Mae Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn parhau i atgyfnerthu arferion caffael cynaliadwy.
Yn ystod 2025/2026:

- Mae gwell galluoedd o ran adrodd ar garbon wedi ategu gwell dealltwriaeth yn y sefydliad
- Gwelwyd ymgysylltu cynyddol â chyflenwyr ynghylch disgwyliadau cynaliadwyedd
- Mae aliniad â chanllawiau adrodd Llywodraeth Cymru wedi cael ei gynnal

Trafnidiaeth

Mae teithiau'r Bwrdd Iechyd a'r allyriadau carbon cysylltiedig yn parhau i gael eu monitro, gan gynnwys teithiau busnes gan staff a chludo cleifion cymwys i'r ysbyty ac oddi yno.

Gostyngodd cyfanswm y milltiroedd blynyddol a gofnodwyd o 2.39% yn ystod y cyfnod. Bydd rhagor o fentrau'n cael eu harchwilio i barhau i leihau allyriadau a hyrwyddo cynlluniau teithio mwy effeithlon a gwyrddach, gan gynnwys hyrwyddo ffyrdd amgen o deithio.

Cyfleustodau a Pherfformiad Carbon BIPBC

Gwnaeth cyfanswm allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chyfleustodau yn BIPBC ar gyfer 2025-26 leihau o 2,505 tCO_2e yn erbyn llinell sylfaen 2024-25 ar 32,717 tCO_2e, sy'n lleihad o 7.7%. Yr hyn sydd i gyfrif am y lleihad hwn, yn bennaf, yw gostyngiad o 11.0% o ran y defnydd o nwy naturiol ar draws yr ystd, sydd i'w weld yn fwyaf dwys yn ardaloedd y Dwyrain (-19%) a'r Gorllewin (-17%).

Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn defnyddio'r un cwmpas a'r un methodoleg ag a ddefnyddir ar gyfer ffigur cynaliadwyedd 2024-25, sef 32,717 tCO_2e.

Metrig	2024-25	2025-26	Newid	% y Newid
Trydan (kWh)	42,757,850	42,782,924	25,074	+0.1%
Nwy (kWh)	116,608,449	103,838,244	-12,770,205	**-11.0%**
Dŵr (m³)	481,917	428,198	-53,719	**-11.1%**
Olew Gwresogi (kWh)	586,149	379,799	-206,350	**-35.2%**
Cyfanswm allyriadau carbon (tCO_2e)	**32,717**	**30,211**	**-2,505**	**-7.7%**

Gostyngodd cyfanswm allyriadau CO_2 gros y Bwrdd Iechyd o 7.7% yn ystod y cyfnod.

Allyriadau Carbon yn ôl Ardal

Ardal	24-25 tCO_2e	25-26 tCO_2e	Newid	% y Newid
Ardal y Canol	12,396	12,484	87	**+0.7%**
Ardal y Dwyrain	9,811	8,506	-1,305	**-13.3%**
Ardal y Gorllewin	10,509	9,222	-1,287	**-12.3%**
Cyfanswm BIPBC	**32,717**	**30,211**	**-2,505**	**-7.7%**

Sylwebaeth mewn perthynas â chyfleustodau allweddol:

Nwy (-11.0%)
Gwnaeth y defnydd o nwy ostwng o 116.6 GWh i 103.8 GWh, sef lleihad o 12.8 GWh. Mae'r newid unigol hwn yn rhoi cyfrif am ryw 2,340 tCO_2e o'r prif leihad. Mae'r lleihad hwn i'w weld yn fwyaf dwys mewn dwy ardal, fel y mae'r tabl yn ei ddangos isod:

Ardal	24-25 (kWh)	25-26 (kWh)	Newid
Ardal y Canol	41,770,956	42,296,263	+1.3%
Ardal y Dwyrain	34,252,148	27,725,739	**-19.1%**
Ardal y Gorllewin	40,585,345	33,816,242	**-16.7%**

Roedd defnydd o nwy yn ardal y canol yn gyson ar y cyfan (+1.3%). Mae'r gostyngiadau i'w gweld yn fwyaf dwys yn y Dwyrain (-19.0%) a'r Gorllewin (-16.7%). Y prif ffactor sy'n gyfrifol am hyn yw'r tywydd mwynach sydd wedi lleihau'r galw am wresogi yn ystod 2025-26, gan mai hwn yw'r ysgogydd mwyaf o ran defnydd o nwy fel arfer. Mae lleihad mewn oriau gweithredu a datgomisiynu nifer o safleoedd yn ardal y Gorllewin (Canolfannau Iechyd Blaenau, gwasanaeth Ffisio Blaenau, Ewloe, Mynydd Isa, Caergwrle) sy'n ymddangos yng nghofnodion 24-25 ond sy'n dangos fel sero yn 25-26 hefyd yn cyfrannu. Mae Ysbyty Maelor Wrecsam yn dangos gostyngiad mewn nwy o ryw 27.8 GWh i 20.5 GWh (-26%), sy'n rhoi cyfrif am y rhan fwyaf o'r gostyniad yn ardal y Dwyrain.

Trydan (+0.1%)
Roedd cyfanswm y defnydd o drydan heb ei newid flwyddyn ar ôl blwyddyn, i bob pwrpas (42.76 GWh yn 24-25, 42.78 GWh yn 25-26, gwahaniaeth +25,074 kWh). Mae symudiadau mewn ardaloedd unigol yn gorbwyso ei gilydd i raddau mawr: Y Canol -95k kWh, Y Dwyain -180k kWh, Y Gorllewin +300k kWh. Dyma'r patrwm disgwyliedig ar gyfer ystad ysbyty acíwt, lle mae'r llwyth sy'n deillio o oleuadau, awyru, offer meddygol a systemau TG yn gymharol ansensitif i'r tywydd. Mae cyfraniad carbon trydan yn dal i fod heb ei newid, ar y cyfan ar ryw 9,560 tCO_2e (Cwmpas 2 ynghyd â cholledion Throsglwyddo a Dosbarthu).

Dŵr (-11.1%)
Gwnaeth defnydd o ddŵr ostwng o 481,917 m³ i 428,198 m³, sef lleihad o 53,719 m³ (11.1%).

Olew Gwresogi (-35%)
Gostyngodd y defnydd o olew gwresogi (yn ardal y Gorllewin yn unig, gan gynnwys Canolfannau Iechyd Bodfan, Cricieth, Deiniolen a Thraws) o 586,149 kWh i 379,799 kWh, sef gostyngiad o ryw 55 tCO_2e. Mae'r ddau leihad yn dilyn y lleihad mewn defnydd o nwy ar lefel eiddo ar y cyfan, gan awgrymu bod gan rai safleoedd lefelau is o ran defnydd neu oriau agor byrrach. Mae cyfraniad carbon dŵr ac olew wedi'u cyfuno o dan 250 tCO_2e yn y naill flwyddyn neu'r llall.

Gwastraff

Gostyngodd ein cyfanswm gwastraff yn ystod y cyfnod o 4.3% i 3,214 tunnell.

Gwastraff		2023/24	*Newid o'r flwyddyn flaenorol*	2024/25 (wedi'i ddiweddaru)	*Newid o'r flwyddyn flaenorol*	2025/26	*Newid o'r flwyddyn flaenorol*
Dangosyddion Anariannol (tunelli)	Cyfanswm y Gwastraff	*3,364*	*14.5%*	3,359	*-1.9%*	3,214	*-4.3%*
	Tirlenwi	*0*	*0*	0	*0*	0	*0*
	Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd	*1,957*	*24.9%*	2,021	*3.3%*	1,865	*-7.7%*
	Compostiwyd	*0*	*0*	0	*0*	0	*0*
	Llosgwyd gan adfer ynni	*1,407*	*3.2%*	1,338	*-4.9%*	1,348	*0.8%*
	Llosgwyd heb adfer ynni	*0*	*0*	0	*0*	0	*0*

Dangosyddion Ariannol (£)	Cyfanswm Costau Gwaredu	720,812	*14.3%*	791,305	*13.1%*	789,478	*-3.2%*
	Tirlenwi	0	*0*	0	*0*	0	*0*
	Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd	264,458	*6.5%*	329,670	*24.7%*	373,840	*6.7%*
	Compostiwyd	0	*0*	0	*0*	0	*0*
	Llosgwyd gan adfer ynni	456,354	*20.0%*	461,635	*1.2%*	440,039	*-5.4%*
	Llosgwyd heb adfer ynni	*0*	0	0	*0*	0	*0*

Nodiadau

1. *Mae'r data a ddarparwyd ar gyfer gwastraff sy'n cael ei losgi yn cynnwys Tanwydd sy'n Deillio o Wastraff a gwastraff Tymheredd Uchel (cynwysyddion offer miniog).*
2. *Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn cael gwared ar rwyfaint o ddeunyddiau trwy gyfrwng dulliau eraill nas nodir fel categori ar wahân yn y gofynion i adrodd am gynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys gwastraff 'bagiau oren' a gwastraff 'bagiau halogedig ('bagiau teigr') sy'n cael eu trin â gwres i'w diheintio cyn eu gwaredu. Yn 2025/26, roedd hyn yn cyfrif am 2,031 tunnell o wastraff, gyda chost trin a gwaredu o £967,572.24 (2024/25: 2,097 tunnell ar gost o £1,051,766.22).*

8. Casgliad a Rhagolwg

Mae blwyddyn adrodd 2025/26 wedi nodi cyfnod sylweddol o newid ac atgyfnerthu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn dilyn ymyrraeth barhaus fel rhan o Fesurau Arbennig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei dulliau arwain, llywodraethu a seilwaith sefydliadol, gan greu llwyfan mwy sefydlog i ni gyflawni gwelliant oddi arno.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd rhywfaint o welliant ar draws nifer o fetrigau perfformiad ac ansawdd; fodd bynnag, mae cynnydd pellach yn ofynnol er mwyn darparu gwasanaethau cyson ac o ansawdd uchel. Mae cryfhau perfformiad yn parhau i fod yn hollbwysig er mwyn gwella mynediad prydlon, profiadau cleifion, a chanlyniadau clinigol ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru, yn ogystal â sicrhau bod gofal yn decach ac yn fwy dibynadwy.

Gwelwyd tystiolaeth o afael a rheolaeth ariannol cadarn, gwell amseroedd ymateb i gwynion, lleihad yn yr amseroedd aros hiraf ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, gwell cydymffurfiaeth ar draws gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, a pherfformiad cadarn mewn meysydd megis fferylliaeth gymunedol, CAMHS a chanlyniadau ym maes mamolaeth. Mae'r gwelliannau hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau cliriach, buddsoddi wedi'i dargedu, a defnydd mwy effeithiol o gapasiti clinigol a gweithredol.

Ar yr un pryd, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i fod yn onest am feysydd lle bo heriau parhaus. Mae pwysau ar draws gofal brys a gofal mewn argyfwng, oedi o ran llwybrau gofal, capasiti diagnostig, ôl-groniadau o ran gofal dilynol, llwybrau strôc a gwasanaethau niwroddatblygiad yn parhau i effeithio ar brofiadau cleifion a llif trwy'r system. Er bod gwelliannau pellach yn ofynnol yn achos rhai dangosyddion ansawdd, gan gynnwys digwyddiadau byth a digwyddiadau adroddadwy cenedlaethol, mae atgyfnerthu trefniadau ymchwilio, dysgu a llywodraethu'n rhoi sicrwydd bod risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli a'u symud ymlaen yn gyson.

Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r conglfeini sefydliadol sydd eu hangen i gynnal gwelliant cynaliadwy ar waith bellach. Mae hyn wedi galluogi'r bwrdd iechyd i fynd i'r afael fwyfwy â diwygiadau sylfaenol a gwelliannau i berfformiad y rheng flaen ar yr un pryd. Mae gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, darparwyr gofal sylfaenol a'r trydydd sector wedi parhau i fynd o nerth i nerth, gan ategu mwy o ymatebion integredig i heriau ar draws y system gyfan.

Mae'r bwrdd iechyd yn symud at 2026/27 gydag ymdeimlad clir o gyfeiriad, fframwaith llywodraethu clir a ffocws penodol ar wella mynediad, lleihau arosiadau a cynnig gofal sy'n ddiogelach ac yn fwy prydlon. Bydd cyflawni hyn yn barhaus yn dibynnu ar gynnal sefydlogrwydd y sefydliad, cydweithio'n gyson â phartneriaid, ac ymgysylltu'n barhaus â chleifion, gofalwyr a chymunedau er mwyn sicrhau bod gwelliant yn arwain at ganlyniadau a phrofiadau gwell i bobl Gogledd Cymru.

Edrych ymlaen at 2026/27 a thu hwnt

Gan edrych ymlaen at 2026/27, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu o dan Fesurau Arbennig, gyda disgwyliad clir y bydd yn parhau i ysgogi gwelliannau ym meysydd ansawdd, perfformiad a llywodraethu. Bydd y ffocws ar droi gwell goruchwyliaeth a gafael sefydliadol yn welliannau cyson a mesuradwy i'n cymunedau.

Bydd nifer fach o flaenoriaethau allweddol yn sail i'r gwaith hwn, ac mae gwella mynediad amserol at ofal yn parhau i fod yn ganolog. Bydd y sefydliad yn blaenoriaethu gostyngiadau pellach mewn amseroedd aros hir ac yn mynd i'r afael ag oediadau ar draws meysydd diagnosteg, llwybrau cleifion allanol a gofal dilynol, gyda ffocws cryfach ar ailgynllunio llwybrau a'u cyflawni ar gyflymder.

Bydd gofal brys a gofal mewn argyfwng yn parhau i fod yn faes allweddol arall o ffocws parhaus. Bydd y flwyddyn nesaf yn gofyn am weithredu parhaus ar draws y system i wella llif cleifion, lleihau oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansys a chryfhau trefniadau rhyddhau. Caiff hyn ei ategu gan gydweithio'n agosach â phartneriaid i wella cydlyniad a gwydnwch y system gyfan.

Bydd gwella diogelwch cleifion a lleihau niwed y gellir ei osgoi yn flaenoriaeth graidd. Bydd y pwyslais yn symud o gryfhau trefniadau llywodraethu i sicrhau bod dysgu yn

cael ei drosi'n gyson i ymarfer rheng flaen, gyda ffocws ar leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, digwyddiadau difrifol a digwyddiadau byth.

Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn blaenoriaethu lleihau amrywiadau mewn ansawdd a dibynadwyedd gwasanaethau, gan gynnwys y llwybrau canser. Bydd ffocws cryfach ar wella profiad cleifion, gan sicrhau bod adborth a phryderon yn llywio gwella gwasanaethau'n uniongyrchol ac yn cael eu hadlewyrchu mewn ymatebion mwy amserol ac effeithiol.

Caiff y blaenoriaethau hyn eu hategu gan gamau parhaus i gryfhau sefydlogrwydd y gweithlu, gallu arweinyddiaeth, disgyblaeth ariannol a gallu digidol. Mae'r rhain yn parhau i fod yn alluogwyr hanfodol wrth gyflawni gwelliant cynaliadwy a lleihau dibyniaeth ar fesurau yn y tymor byr.

Mae'r flwyddyn nesaf yn cynrychioli cyfnod hollbwysig wrth symud o gynnydd cynnar i ddarpariaeth gynaliadwy, a llawer o heriau sylweddol i'w datrys. Bydd ffocws y Bwrdd Iechyd ar ddangos gwelliannau cyson o ran diogelwch cleifion, mynediad a chanlyniadau, a darparu tystiolaeth glir o effaith ar draws yr holl wasanaethau. Bydd hyn oll yn digwydd diolch i gydweithwyr staff a phartneriaid cymunedol; gydag ymrwymiad parhaus a gwaith tîm cryf yn ffactorau llwyddiant hollbwysig.

Llofnod:

……..

Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
Dyddiad: 25 Mehefin 2026

Atodiad 1 – Gwasanaethau BIPBC

Ardaloedd gofal sylfaenol

Clystyrau Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Ynys Môn
Arfon
Dwyfor
Meirionnydd
Gorllewin Conwy
Dwyrain Conwy
Gogledd Sir Ddinbych
Canol a De Sir Ddinbych
Gogledd-orllewin Sir y Fflint
Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint
De Sir y Fflint
Gogledd-ddwyrain Wrecsam
Canol Wrecsam
De Wrecsam

Ysbytai Cymunedol

Ysbytai Cymunedol BIPBC	Ardal
Ysbyty Abergele	Ardal y Canol
Ysbyty Bae Colwyn	Ardal y Canol
Ysbyty Inffyrmari Dinbych	Ardal y Canol
Ysbyty Cyffredinol Llandudno	Ardal y Canol
Ysbyty Brenhinol Alexandra	Ardal y Canol
Ysbyty Rhuthun	Ardal y Canol
Ysbyty Alltwen	Ardal y Gorllewin
Bryn Beryl	Ardal y Gorllewin
Ysbyty Cefni	Ardal y Gorllewin
Ysbyty Dolgellau a'r Bermo	Ardal y Gorllewin
Ysbyty Eryri	Ardal y Gorllewin
Ysbyty Tywyn	Ardal y Gorllewin
Ysbyty Penrhos Stanley	Ardal y Gorllewin
Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy	Ardal y Dwyrain
Ysbyty'r Waun	Ardal y Dwyrain
Ysbyty Treffynnon	Ardal y Canol
Ysbyty'r Wyddgrug	Ardal y Dwyrain

Practisau deintyddol gofal sylfaenol

Cyfeiriad 1	Cyfeiriad 2	Cyfeiriad 3	Cyfeiriad 4	Sir	Clwstwr	Cod post
Practis Deintyddol Eirlys - Dolgellau	Neuadd y Sir	Stryd y Bont	Dolgellau	Gwynedd	De Meirionnyd	LL40 1AU
Beauwood Dental Care	20 Stryd y Capel	Llangollen	Sir Ddinbych	Sir Ddinbych	Canol a De Sir Ddinbych	LL20 8NN
Castlewood Dental Care	Haulfryn	Pwll y Grawys	Dinbych	Sir Ddinbych	Canol a De Sir Ddinbych	LL16 3LH
Coastwood Dental Care	43 Ffordd Elan	Y Rhyl	Sir Ddinbych	Sir Ddinbych	Gogledd Sir Ddinbych	LL18 4HZ
Pracis Deintyddol Bupa - Ewloe	Uned 2 Parc Busnes Lakeside	Parc St David's	Ewloe	Sir y Fflint	Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint	CH5 3XP
Limewood Dental Care	Uned 3 Acorn Business Park	Y Fflint	Sir y Fflint	Sir y Fflint	Gogledd-orllewin Sir y Fflint	CH6 5YN
Pracis Deintyddol Bupa - Yr Wyddgrug	Gwesty'r Victoria	25 Stryd Caer	Yr Wyddgrug	Sir y Fflint	De Sir y Fflint	CH7 1EG
Penwood Dental Care	Uned 2A Parc Busnes Eryri	Minffordd	Penrhyndeudraeth	Gwynedd	Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	LL48 6LD
The Bay Orthodontics	3A Ffordd Lansdowne	Bae Colwyn	Conwy	Conwy	Dwyrain Conwy	LL29 7AY
Wrexham Dental Works	Uned K1, Ellice Way	Parc Technoleg Wrecsam	Wrecsam	Wrecsam	Canol Wrecsam	LL13 7YP
MyDentist - Prestatyn	Siambr Banc HSBC -37 Stryd Fawr	Prestatyn	Sir Ddinbych	Sir Ddinbych	Gogledd Sir Ddinbych	LL19 9AH
MyDentist - Wrecsam	Llawr Gwaelod - Tŷ Kingsway	Parc Technoleg Wrecsam	Wrecsam	Wrecsam	Canol Wrecsam	LL13 7YP
Practis Deintyddol Eirlys - Caernarfon	Uned 1E, Ystâd Ddiwydiannol Cibyn	Caernarfon	Gwynedd	Gwynedd	Arfon	LL55 2BD
Practis Deintyddol Eirlys - Bae Colwyn	Ystafell 2, Parc y Tywysog, 1 Rhodfa'r Tywysog	Bae Colwyn	Conwy	Conwy	Dwyrain Conwy	LL29 8PL

Yr Academi Ddeintyddol	Ty Glyder	337-339 Stryd Fawr	Bangor	Gwynedd	Arfon	LL57 1EP
Deintyddfa Llangefni Dental Practice	57 Stryd Fawr	Llangefni	Ynys Môn	Ynys Môn	Ynys Môn	LL77 7NA
Canolfan Ddeintyddol Woodlands	Ffordd Mona	Porthaethwy	Ynys Môn	Ynys Môn	Ynys Môn	LL59 5EA
Deintyddfa Glannau Dyfrdwy	55 Stryd Fawr	Cei Connah	Sir y Fflint	Sir y Fflint	Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint	CH5 4DD
Practis Deintyddol White Arcade	Stryd y Brenin Edward	Y Bermo	Gwynedd	Gwynedd	De Meirionnydd	LL42 1NY
Queensferry Dental Surgery Limited	4 Stryd Gladstone	Queensferry	Sir y Fflint	Sir y Fflint	Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint	CH5 1ST
Practis Deintyddol Chapel Cottage	5 Chapel Cottages, Stryd Fawr	Gresffordd	Wrecsam	Wrecsam	Gogledd-orllewin Wrecsam	LL12 8PR
Practis Deintyddol The Hollies	65 Stryd y Dyffryn	Dinbych	Sir Ddinbych	Sir Ddinbych	Canol a De Sir Ddinbych	LL16 3AP
Partneriaeth Practis Deintyddol Mostyn House	3 Rhodfa Deganwy	Llandudno	Conwy	Conwy	Gorllewin Conwy	LL30 2YB
Practis Deintyddol Bryn Siriol	Ffordd Gwernaffield	Yr Wyddgrug	Sir y Fflint	Sir y Fflint	De Sir y Fflint	CH7 1RA
Practis Deintyddol Rhos	27 Stryd y Farchnad	Rhosllanerchrugog	Wrecsam	Wrecsam	De Wrecsam	LL14 1AH
Clinig Orthodontig Elmhurst	Ffordd Garth	Bangor	Gwynedd	Gwynedd	Arfon	LL57 2RT
Practis Deintyddol Rossett	Ffordd yr Orsaf	Yr Orsedd	Wrecsam	Wrecsam	Gogledd-orllewin Wrecsam	LL12 0HE
Practis Deintyddol Cei Connah	107A Stryd Fawr	Cei Connah	Sir y Fflint	Sir y Fflint	Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint	CH5 4DF
Coppersun Dental	12 Stryd Grosvenor	Yr Wyddgrug	Sir y Fflint	Sir y Fflint	De Sir y Fflint	CH7 1EJ

Practis Deintyddol Hawarden	Y Feddygfa Ddeintyddol, 90 Y Brifffordd	Penarlâg	Glannau Dyfrdwy	Sir y Fflint	Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint	CH5 3DJ
Practis Deintyddol Ffordd Longford	Ffordd Longford	Holyhead	Ynys Môn	Ynys Môn	Ynys Môn	LL65 1TR
Practis Deintyddol Bae Cemaes	1 The Old Lookout	Bae Cemaes	Ynys Môn	Ynys Môn	Ynys Môn	LL67 0NF
Deintyddfa Deudraeth	6 Stryd yr Eglwys	Penrhyndeudraeth	Gwynedd	Gwynedd	Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	LL48 6AB
Partneriaeth Practis Deintyddol Kandy Lodge	102 Stryd Fawr	Rhiwabon	Wrecsam	Wrecsam	De Wrecsam	LL14 6NH
Practis Deintyddol Elwy - Abergele	1 Stryd y Capel	Abergele	Conwy	Conwy	Dwyrain Conwy	LL22 7AW
Practis Deintyddol Smile	7-9 Stryd yr Eglwys	Y Fflint	Sir y Fflint	Sir y Fflint	Gogledd-orllewin Sir y Fflint	CH6 5AD
Practis Deintyddol Bryn Siriol	Ffordd Gwernaffield	Yr Wyddgrug	Sir y Fflint	Sir y Fflint	De Sir y Fflint	CH7 1RA
Practis Deintyddol Grosvenor	3 Ffordd Grosvernor	Bae Colwyn	Conwy	Conwy	Dwyrain Conwy	LL29 7YF
Practis Meddygol Ffordd Rhiwabon	96 Ffordd Rhiwabon	Wrecsam		Wrecsam	Canol Wrecsam	LL13 7PH
Canol Ddeintyddol Wrecsam	Ffordd y Llwyni	Wrecsam		Wrecsam	Canol Wrecsam	LL13 7DY
Canolfan Iechyd Corwen	Lôn Werdd	Corwen	Sir Ddinbych	Sir Ddinbych	Canol a De Sir Ddinbych	LL21 0DN
Clinig Deintyddol Dinbych	Ysbyty Cymunedol Inffyrmari Dinbych	Ruthin Road	Dinbych	Sir Ddinbych	Canol a De Sir Ddinbych	LL16 5ES
Practis Deintyddol Bethesda	Canolfasn Feddygol Yr Hen Orsaf	Ffordd yr Orsaf	Bethesda	Gwynedd	Arfon	LL57 3NE
Practis Deintyddol Bryn Siriol	Ffordd Gwernaffield	Yr Wyddgrug	Sir y Fflint	Sir y Fflint	De Sir y Fflint	CH7 1RA

Practis Deintyddol Belmont House	32 Rhodfa Colwyn	Llandrillo-yn-Rhos	Conwy	Conwy	Dwyrain Conwy	LL28 4RB
Deintyddfa Abergele	Groes Lwyd	Abergele	Conwy	Conwy	Dwyrain Conwy	LL22 7TA
TOOTHOPIA	59 Stryt y Rhaglaw	Wrecsam		Wrecsam	Canol Wrecsam	LL11 4PH
Deintyddfa Penlan	6 Stryd Penlan	Pwllheli	Gwynedd	Gwynedd	Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	LL53 5DH
Practis Deintyddol Llanrwst	24A Stryd Watling	Llanrwst	Conwy	Conwy	Gorllewin Conwy	LL26 0LS
Pwllheli Dental Care	8 Rhes Mitre	Pwllheli	Gwynedd	Gwynedd	Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	LL53 5HE
Practis Deintyddol Dannadd Davies	33 Stryd Bangor	Caernarfon	Gwynedd	Gwynedd	Arfon	LL55 1AR
Meddygfa Ddeintyddol Benllech	Ffordd Bangor	Benllech	Ynys Môn	Ynys Môn	Ynys Môn	LL74 8TG
Greenacre Orthodontics	14 Rhodfa Wepre	Cei Connah	Sir y Fflint	Sir y Fflint	Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint	CH5 4HB
Practis Deintyddol Bulkeley	102 Stryd Fawr	Bangor	Gwynedd	Gwynedd	Arfon	LL57 1NS
Practis Deintyddol Craig y Don	28 Rhodfa Mostyn	Craig y Don	Llandudno	Conwy	Gorllewin Conwy	LL30 1YY
Coach House Dental Care	4A Ffordd Grosvernor	Wrecsam		Wrecsam	Canol Wrecsam	LL11 1BU
Practis Deintyddol Bod Heulog	47 Ffordd Russell	Y Rhyl	Sir Ddinbych	Sir Ddinbych	Gogledd Sir Ddinbych	LL18 3DA
Practis Deintyddol Bridge End	6 Bridge End Mews, Bridge End	Caergwrle	Sir y Fflint	Sir y Fflint	De Sir y Fflint	LL12 9AY
Practis Deintyddol Bryn Siriol	Ffordd Gwernaffield	Yr Wyddgrug	Sir y Fflint	Sir y Fflint	De Sir y Fflint	CH7 1RA
Practis Deintyddol Cambria	6 Ffordd Caer	Penyffordd	Sir y Fflint	Sir y Fflint	De Sir y Fflint	CH4 0JZ
Talking Teeth	47 Stryd Caer	Wrecsam		Wrecsam	Canol Wrecsam	LL13 8BA

Meddygfa Panton House	Panton House, Panton Place	Treffynnon	Sir y Fflint	Sir y Fflint	Gogledd-orllewin Sir y Fflint	CH8 7LD
Talking Teeth	Yr Hen Swyddfa Bost, Ffordd Caergybi	Chirk	Wrecsam	Wrecsam	De Wrecsam	LL14 5NA
Signature Smiles	Dodd's Lane	Gwersyllt	Wrecsam	Wrecsam	Gogledd-orllewin Wrecsam	LL11 4NT
Practis Deintyddol Penmaenmawr	Neuadd Feddygol, Pant yr Afon	Penmaenmawr	Conwy	Conwy	Gorllewin Conwy	LL34 6BY
Clinig Deintyddol Castle Square	35 Y Maes	Caernarfon	Gwynedd	Gwynedd	Arfon	LL55 2NN
Practis Deintydddol Rosehill	5 Stryd Rosehill	Conwy		Conwy	Gorllewin Conwy	LL32 8LD
Practis Deintyddol Bryn Siriol	Ffordd Gwernaffield	Yr Wyddgrug	Sir y Fflint	Sir y Fflint	De Sir y Fflint	CH7 1RA
Practis Deintyddol Abersoch	19 Ystad Cae Du	Abersoch	Pwllheli	Gwynedd	Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	LL53 7EN
Canolfan Ddeintyddol y Fflint	110 Stryd yr Eglwys	Y Fflint	Sir y Fflint	Sir y Fflint	Gogledd-orllewin Sir y Fflint	CH6 5AF
Practis Deintyddol Amlwch	14 Stryd Salem	Amlwch		Ynys Môn	Ynys Môn	LL68 9BP

Rhan Dau- Adroddiad Atebolrwydd

1. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith yn y Bwrdd Iechyd yn ystod 2025/26. Mae'n cynnwys:

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Adroddiad y Cyfarwyddwyr: Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion y bwrdd sydd â'r awdurdod neu'r cyfrifoldeb dros gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn. Darperir rhywfaint o'r wybodaeth a fyddai fel arfer yn cael ei dangos yma mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, a chaiff hynny ei amlygu lle bo'n berthnasol.

Y Bwrdd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £2.4 biliwn a gweithlu o dros 20,000. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i fwy na 700,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydlynu gwaith 96 o bractisau meddygon teulu a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan 83 o bractisau deintyddol ac orthodontig, 3 phrif safle ysbyty, 16 ysbyty cymunedol, 69 o bractisau optometreg ac optegwyr a 147 o fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.



Mae Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (S.I. 2009/779) ("Rheoliadau'r Cyfansoddiad") yn nodi cyfansoddiad a

threfniadau aelodaeth Byrddau Iechyd Lleol, gofynion penodi a chymhwysedd aelodau, cyfnod swyddi aelodau nad ydynt yn swyddogion ac aelodau cyswllt. Yn unol â'r Rheoliadau hyn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnwys:

- Cadeirydd;
- Is-gadeirydd;
- Aelodau sy'n Swyddogion; ac
- Aelodau nad ydynt yn Swyddogion.

Gelwir aelodau'r Bwrdd gyda'i gilydd yn "y Bwrdd" neu "Aelodau'r Bwrdd"; cyfeirir at yr aelodau sy'n swyddogion a'r aelodau nad ydynt yn swyddogion (sy'n cynnwys y Cadeirydd) fel Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn y drefn honno. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio llawn.

Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru benodi hyd at dri aelod cyswllt. Nid oes gan aelodau cyswllt hawliau pleidleisio.

Cyn y gellir penodi unigolyn yn aelod neu'n aelod cyswllt rhaid iddo fodloni'r gofynion cymhwysedd perthnasol a nodir yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/779) (“Rheoliadau'r Cyfansoddiad”), a pharhau i gyflawni'r gofynion perthnasol drwy gydol yr amser y mae yn y swydd. Mae modd gweld y Rheoliadau ar wefan ddeddfwriaeth y Llywodraeth: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2009/779/contents/made

Mae rhagor o fanylion am aelodaeth a chyfansoddiad y Bwrdd yn ystod 2025/26 ar gael yn **Atodiad 1: Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau 2025/26**

Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar 31 Mawrth 2026

Dyfed Edwards
Cadeirydd
(Pleidlais)

Carol Shillabeer
Prif Weithredwr
(Pleidlais)

Gareth Williams
Is-gadeirydd
(Pleidlais)

Tehmeena Ajmal
Prif Swyddog
Gweithredu
(Pleidlais)

Clare Budden
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)

Russell Caldicott
Cyfarwyddwr
Gweithredol Cyllid
(Pleidlais)

Dr Clara Day
Cyfarwyddwr
Gweithredol Meddygol
(Pleidlais)

Debbie Eyitayo
Cyfarwyddwr
Gweithredol
Gwasanaethau Pobl a
Datblygu Sefydliadol
(Pleidlais)

Urtha Felda
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)

Y Cynghorydd Dyfed
Jones
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)

Syr Paul Lambert
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)

Yr Athro Mike Larvin
Aelod Annibynnol
(Pleidlais)

Christopher Lothian-Field
Aelod Annibynnol (Pleidlais)

Dr Jane Moore
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
(Pleidlais)

William Nichols
Aelod Annibynnol (Pleidlais)

Teresa Owen
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd
(Pleidlais)

Paolo Tardivel
Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid a Chynllunio Strategol Dros Dro (Pleidlais)

Dr Caroline Turner
Aelod Annibynnol (Pleidlais)

Rhian Watcyn Jones
Aelod Annibynnol (Pleidlais)

Angela Wood
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
(Pleidlais)

Emma Adamson
Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
(Heb Bleidlais)

Peter Lewis
Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
(Heb Bleidlais)

Phylis Makurunje
Darpar Aelod o'r Bwrdd
(Heb Bleidlais)

Fôn Roberts
Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
(Heb Bleidlais)

Stuart Keen
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau
(Heb Bleidlais)

Justine Parry
Prif Swyddog Dros Dro Gwybodaeth Ddigidol
(Heb Bleidlais)

Dylan Roberts
Prif Swyddog Gwybodaeth Ddigidol
(Heb Bleidlais)

Helen Stevens-Jones
Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
(Heb Bleidlais)

Pam Wenger
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
(Ysgrifennydd y Bwrdd)
(Heb Bleidlais)

Datganiad o Fuddiannau Cyfarwyddwyr

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddynt a allai effeithio ar ddidueddrwydd eu gwaith yn y Bwrdd Iechyd.

Cyhoeddwyd y datganiadau a wnaed gan Gyfarwyddwyr ac Aelodau'r Bwrdd ar gyfer 2025/26 yn Nodyn 30 o'r Cyfrifon Blynyddol, ac maent ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn Natganiadau o Fuddiannau'r Bwrdd

Cydymffurfio â Gofynion Dyrannu Costau

Rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai'r holl wybodaeth nad yw'n wybodaeth bersonol a gedwir gan gorff cyhoeddus, fod ar gael yn rhwydd, oni bai bod cost neu eithriad perthnasol. Mae datganiad sy'n cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a chodi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EF isod.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf hon, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy ein Cynllun Cyhoeddi.

Cydymffurfiaeth â Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol a Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol

Adroddodd y Bwrdd Iechyd ar 5 achos o dordyletswydd diogelwch data a arweiniodd at gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain mewn perthynas â'r canlynol:

Tordyletswydd Cyfrinachedd - Allanol	5
Cyfanswm	5

Cafodd pob adroddiad a adroddwyd eu cau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth heb fod angen unrhyw gamau pellach ganddynt oherwydd bod y bwrdd iechyd wedi rhoi camau gweithredu a gwelliannau ar waith ar unwaith.

Mae pob un o'r argymhellion hyn wedi cael eu rhoi ar waith neu byddant yn cael eu rhoi ar waith gan y Bwrdd Iechyd, a chânt eu monitro gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Ni chafodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2025/26, mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn 2 hawliad anaf personol (tynnwyd un hawliad yn ôl) am niwed a thrallod a achoswyd oherwydd tordyletswydd yn ymwneud â data ac mae wedi setlo 1 hawliad gwerth cyfanswm o £1,394.95 ystod y flwyddyn.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr: Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Atebol, y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid gadarnhau eu cyfrifoldebau wrth baratoi'r datganiadau cyllid a bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gorchymyn mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb o ran priodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac o ran cadw cofnodion priodol, wedi'u hamlinellu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gofyn i'r Swyddog Atebol gadarnhau, hyd y gŵyr ef neu hi, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni a bod y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau priodol y dylent fod wedi'u cymryd, i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i ddangos bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gofyn i'r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac am ddyfarnu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a nodir yn y llythyr yn fy mhenodi yn Swyddog Atebol yn briodol.

Llofnod:

……..
Carol Shillabeer, Prif Weithredwr

Dyddiad: 25 Mehefin 2026

Datganiad ar gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon

Mae gofyn i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac o incwm a gwariant Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:

- gymhwyso'n gyson yr egwyddorion cyfrifyddu a bennir gan Weinidogion Cymru â chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- datgan p'un ai a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau sylweddol a ddatgelir neu a esbonnir yn yr adroddiad

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr awdurdod ac i'w galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru a grybwyllir uchod.

Ar Orchymyn y Bwrdd

Llofnod:

……..
Dyfed Edwards
Cadeirydd
Dyddiad: 25 Mehefin 2026

……..
Carol Shillabeer
Prif Weithredwr
Dyddiad: 25 Mehefin 2026

……..
Russell Caldicott
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid:
Dyddiad: 25 Mehefin 2026

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1. CWMPAS CYFRIFOLDEB

Datganiad Llywodraethu Blynyddol: Dyma graidd yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n egluro trefniadau a strwythurau llywodraethu o fewn y Bwrdd Iechyd ac yn dwyn ynghyd y wybodaeth ynghylch sut mae'r sefydliad yn rheoli llywodraethu, risg a rheolaeth. Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur ein pwyllgorau, a'r system rheolaeth fewnol.

Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, mae gennyf i gyfrifoldeb am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu safonau ansawdd, arian cyhoeddus ac asedau adrannau yr wyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu sut y mae'r sefydliad wedi gweithio'n fewnol a gyda phartneriaid wrth ddarparu ein gwasanaethau i bobl Gogledd Cymru. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu yn cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru, a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i roi. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol; fodd bynnag, y bwriad fu lleihau dyblygu lle bo modd. Mae felly, yn angenrheidiol adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu hwn.

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cael ei uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig. Roedd y sefydliad eisoes ar lefel uwchgyfeirio Ymyrraeth wedi'i Thargedu, ac felly, mae bellach ar y lefel uchaf o dan y trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth. Yn y datganiad i gyhoeddi'r Mesurau Arbennig, dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr uwchgyfeirio i'r lefel honno yn ymwneud â phryder penodol ynghylch arweinyddiaeth, diwylliant a pherfformiad. Roedd wyth maes yn peri pryder, gan gynnwys Llywodraethiant ac Effeithiolrwydd y Bwrdd.

Ar 5 Mawrth 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adroddiad Cynnydd y Bwrdd Iechyd 2025-26 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a oedd yn manylu ar gynnydd mewn ystod o feysydd, gan gynnwys diwylliant, arweinyddiaeth a llywodraethiant ac ansawdd a diogelwch.

Nododd yr adroddiad:

- Mae'r Bwrdd wedi cryfhau ei oruchwyliaeth drwy benodi aelodau newydd, fframweithiau risg a pherfformiad cliriach, a mwy o dryloywder wrth adrodd. Mae Bwrdd parhaol ar waith, mae'r newidiadau eleni yn cynnwys penodi Syr Paul Lambert yn Aelod Annibynnol i arwain ar gyllid, a Peter Lewis yn Gadeirydd ar y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

- Bu penodiadau parhaol i'r Tîm Gweithredol, gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol.

Roedd casgliad yr adroddiad yn nodi *"Mae diwylliant mwy agored ar draws y sefydliad wedi bod yn nodwedd nodedig dros y tair blynedd diwethaf. Mae gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd, cyhoeddi'r diweddaraf o ran y mesurau arbennig, ac adroddiadau cliriach am ddigwyddiadau a chwynion i gyd wedi cyfrannu at ddiwylliant mwy tryloyw. Mae mwy o ymgysylltu â staff drwy ymweliadau gan arweinwyr a sianeli cyfathrebu gwell, tra bod angen parhau i ganolbwyntio ar aeddfedrwydd diwylliannol. Mae'r newidiadau hyn yn nodi newid tuag at sefydliad mwy atebol ac ymatebol.*

Er bod gwella llwybrau perfformiad yn unol â'r disgwyliadau wedi bod yn anodd, mae gwaith sylfaenol wedi digwydd ar draws gofal wedi'i gynllunio, gwasanaethau diagnosteg, gwasanaethau mamolaeth, gofal brys ac argyfwng, a gofal sylfaenol a chymunedol. Mae hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer gwelliannau tymor hwy. Yn bwysig, mae'r bwrdd wedi datblygu dealltwriaeth fwy aeddfed o risg, atebolrwydd a sicrwydd, gan ei alluogi i symud o ymateb i argyfyngau i wneud penderfyniadau strategol tymor hwy.

Mae'r sefydliad yn parhau i wynebu heriau perfformiad sylweddol, yn enwedig ym meysydd gofal wedi'i gynllunio, canser a gofal brys ac argyfwng. Mae'r sylfeini ar gyfer gwella yn gliriach ac yn fwy tryloyw, ac wedi'u hymgorffori'n fwy cyson ar draws y bwrdd iechyd. Rhaid i'r bwrdd iechyd nawr adeiladu ar y sylfeini hyn, a hynny ar frys. Rhaid iddo hefyd gyflawni gwelliannau cyflym a pharhaus, gan ddarparu mynediad diogel ac amserol at ofal wedi'i gynllunio, gofal argyfwng a gofal canser o ansawdd uchel i bobl ledled y Gogledd."

2. EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

2.1 Rôl a chyfansoddiad y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn atebol am osod cyfeiriad strategol y sefydliad, sicrhau bod trefniadau llywodraethi a rheoli risg effeithiol ar waith a dwyn Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyfrif am gyflwyno'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn effeithiol.

Mae trefniadau llywodraethiant a sicrwydd y bwrdd iechyd wedi'u halinio â'r gofynion a nodir yn e-lawlyfr Llywodraethiant Llywodraeth Cymru a'r Egwyddorion Llywodraethiant sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd. Sicrhawyd bod y trefniadau llywodraethu hefyd yn adlewyrchu'r gofynion a nodir gan Drysorlys EF yn 'Llywodraethiant Corfforaethol mewn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog: Cod Arfer Da 2017'.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Rheolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes. Fe'u cynlluniwyd i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd, ynghyd â mabwysiadu cynllun o faterion a gadwyd i'r Bwrdd, cynllun dirprwyo manwl i swyddogion a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog,

ac maent yn nodi'r gofynion o ran cyfrifoldebau ac ymddygiad y bwrdd iechyd ac yn diffinio 'ei ffyrdd o weithio'. Mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog gan y Bwrdd ar 28 Medi 2023 a chytunwyd ar fân welliannau ar ôl hynny. Cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf gan y bwrdd ar 26 Mawrth 2026 ac maent ar gael ar wefan y bwrdd iechyd: Rheolau Sefydlog

Yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau a wneir gan Weinidogion Cymru, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud trefniadau priodol i rai swyddogaethau gael eu cyflawni ar ei ran. Mae hyn yn galluogi cyflawni busnes bob dydd y bwrdd iechyd yn effeithiol, ac mewn modd sy'n sicrhau bod nodau ac amcanion y sefydliad yn cael eu cyflawni. Amlinellir strwythur y Pwyllgorau yn yr adroddiad hwn ac mae'r Cylch Gorchwyl ar gael ar wefan y bwrdd iechyd. (Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)

2.2 Datganiad o Weledigaeth Strategol a Bwriadau Strategol

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddatganiad gweledigaeth strategol clir:

"Rydym yn adeiladu dyfodol lle mae gan bawb yng Ngogledd Cymru'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i fyw bywyd iachach a hapusach. Dros y ddegawd nesaf, bydd ein staff ymroddedig yn gweithio law yn llaw â chymunedau a phartneriaid i rymuso pobl i fod yn iach a chael y gofal sydd ei angen arnynt, pan fydd angen hynny arnynt. Gyda'n gilydd, byddwn yn creu gofal tosturiol a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n trawsnewid iechyd a lles ar gyfer y boblogaeth rydyn ni'n ei gwasanaethu"

Y Bwriadau Strategol:

- **CANOLBWYNTIO AR IECHYD A LLES** ar bob cam o fywyd - gan alluogi mwy o bwyslais ar strategaethau ataliol a rhagweithiol, eu datblygu a'u cyflawni, a chydweithio â phartneriaid sydd â'u gwreiddiau yn y cymunedau.
- **GWELLA CYDLYNU GOFAL I BOBL** sydd â chyflyrau hirdymor a gwella mynediad at ystod ehangach o wasanaethau cymunedol, gan fuddsoddi mewn gofal sylfaenol a chymunedol integredig a chydweithio â phartneriaid.
- **GWELLA MYNEDIAD, DEILLIANNAU A PHROFIADAU** gan ddatblygu a gwella llwybrau gofal o ansawdd uchel, sy'n werthfawr ac yn gynaliadwy ar gyfer y rhanbarth, gan gyflawni gwaith trwy bartneriaeth.
- **CREU SYSTEM GOFAL IECHYD MODERN SY'N BLAENORIAETHU POBL** ac yn canolbwyntio ar y dyfodol, yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i gynnig gofal trwy ddulliau digidol, ymchwil, arloesedd a gwelliannau, ac yn buddsoddi yn natblygiad a lles y gweithlu a chryfhau ein rôl fel sefydliad angori yng Ngogledd Cymru.

2.2 Hyrwyddwyr y Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y bwrdd gynllun Hyrwyddwyr y Bwrdd, gan benodi Aelodau Annibynnol i roi ffocws strategol ychwanegol ar feysydd blaenoriaeth, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae Hyrwyddwyr y Bwrdd yn gweithio gydag Arweinwyr Gweithredol i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u portffolio, sicrhau bod materion yn weladwy ac yn cael eu herio'n briodol, a chryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Mae'r rôl yn rhoi sicrwydd ychwanegol drwy ganolbwyntio'n benodol ar

graffu, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adnabod risgiau'n gynnar, heb dynnu sylw oddi wrth atebolrwydd gweithredol na rheolaeth weithredol. Ym mis Ionawr 2026 cafodd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol ar Hyrwyddwyr y Bwrdd: Adroddiad Blynyddol Hyrwyddwyr y Bwrdd.

Strwythur Llywodraethiant ac Atebolrwydd



2.3 Y Bwrdd

Cyfansoddwyd y Bwrdd i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff corfforaethol sy'n gwneud penderfyniadau, gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd. Cyhoeddir manylion y rhai sy'n rhan ar y Bwrdd ar wefan y bwrdd iechyd Y Bwrdd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae rhagor o wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Y Bwrdd sydd ar frig systemau llywodraethiant a sicrwydd y sefydliad. Ei brif rôl yw arfer arweinyddiaeth effeithiol, rhoi cyfeiriad strategol, a rheolaeth. Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethiant a rheolaeth fewnol yn y sefydliad, ac rwyf i, fel y Prif Weithredwr a'r Swyddog Atebol, yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol.

Yn gryno, mae'r Bwrdd yn:

- Pennu cyfeiriad strategol y sefydliad o fewn polisïau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru
- Gosod a chynnal Llywodraethu Corfforaethol o ansawdd uchel
- Gosod archwaeth risg y sefydliad a darparu trosolwg o risgiau strategol
- Sicrhau bod nodau ac amcanion y sefydliad yn cael eu cyflawni trwy herio perfformiad a chraffu effeithiol ar draws pob maes cyfrifoldeb
- Monitro cynnydd yn erbyn cyflawni amcanion strategol a blynyddol
- Sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol trwy weinyddu effeithiol a defnyddio adnoddau yn economaidd
- Ceisio sicrwydd ynghylch cyflawni'r pwyntiau uchod yn effeithiol

Yn ystod 2025/26, darlledwyd holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn fyw, a chafodd recordiad o'r cyfarfodydd eu huwchlwytho i'n gwefan ar ôl pob cyfarfod. Yn ystod 2025/26, cynhaliodd y Bwrdd:

- Wyth cyfarfod yn gyhoeddus (roedd cworwm ym mhob cyfarfod)
- Chwe Chyfarfod Pwyllgor (Cyfarfodydd Preifat)
- Un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Deg o Sesiynau Datblygu'r Bwrdd

Cedwir cofnod ffurfiol o bresenoldeb yn y cofnodion, gan roi manylion ymddiheuriadau a dirprwyon a enwebwyd. Mae dyddiadau, agendâu a chofnodion pob cyfarfod cyhoeddus i'w gweld ar wefan y Bwrdd Iechyd Cofnodion y Bwrdd Iechyd <https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings/>. Mae gan y Bwrdd Gylch Busnes, a addaswyd yn ystod y flwyddyn i ymateb i ddigwyddiadau ac amgylchiadau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Bwrdd hefyd yn canolbwyntio ar brofiadau dinasyddion, cleifion a staff yn y cyfarfodydd, drwy gyflwyno straeon cleifion, gofalwyr a staff mewn Adroddiad Profiadau.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Bwrdd yn ystyried nifer o faterion allweddol a chymerodd gamau lle'r oedd hynny'n briodol. Ceir crynodeb o'r rhain yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

2.4 Datblygu Bwrdd sy'n Gweithredu'n Dda

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod ei effeithiolrwydd fel corff sy'n arwain ar y cyd yn ganolog i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'i atebolrwydd. Yn ystod 2025–26, parhaodd y Bwrdd i gymryd camau gweithredol i gryfhau ei drefniadau llywodraethu, ei ymddygiadau a'i allu yn unol â nodweddion cydnabyddedig byrddau sector cyhoeddus eraill sy'n perfformio'n dda.

Cynhaliodd y Bwrdd raglen strwythuredig o weithgarwch i ddatblygu'r Bwrdd. Cyflwynwyd y rhain drwy sesiynau anffurfiol wedi'u hamserlennu a digwyddiadau datblygu a oedd wedi'u targedu. Cynlluniwyd y rhaglen hon i gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau dros arweinyddiaeth strategol, goruchwylio risg a pherfformiad, a sicrwydd effeithiol, ac fe'i llywiwyd gan fyfyrdodau'r Bwrdd ei hun, adborth o weithgarwch datblygu, a mewnwelediadau o lywodraethiant allanol.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y bwrdd iechyd hunanasesiad strwythuredig i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, arwain a rheoli mewnol. Gan dynnu ar dystiolaeth o hunanasesiadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, barn Archwilio Mewnol a gwaith Archwilio Cymru, mae'r asesiad yn cadarnhau bod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol, gyda thrafodaeth agored, her adeiladol a gwelliannau o ran ansawdd sicrwydd.

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cryfhau disgyblaeth llywodraethu, eglurder atebolrwydd a'r cysylltiad rhwng strategaeth, risg, perfformiad a gwelliannau. Nododd yr asesiad hefyd feysydd i ganolbwyntio arnynt yn barhaus, gan gynnwys cadw gafael strategol a sicrwydd mewn meysydd o bwysau gweithredol parhaus.

Drwy gydol y flwyddyn, defnyddiodd y Bwrdd gyfarfodydd anffurfiol y Bwrdd i ddiogelu amser ar gyfer trafodaethau strategol, dysgu ac adfyfyrio ar faterion cymhleth. Bu'r sesiynau hyn yn fodd o wella ansawdd deialog y Bwrdd, rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau ar y cyd, a chryfhau'r ddealltwriaeth o'r cydbwysedd rhwng goruchwyliaeth strategol a rheolaeth weithredol.

Parhaodd y Bwrdd hefyd i ganolbwyntio ar ffyrdd o weithio ac ymddygiadau, gan gynnwys herio'n adeiladol, defnyddio gwybodaeth yn effeithiol, a thrafodaeth agored a gonest, i gynorthwyo â gwneud penderfyniadau hyderus a gwybodus. Roedd hyn yn cynnwys atgyfnerthu eglurder rolau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau a chryfhau'r aliniad rhwng sicrwydd y Pwyllgor a materion sy'n cael eu huwchgyfeirio at y Bwrdd i'w hystyried.

Mae'r Bwrdd yn ystyried ei ddatblygiad yn broses barhaus ac mae'n parhau i fod wedi ymrwymo i adolygu ei effeithiolrwydd yn rheolaidd, nodi meysydd i'w gwella ymhellach, a sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu yn parhau i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau diogel o ansawdd uchel, a gwelliannau sefydliadol.

Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cynnwys holl fanylion y newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2025/26.

2.5 Safonau Ymddygiad

Mae Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Lywodraethiant sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd yn berthnasol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn

yn cyfuno pob agwedd ar lywodraethiant ac yn ymgorffori'r gwerthoedd a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ar bob lefel o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n gryf i fod yn seiliedig ar werthoedd, wedi'i wreiddio yn egwyddorion 'Nolan' a chyda safonau uchel o ymddygiad cyhoeddus gan gynnwys bod yn agored, safonau gwasanaeth cwsmeriaid, amrywiaeth ac arweinyddiaeth ymgysylltiedig. Mae gan y Bwrdd Bolisi Safonau Ymddygiad sy'n nodi disgwyliadau'r Bwrdd ac mae'n darparu canllawiau fel bod unigolion yn cael eu cefnogi i gyflawni'r gofynion hynny.

Mae'r Polisi Safonau Ymddygiad yn ailddatgan ac yn adeiladu ar y darpariaethau Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad sydd yn Adran 7 o Reolau Sefydlog y bwrdd iechyd. Mae'n ail-bwysleisio ymrwymiad y bwrdd iechyd i sicrhau ei fod yn gweithredu i'r safonau uchaf ac yn nodi rolau, a chyfrifoldebau'r rhai a gyflogir gan y bwrdd iechyd, a'r trefniadau ar gyfer datgan buddiannau, rhoddion, lletygarwch, a nawdd.

Mae'r polisi hefyd yn nodi safon ymddygiad y rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus fel y gellir gweld bod gan y bwrdd iechyd arfer rhagorol yn hyn o beth.

Mae manylion Polisi Safonau Ymddygiad Busnes y Bwrdd, sy'n ymgorffori Datganiadau Buddiant, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd, ar gael ar wefan Datganiadau o Fuddiant y bwrdd iechyd.

2.6 Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae Adran 3 o Reolau Sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn nodi 'Gall y Bwrdd, a lle bo Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo hynny, rhaid iddo, naill ai gyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu roi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth arfer ei swyddogaethau'.

Yn unol â'r gofynion hyn, mae'r Bwrdd wedi sefydlu strwythur Pwyllgorau Sefydlog, y mae wedi penderfynu sy'n bodloni anghenion y bwrdd iechyd orau wrth ystyried gofynion rheoleiddio a gofynion Llywodraeth Cymru. Cadeirir pob Pwyllgor gan Aelod Annibynnol o'r Bwrdd. Mae pob Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl a'i Gylchoedd Busnes yn rheolaidd er mwyn cefnogi busnes y Bwrdd. Mae Pwyllgorau hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar ran y Bwrdd er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynllunio'n gydlynol, a'i fod yn canolbwyntio ar y materion sydd â'r risg uchaf a fyddai'n atal y bwrdd iechyd rhag cyflawni ei weledigaeth, ei nodau a'i amcanion.

Pwyllgorau 2025-26:

- Y Pwyllgor Archwilio
- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
- Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethant Gwybodaeth
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad

- Y Pwyllgor Tâl
- Y Pwyllgor Gweithredol

Ceir manylion enwau a dyddiadau'r Pwyllgorau yn Atodiad 2.

Mae Cylch Gorchwyl manwl, agendâu a phapurau pob un o'r Pwyllgorau presennol i'w gweld ar wefan y bwrdd iechyd Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar fusnes pob cyfarfod Pwyllgor yng nghyfarfodydd y Bwrdd, gan amlygu unrhyw faterion sy'n peri pryder neu faterion sydd wedi eu huwchgyfeirio y mae angen i'r Bwrdd eu hystyried. Mae hyn yn cyfrannu at asesiad y Bwrdd o risg, lefel sicrwydd, a chraffu yn erbyn cyflawni amcanion. Cedwir cofnodion a logiau gweithredu ar gyfer y Bwrdd a Phwyllgorau ac fe'u defnyddir i lywio busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw ac mae'n cynnal cymaint o fusnes ei Fwrdd a'i Bwyllgorau â phosibl mewn sesiynau y mae croeso i aelodau o'r cyhoedd eu mynychu a'u harsylwi. Gwneir hyn naill ai trwy ffrwd fyw (cyfarfodydd y Bwrdd), neu drwy wahodd aelodau o'r cyhoedd i gysylltu â'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol i ofyn am gyfle i arsylwi cyfarfodydd Pwyllgor nad ydynt yn cael eu ffrydio'n fyw.

2.7 Crynodeb o Fusnes a Ystyriwyd gan Bwyllgorau'r Bwrdd

Yn ystod 2025-26, bu Pwyllgorau'r Bwrdd yn ystyried a chraffu ar ystod o adroddiadau a phryderon sy'n berthnasol i'r materion a ddirprwywyd iddynt gan y Bwrdd. Roedd adroddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgorau yn cynnwys amrywiaeth o adroddiadau archwilio mewnol, adroddiadau archwilio allanol ac adroddiadau gan gyrff adolygu a rheoleiddio eraill, megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae ystyriaeth a dadansoddiad y Pwyllgorau o wybodaeth o'r fath wedi chwarae rhan allweddol yn fy asesiad o effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, trefniadau rheoli risg a mecanweithiau sicrwydd. Bu'r Pwyllgorau hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar ddatblygiadau strategol lleol a chenedlaethol a meysydd ar gyfer polisïau newydd.

Ceir crynodeb o gylch gwaith pob Pwyllgor yn y tabl isod:

Pwyllgor	Crynodeb o Gylch Gwaith y Pwyllgor
Y Pwyllgor Archwilio	Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol, yn unol â safonau llywodraethiant da GIG Cymru, ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y bwrdd iechyd, gan gynorthwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau gwybodus a chyflawni atebolrwydd statudol.

Pwyllgor	Crynodeb o Gylch Gwaith y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sefydlu a goruchwylio trefniadau ar gyfer rheoli Cronfeydd Elusennol y bwrdd iechyd, sydd â'r enw gweithredol **Awyr Las**.
Y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl	Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio ac yn monitro defnydd y bwrdd iechyd o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gan gynnwys Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.
Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant	Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau ac arferion gorau sy'n ymwneud â'r agenda Pobl a Datblygu Sefydliadol, gan ddysgu gwersi yn sgil gwaith sy'n digwydd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a sicrhau bod gwelliannau parhaus. Mae'n goruchwylio cyflawni Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol y bwrdd iechyd a Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan, gan sicrhau aliniad â chyfeiriad strategol y Bwrdd a'r gofynion statudol ar gyrff y GIG yng Nghymru.
Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethant Gwybodaeth	Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch sefyllfa ariannol bresennol y bwrdd iechyd a'r sefyllfa yn y dyfodol, ei berfformiad ariannol a'i ddarpariaeth, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf a chostau'r gweithlu. Mae'n goruchwylio'r ddarpariaeth o fframwaith, polisïau, targedau LIC / lleol ac adroddiadau perfformiad, ac yn eu monitro, ynghyd â goruchwylio trefniadau llywodraethiant gwybodaeth.
Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau	Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd ar gynllunio hirdymor, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynllun gweithredu Blynyddol, gan sicrhau bod strategaethau galluogi yn cael eu halinio. Mae'n goruchwylio trefniadau partneriaethau i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys gofal sylfaenol, iechyd y cyhoedd a phenderfynyddion iechyd ehangach, ac yn goruchwylio gwelliannau iechyd y boblogaeth ba pherfformiad anghydraddoldebau iechyd sy'n cael eu llywio gan ganlyniadau asesiadau o anghenion y boblogaeth.
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad	Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd ar ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys effeithiolrwydd clinigol, diogelwch cleifion, profiad cleifion a gofalwyr, ac iechyd a diogelwch, p'un a yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan y bwrdd iechyd neu drwy drefniadau partneriaeth.
Y Pwyllgor Tâl	Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd ar dâl a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch staff eraill, o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd ar drefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer tâl, telerau gwasanaeth a threfniadau cytundebol ar gyfer yr holl staff, yn unol â gofynion a safonau GIG Cymru.

Y Pwyllgor Gweithredol yw prif fforwm gwneud penderfyniadau gweithredol y Bwrdd Iechyd. Mae'n cefnogi'r Prif Weithredwr drwy oruchwylio rheolaeth o ddydd i ddydd,

gan gynnwys llywodraethiant rheoli risg a threfniadau rheolaeth fewnol, yn unol â'r awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd. Yn ystod 2025/26, mae'r Pwyllgor wedi cryfhau gweledded a chydlyniad penderfyniadau gweithredol. Fodd bynnag, nododd adolygiad archwilio mewnol feysydd yr oedd angen eu datblygu ymhellach, gan gynnwys eglurder ar statws ffurfiol y Pwyllgor a'i alinio'n llwyr â'i Gylch Gorchwyl a'i Reolau Sefydlog. O ganlyniad cafwyd barn sicrwydd cyfyngedig. Mae camau gweithredu ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys diwygio'r Cylch Gorchwyl, gwella disgyblaeth o ran agenda, a chryfhau adrodd a sicrwydd i'r Bwrdd i sicrhau cydymffurfiaeth a gwella effeithiolrwydd a thryloywder trefniadau llywodraethiant gweithredol.

2.8 Datblygu'r Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd y Bwrdd ran mewn nifer o sesiynau datblygu a briffio a oedd yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Sylfeini ar gyfer y Dyfodol
- Myfyrdodau'r Prif Weithredwr
- Myfyrdodau ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a Chyflwyniad i'r dull Newid Strategol
- Gofal wedi'i Gynllunio
- Diweddariad Blynyddol Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd GIG Cymru
- Hyfforddiant Diogelu
- Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), Strategaeth 10 Mlynedd a Chynllun Gwasanaethau Clinigol
- Dysgu o Adroddiad Ernst Young
- Datblygiad Strategol Iechyd Meddwl
- Ymweliadau'r Bwrdd
- Myfyrdodau ar y 12 mis diwethaf
- Blaenoriaethau a Chynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf (cyfleoedd mawr a heriau mawr)
- Sut allwn ni drefnu ein hunain orau i gyflawni hyn drwy'r Bwrdd a'r Pwyllgorau
- Ymgynghoriad Hywel Dda
- Adolygiad o Hunanasesiad Digidol Archwilio Cymru
- Adolygiad o Archwaeth Risg
- Rolau Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd Band 2/3
- Hwyluso allanol i Ddatblygu'r Bwrdd
- Briff y Cadeirydd (Adborth ar Gyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus)
- Briff y Prif Weithredwr
- Hwb Llandudno
- Cyllid
- Adborth ar Ddatblygu'r Bwrdd
- Strategaeth
- Grŵp Cynghori Arbenigol – Negeseuon Allweddol
- Uchelgais y Gymraeg
- Cylch Cynllunio IMTP gan gynnwys Gwneud Penderfyniadau ar Gynllunio Ariannol
- Datblygu'r Bwrdd Cydraddoldeb
- System Rheoli Ansawdd - Gwella'r GIG
- Cynllun Tymor Canolig Integredig
- Sylfeini ar gyfer y Dyfodol Cyn-Ymgysylltu

2.9 Grwpiau Cynghori

Mae Rheolau Sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd sefydlu tri Grŵp Cynghori. Mae'r grwpiau'n caniatáu i'r Bwrdd ofyn am gyngor gan staff a rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori â nhw. Y grwpiau yw:

- Fforwm Partneriaeth Lleol
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Ceir gwybodaeth am rôl a chylch gorchwyl pob Grŵp Cynghori yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd sydd ar wefan y bwrdd iechyd.
Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn ymgysylltu â sefydliadau staff ar faterion allweddol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd. Mae'n darparu'r mecanwaith ffurfiol a ddefnyddir gan y bwrdd iechyd i gydweithio ag Undebau Llafur a chyrff proffesiynol i wella gwasanaethau iechyd ar gyfer y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Y fforwm rhanddeiliaid sy'n llywio'r ddadl ac sy'n ceisio cytuno ar flaenoriaethau lleol ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu a'r gwasanaeth iechyd. Cyfarfu'r Fforwm Partneriaeth Lleol ddwywaith yn ystod 2025-26.

Mae amrywiaeth o sefydliadau partner o bob rhan o ardal y bwrdd iechyd yn ffurfio'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Mae'n rhoi cyngor ac adborth i'r Bwrdd ar ei gyfeiriad strategol, cynigion ynghylch gwella gwasanaethau ac effaith gweithrediadau'r Bwrdd ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Cyfarfu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid chwe gwaith yn ystod 2025-26. Roedd hyn yn cynnwys un sesiwn ddatblygu ac un gweithdy.

Mae'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o broffesiynau clinigol a gofal iechyd y bwrdd iechyd ac ar draws ymarferwyr gofal sylfaenol. Cylch gorchwyl y Fforwm yw rhoi cyngor i'r Bwrdd ar yr holl faterion proffesiynol a chlinigol y mae'n eu hystyried yn briodol. Mae'n un o'r fforymau allweddol a ddefnyddir i rannu cynlluniau cynnar ynghylch newidiadau i wasanaethau, gan roi cyfle i lunio'r ffordd y mae'r bwrdd iechyd yn darparu ei wasanaethau. Cyfarfu'r Fforwm bedair gwaith yn ystod 2025-26. Roedd hyn yn cynnwys un gweithdy.

2.10 Adrodd i'r Bwrdd ar Gyd-bwyllgorau a Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Prif Weithredwr yn cynrychioli'r Bwrdd ar gyfarfodydd y Cyd-bwyllgorau. Mae'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar waith y Cyd-bwyllgorau i'r Bwrdd. Mae'r adroddiadau'n galluogi trafodaeth fanwl ar faterion a godwyd yn y Cyd-bwyllgorau yn ôl yr angen.

Cyd-bwyllgor Comisiynu Cymru Gyfan

Mae Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (JCC) yn gyfrifol am gynllunio, comisiynu a goruchwylio gwasanaethau'r GIG a gomisiynir yn genedlaethol ar ran Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Mae'n gweithio fel trefniant pwyllgor cydweithredol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu yn y ffordd orau i Gymru gyfan.
Mae'r JCC yn:

- Rhoi arweinyddiaeth strategol ar gomisiynu ar gyfer gwasanaethau arbenigol a chenedlaethol
- Goruchwylio penderfyniadau, risg a pherfformiad sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny
- Sicrwydd bod penderfyniadau comisiynu yn cael eu gwneud yn deg, yn gyfrifol, ac yn unol â'r fframweithiau llywodraethu y cytunwyd arnynt
- Mecanwaith ar gyfer penderfyniadau ar y cyd

Gan fod y JCC yn gorff cyhoeddus sy'n gweithredu o fewn GIG Cymru, mae'n ofynnol i'r JCC weithio'n agored, yn deg, ac yn unol â rheolau llywodraethiant clir, gan sicrhau'r canlynol:

- Gwneir penderfyniadau'n briodol a gellir eu herio lle bo angen
- Mae risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol
- Cedwir cofnodion cywir
- Mae tryloywder ac atebolrwydd wrth gomisiynu gwasanaethau cenedlaethol

Mae trefniadau llywodraethiant y JCC yn nodi sut mae'n cynnal ei fusnes, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u hadolygu, a sut mae'n parhau i fod yn atebol am gynllunio a goruchwylio gwasanaethau cenedlaethol ar ran GIG Cymru.

Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Sefydlwyd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn 2012 a chaiff ei gynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'n gyfrifol am swyddogaethau gwasanaethau a rennir ar gyfer y GIG, er enghraifft, caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol. Cynrychiolir Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn a bydd y Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd ar ôl pob cyfarfod.

Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn datblygu ac yn llywio cyd-flaenoriaethau cytunedig, yn rhannu gwybodaeth, yn cynnal trosolwg o weithio rhanbarthol ac yn ‘sganio'r gorwel’ ynghylch materion sy’n dod i’r amlwg a / neu gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Mae’n darparu llywodraethiant rhanbarthol ar gyfer eiriolaeth gydweithredol er budd y rhanbarth, gan weithredu fel ‘Llais Gogledd Cymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys:

- Chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru - Arweinwyr a Phrif Weithredwyr
- BIPBC - Cadeirydd a Phrif Weithredwr
- Cyfoeth Naturiol Cymru - Cadeirydd a Rheolwr Gweithrediadau
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Cadeirydd a Phrif Swyddog Tân
- Heddlu Gogledd Cymru - Prif Gwnstabl
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru - Cadeirydd a Phrif Weithredwr
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Prif Weithredwr

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a gwasanaethau eraill i nodi a diwallu anghenion pobl yn ein rhanbarth.

Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth fel:

- plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- pobl hŷn gan gynnwys pobl sy'n byw â dementia
- pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol
- pobl ag anghenion lles emosiynol ac iechyd meddwl
- gofalwyr di-dâl.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys aelodau o Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Dinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac eraill.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant yn rhoi arweinyddiaeth ar ystod eang o faterion sy'n wynebu gwahanol grwpiau oedran o fabanod hyd at oedolion ifanc. Dysgwch fwy am y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant gan gynnwys datganiad cenhadaeth, gwerthoedd arweiniol a'r egwyddorion yma Ynglŷn â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Plant.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob un o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae pwerau yn y Ddeddf wedi galluogi chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru i uno i sefydlu tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cydweithredol:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio i wella llesiant pobl yn eu siroedd. Eu cyfrifoldeb fel grŵp yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd a gosod amcanion sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae gan bob Bwrdd Gynllun Llesiant sy'n seiliedig ar ddadansoddiad lleol o lesiant.

3. DIBEN Y SYSTEM RHEOLI MEWNOL

Mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu o fewn system strwythuredig o reolaeth fewnol a gynlluniwyd i sicrhau llywodraethiant effeithiol, stiwardiaeth ariannol, a gofal o ansawdd uchel. Mae'r rheolaethau hyn yn cynnwys fframweithiau atebolrwydd clir, prosesau rheoli risg cadarn, a monitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn amcanion statudol a strategol. Drwy gynnal goruchwyliaeth gref o ansawdd clinigol, penderfyniadau ariannol, a chyflawni gweithredol, mae'r bwrdd iechyd yn helpu i ddiogelu adnoddau cyhoeddus wrth hyrwyddo tryloywder a gwelliannau parhaus ar draws gwasanaethau.

Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i llunio i nodi a blaenoriaethu risgiau a allai atal cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y bwrdd iechyd. Mae hefyd yn gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny yn cael eu gwireddu, ac yn eu rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Gallaf gadarnhau bod y system rheoli mewnol wedi bod ar waith yn y bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 March 2026 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Mae'r Bwrdd yn atebol am gynnal system rheoli mewnol gadarn sy'n cynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei amcanion. Mae'r system yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys gwahanu dyletswyddau a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Mae gwaith y Pwyllgor Archwilio yn ategu'r rôl hon.

Yn ystod 2025–26, cafodd nifer o brosesau eu rhoi ar waith i atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu o ran rheoli argymhellion archwiliadau, adrodd arnynt, a'u cau wedi hynny. Roedd cynnydd yn destun craffu rheolaidd, ac uwchgyfeirio at y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio lle bo angen, gan roi sicrwydd ynghylch cyflawni a gwelliannau parhaus.

Derbyniodd y bwrdd iechyd gyfanswm o 31 o adroddiadau archwilio yn ystod 2025-26, 29 ohonynt yn deillio o Archwilio Mewnol, a dau gan Archwilio Cymru. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu datblygu, a rhoddir diweddariadau ym mhob Pwyllgor Archwilio. O ran Archwilio Mewnol, mae 15 o adroddiadau â sicrwydd cyfyngedig ar agor a 4 o adroddiadau â sicrwydd anfoddhaol ar agor. O ran Archwilio Allanol, mae 7 o argymhellion yn parhau ar agor.

4. Y GALLU I YMDRIN Â RISG

Cafodd Fframwaith Rheoli Risg Betsi Cadwaladr ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Medi 2023 a chymeradwywyd y dogfennau cysylltiedig (Cynllun Hyfforddi Gweithdrefnau a Rheoli Risg) yn fuan ar wedi hynny. Gwnaed mân ddiwygiadau i'r Fframwaith Rheoli Risg i fireinio'r broses uwchgyfeirio. Roedd y diweddariadau'n rhan o'r diwygiadau a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 27 Tachwedd 2025.

Mae'r Fframwaith yn ceisio sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o ddiwylliant y bwrdd iechyd ac yn elfen bwysig o'i brosesau cynllunio, pennu cyllideb a pherfformiad.

Mae Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd yn amlinellu prosesau a mecanweithiau'r bwrdd iechyd ar gyfer nodi, asesu ac uwchgyfeirio risgiau. Fe'i datblygwyd i greu diwylliant rheoli risg cadarn ar draws y bwrdd iechyd drwy nodi'r dulliau a'r mecanweithiau y bydd y bwrdd iechyd yn eu defnyddio i:

- Sicrhau bod yr egwyddorion, y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer arfer gorau rheoli risg yn gyson ar draws y bwrdd iechyd ac yn addas at eu diben.
- Sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli trwy Fframwaith Sicrwydd sefydliadol cadarn a Chofrestrau Risg Gweithredol Corfforaethol a Gwasanaeth/Swyddogaeth.
- Gwreiddio rheoli risg a gweithdrefnau adrodd sefydledig ynghylch risgiau lleol i sicrhau y ceir proses reoli integredig effeithiol yn holl weithgareddau'r bwrdd iechyd.
- Sicrhau bod penderfyniadau strategol a gweithredol yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth o risgiau'r sefydliad a'u heffaith debygol.
- Sicrhau bod risgiau a allai atal cyflawni amcanion strategol y bwrdd iechyd yn cael eu dileu, eu trosglwyddo, neu eu rheoli'n rhagweithiol.
- Rheoli'r risgiau clinigol ac anghlinigol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd mewn ffordd gydgysylltiedig ac effeithiol; a

- Hysbysu'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn briodol am risgiau sylweddol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd a chynlluniau cysylltiedig i ymdrin â'r risg.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn nodi proses adrodd amlhaenog, sy'n cynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Cofrestrau Risg Gwasanaethau a Chofrestrau Risg Prosiectau. Fe'i datblygwyd i helpu meithrin a chynnal diwylliant sefydliadol sy'n annog cymryd risgiau priodol, rheoli perfformiad a dysgu sefydliadol effeithiol er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir.

Archwaeth Risg

Mae'r Datganiad Archwaeth Risg yn elfen bwysig o drefniadau rheoli risg y bwrdd iechyd gan ei fod yn rhoi arweiniad a chyfeiriad wrth flaenoriaethu risgiau a dyrannu adnoddau.

Mae ***Archwaeth Risg*** y bwrdd iechyd yn cynrychioli'r parodrwydd cyffredinol i dderbyn risg ar lefel strategol, tra bod ***Goddefiant Risg*** yn cyfeirio at lefel y risg sy'n dderbyniol ar gyfer gweithgarwch neu benderfyniad penodol.

Mae archwaeth risg yn llywio agwedd gyffredinol y bwrdd iechyd at risg, tra bod goddefiant yn cynnig fframwaith mwy manwl a mesuradwy ar gyfer asesu a rheoli risg mewn cyd-destunau penodol. Y dull hwn fu'r grym y tu ôl i'r gwaith o reoli risgiau strategol a gweithredol, a hwn fydd yr offeryn a ddefnyddir ledled y bwrdd iechyd i bennu risgiau i themâu ac i ddarparu sail ar gyfer rheoli risg.

Wrth ddiweddaru a chymeradwyo ei Ddatganiad Archwaeth Risg, ystyriodd y Bwrdd gapasiti a gallu'r bwrdd iechyd i reoli risg. Adolygodd y Bwrdd ei archwaeth risg yn ystod 2025 ac mae'n destun adolygiad blynyddol. Cafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar 27 Awst 2025.

ARCHWAETH RISG 2025/26

Math o Risg	Lefel yr Archwaeth Risg	Disgrifiad o'r Archwaeth Risg	Trothwy'r Archwaeth Risg
Ansawdd	Agored	Roedd parodrwydd i fod yn 'agored' ac ystyried pob opsiwn a dewis o ran cyflawni gan ddarparu lefel dderbyniol o wobr (a Gwerth am Arian). Rydym yn barod i dderbyn y posibilrwydd o risgiau tymor byr, rheoledig i ansawdd neu ddiogelwch lle mae tystiolaeth gref y bydd y newid yn sicrhau gwelliant hirdymor yng nghanlyniadau cleifion. Byddwn yn ymgorffori ymchwilio a	**<15**

Math o Risg	Lefel yr Archwaeth Risg	Disgrifiad o'r Archwaeth Risg	Trothwy'r Archwaeth Risg
		dysgu ym mhob penderfyniad, gan sicrhau bod y ddyletswydd gonestrwydd yn parhau i fod yn ganolog i'n dull gweithredu.	
Ariannol	Agored	Roedd consensws cytûn o blaid archwaeth risg 'agored' er mwyn ystyried pob opsiwn a dewis posibl o ran cyflawni gan ddarparu lefel dderbyniol o wobr hefyd (a Gwerth am Arian). Roedd consensws cytûn i fuddsoddi am elw, ond lleihau'r posibilrwydd o golled ariannol drwy reoli'r risgiau i lefel y gellir ei goddef. Ystyriwyd gwerth a manteision (nid y pris rhataf yn unig). Dyrannwyd adnoddau er mwyn manteisio ar gyfleoedd.	**<15**
Cydymffurfio/ Rheoleiddio	Agored	Roedd consensws cytûn o blaid archwaeth risg 'agored' er mwyn ystyried pob opsiwn a dewis posibl o ran cyflawni gan ddarparu lefel dderbyniol o wobr hefyd (a Gwerth am Arian). Bydd her yn peri problem ond mae'n debyg y byddwn yn ei hennill a bydd yr enillion yn gorbwyso'r canlyniadau niweidiol.	**<15**
Arloesi	Ceisio	Roedd consensws clir i 'geisio' arloesi, gydag awydd i fod yn flaengar ac i fynd ar drywydd opsiynau a allai gynnig gwobrau busnes uwch. Rydym yn mynd ar drywydd arloesiadau sy'n herio arferion cyfredol wrth weithredu rheolaethau i leihau risgiau i ddiogelwch cleifion, lle mae potensial cryf ar gyfer gwelliannau sylweddol mewn canlyniadau. Mae treialon rheoledig, rhaglenni peilot, ac	**<20**

Math o Risg	Lefel yr Archwaeth Risg	Disgrifiad o'r Archwaeth Risg	Trothwy'r Archwaeth Risg
		ymgysylltu tryloyw â rhanddeiliaid yn parhau i fod yn rhan annatod o'r dull hwn.	
Enw Da	Ceisio	Roedd consensws cytûn i 'geisio' rhai risgiau i enw da ac awydd i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau sy'n cynnig gwobrau busnes uwch o bosibl (er gwaethaf risg gynhenid fwy). Rydym yn barod i wneud penderfyniadau beiddgar lle bydd craffu sylweddol, os ydynt er budd gorau diogelwch cleifion a gwella gwasanaethau. Caiff enw da ei reoli'n weithredol drwy gyfathrebu tryloyw, sy'n seiliedig ar werthoedd, ac rydym yn ystyried budd y cyhoedd fel cyfle i ddangos arweinyddiaeth.	**<20**

Rheoli Risg yn ystod 2025/26 - Risgiau Strategol

Risgiau strategol yw'r rhai sy'n cyflwyno bygythiad sylweddol i allu'r bwrdd iechyd i gyflawni ei flaenoriaethau strategol a chynnal gwasanaethau diogel a chynaliadwy. Mae risgiau strategol y bwrdd iechyd wedi'u dwyn ynghyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR), sy'n rhoi golwg gyfunol ar amlygiad i risg a'r camau gweithredu sydd ar waith i leihau'r amlygiad hwnnw dros amser.

Caiff y CRR ei adolygu drwy lwybrau llywodraethiant sefydledig (gan gynnwys Arweinwyr Gweithredol, Pwyllgorau a'r Grŵp Craffu Risg) a chaiff ei chyflwyno i'r Bwrdd i er mwyn craffu, herio a cheisio sicrwydd.

Ym mis Mawrth 2026, roedd y CRR yn cynnwys 11 risg gorfforaethol. Mae deg o'r un ar ddeg yn parhau i fod uwchlaw archwaeth/goddefiant y risg a ddatganwyd gan y bwrdd iechyd**,** gan ddangos amlygiad strategol cynaliadwy a chyflymder annigonol o leihau risg o'i gymharu â'r archwaeth. CRR25-05 (Newid Strategol – Yn Effeithio ar Ddarparu Gofal a Staff) yw'r unig risg sy'n cael ei hasesu ar hyn o bryd fel un sydd o fewn y goddefiant.

Mae cyfanswm o 91 o gamau gweithredu ar waith ar draws y CRR: 18 wedi'u cwblhau**,** 71 yn cael eu datblygu**,** a 2 wedi'u gohirio (y 2 o fewn Anghenion Poblogaeth CRR25-03, lle mae dibyniaethau allanol wedi gohirio cychwyn tan 2026/27). Er bod prosesau llywodraethu wedi parhau i aeddfedu, mae adolygiad diweddar yn cadarnhau symudiad cyfyngedig mewn sgoriau risg dros y 12 mis diwethaf, a dim

newid mewn sgoriau yn y cylch adrodd diweddaraf, gan atgyfnerthu'r angen i gynlluniau gweithredu ganolbwyntio fwyfwy ar ganlyniadau a'u cysylltu'n amlwg â lleihau risg.

Er mwyn cryfhau gafael a gwella'r gweledegdd rhwng bylchau mewn rheolaeth, camau gweithredu, metrigau a'r gostyngiad risg disgwyliedig, mae templed adrodd CRR diwygiedig wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio o fis Ebrill 2026, ochr yn ochr â rhaglen well o ymchwiliadau manwl i gryfhau craffu ac atebolrwydd.

O fewn y cyfnod adrodd nid yw sgôr risg yr un o'r Risgiau Corfforaethol diwygiedig wedi gostwng:

- 11 o Risgiau Corfforaethol
- Datblygwyd 91 o gamau gweithredu i liniaru'r risgiau.
- 71 o gamau gweithredu yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, gyda 2 gam gweithredu wedi'u gohirio i ddechrau yn ystod 26/27.
- Caewyd 18 o gamau gweithredu rhwng mis Gorffennaf 25 a mis Mawrth 26

Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, roedd 11 o risgiau strategol a ddisgrifiwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, sef y risgiau mwyaf sylweddol i'r bwrdd iechyd o ran yr effaith bosibl ar gyflawni blaenoriaethau strategol y Bwrdd. Mae'r 11 hyn wedi'u categoreiddio i lefelau risg yn seiliedig ar eu 'tebygolrwydd' a'r 'effaith' os bydd y risg yn digwydd. Mae 10 o'r 11 risg strategol a reolir gan y bwrdd iechyd y tu allan i archwaeth y maes risg.

Mae'r Tabl isod yn dangos y 10 risg gorfforaethol sydd y tu hwnt i'r archwaeth.

Thema'r Risg	Lefel yr Archwaeth Risg	Sgôr Risg
Mynediad Amserol at Ofal Diogel ac Effeithiol i Gleifion	Ansawdd (Goddefiant <15)	**20**
Galw yn y Dyfodol a Gweithlu Cynaliadwy	Ansawdd (Goddefiant <15)	**16**
Anghenion y Boblogaeth	Ansawdd (Goddefiant <15)	**16**
Moderneiddio ein Seilwaith Digidol	Ansawdd (Goddefiant <15)	**20**
Cyflawni Gwerth a Chynaliadwyedd Ariannol	Ariannol (Goddefiant <15)	**20**
Arweinyddiaeth a Model Gweithredu	Ansawdd (Goddefiant <15)	**16**
Diffyg Cydymffurfio â Gofynion Rheoleiddiol a Deddfwriaethol	Rheoleiddio (Goddefgarwch <15)	**16**
Amgylchedd Diogel	Rheoleiddio (Goddefgarwch <15)	**20**

Thema'r Risg	Lefel yr Archwaeth Risg	Sgôr Risg
Iechyd a Diogelwch	Rheoleiddio (Goddefgarwch <15)	**16**
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Seiber	Ansawdd (Goddefiant <15)	**20**

Mae copi o'r Adroddiad Risg Corfforaethol diweddaraf a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2026 ar gael yma.

Mae'r risgiau sydd wedi'u cynnwys wedi bod yn destun craffu, herio ac adolygu gan y gweithredwr sy'n berchennog ar y risg. Cynhaliwyd asesiadau cadarn o system rheoli mewnol y bwrdd iechyd hefyd, ochr yn ochr ag adolygiad o'r holl ffynonellau sicrwydd sy'n ymwneud â phob risg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi gwell sicrwydd ar y risgiau sydd y tu hwnt i archwaeth. Gwneir hyn drwy archwiliad dwfn o'r risgiau y tu hwnt i archwaeth, datblygu cynlluniau gweithredu i wella rheolaeth a lliniaru'r tebygolrwydd / effaith.

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF)

Cymeradwywyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) gan y Bwrdd ym mis Mai 2026 (tud.392) . Mae wyth prif risg yn cyd-fynd â phum amcan strategol y bwrdd iechyd. Mae'r holl brif risgiau sy'n gysylltiedig â fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cyd-fynd â'r risgiau corfforaethol perthnasol, ac i'r gwrthwyneb. Mae pob risg a nodwyd yn cynnwys cynlluniau i gymeradwyo gwella rheolaethau. Mae camau gweithredu'n cael eu holrhain a'u cyflwyno i'r Bwrdd.

Risgiau Allweddol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn hysbysu ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd trwy gyfrwng rheolaethau a chynlluniau gweithredu ar gyfer risgiau uchel-eithafol a nodwyd sy'n ymwneud ag unrhyw bosibilrwydd o fethu â chyflawni blaenoriaethau strategol y bwrdd iechyd.

Gwreiddio Dulliau Rheoli Risg Effeithiol

Mae gwreiddio dulliau rheoli risg effeithiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan ei fod yn hanfodol i alluogi cyflawni ein hamcanion, yn strategol ac yn weithredol, ac yn bwysicaf oll, i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel.

Ym mis Mawrth 2026, cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o drefniadau Rheoli Risg a Sicrwydd y Bwrdd yn ystod 2025/26. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar sut roedd y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei weithredu a'i gynnal. Rhoddwyd sgôr 'sicrwydd rhesymol' i'r Bwrdd gan gynnal y lefel o sicrwydd a roddwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Yr argymhellion gan yr Archwiliad Mewnol oedd canolbwyntio ar gryfhau trefniadau hyfforddi a mynd i'r afael â risgiau gweithredol sydd yn hwyr yn cael eu datrys. Bydd ymdrechion yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yn cael eu dwysáu i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion hyfforddiant.

Mae'r Grŵp Craffu ar Risg wedi cyfarfod yn rheolaidd ers ei ffurfio yn 2025/26 gan oruchwylio risgiau corfforaethol a sicrwydd ar gynnydd trefniadau llywodraethu risg yn weithredol. I gefnogi hyn, mae'r Tîm Rheoli Risg Corfforaethol yn cynhyrchu adroddiad llywodraethu sy'n crynhoi effeithiolrwydd rheoli risg ar draws Uwch Adrannau, Cyfarwyddiaethau a Chymunedau Iechyd Integredig (IHC), yn unol â Fframwaith Risg a Gweithdrefnau Rheoli Risg y bwrdd iechyd.

Mae archwiliadau rheoli risg yn asesu cyflawnrwydd a chywirdeb cofrestrau risg, amseroldeb ac ansawdd adolygiadau risg, trefniadau llywodraethu a goruchwylio, a chydymffurfiaeth â hyfforddiant rheoli risg gorfodol.

Ar draws yr archwiliadau a gynhaliwyd, sy'n cwmpasu Cyfarwyddiaethau ac Uwch Adrannau, mae'r proffil aeddfedrwydd cyffredinol a chyfredol yn dangos sefyllfa gref sy'n gwella. Aseswyd y rhan fwyaf o'r meysydd (27; 68%) fel rhai Sefydledig, gan ddangos arferion rheoli risg cyson ac wedi'u hymgorffori. Cyflawnodd pum maes arall (12%) sgôr Uwch, gan adlewyrchu dulliau rhagweithiol a thystiolaethol. Aseswyd chwe maes (15%) fel rhai Datblygol, a chafodd dau (5%) eu graddio'n Sylfaenol, gan amlygu'r meysydd y bydd angen targedu cymorth i wella.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod pob Cyfarwyddiaeth yn cyflawni lefel Sefydledig o leiaf, o ran aeddfedrwydd rheoli risg . Mae'r Tîm Risg Gorfforaethol yn parhau i flaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer meysydd a aseswyd fel Sylfaenol neu Ddatblygol, gan ddarparu hyfforddiant, canllawiau a chymorth ymarferol i'w helpu i symud ymlaen tuag at lefelau aeddfedrwydd Sefydledig ac Uwch. Mae ymgysylltu parhaus â Chyfarwyddiaethau a Gwasanaethau yn cefnogi gwelliant parhaus, gyda therfynau amser gweithredu wedi'u gosod yn lleol i adlewyrchu blaenoriaethau gweithredol. Mae'r Tîm Risg Gorfforaethol yn goruchwylio'r holl gamau gweithredu agored a hwyr er mwyn sicrhau datrysiad amserol ac effeithiol.

Yn gyffredinol, mae'r cynnydd a gyflawnwyd yn dangos ymdrech sefydliadol barhaus, gallu gwell a chysondeb cynyddol mewn trefniadau rheoli risg ar draws y bwrdd iechyd.

Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR)

Mae'n rhaid i sefydliadau'r GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau ymateb i argyfwng a threfniadau parhad busnes ar waith sy'n ystyried yn llawn eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a Chanllawiau Craidd Cynllunio at Argyfyngau GIG Cymru 2015.

Mae'n ofynnol i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gyflwyno Adroddiad Blynyddol EPRR sy'n nodi'n fras beth yw lefel eu cydymffurfiaeth o ran bodloni gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau uchod.

Mae gweithgareddau EPRR yn ystod y deuddeg mis diwethaf wedi canolbwyntio ar adeiladu swyddogaeth EPRR wrth sefydlu Tîm Cydnerthedd parhaol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys addasu a chynnal cynlluniau a threfniadau presennol i sicrhau y gall y bwrdd iechyd a sefydliadau gofal iechyd cysylltiedig gynllunio ac ymateb i argyfyngau lleol (digwyddiadau mawr) yn briodol. Mae'r gallu hwn wedi'i brofi sawl gwaith dros y cyfnod adrodd (cyfeirir at hynny yn adran digwyddiadau'r adroddiad hwn), gan amddiffyn cleifion yn economi iechyd Gogledd Cymru a sicrhau y gall gwasanaethau hanfodol y bwrdd iechyd barhau â chyn lleied o darfu â phosibl. Mae'n bwysig cydnabod bod gweithgarwch EPRR y bwrdd iechyd yn addasu ac yn gwella'n rheolaidd ar sail dysgu a gweithredu'n ddeinamig. Mae gwaith caled a hyblygrwydd staff y GIG sy'n ymateb i ddigwyddiadau yn cael ei gydnabod yn eang. Mae Adroddiad Blynyddol EPRR y bwrdd iechyd yn manylu ar ffrydiau gwaith a blaenoriaethau'r tîm ar gyfer 2025/26 a 2026/27; ei gydweithio agos â phartneriaid amlasiantaethol; cyfranogiad mewn hyfforddiant ac ymarferion; ac ymateb y bwrdd iechyd i achosion a digwyddiadau 'byw'. Ble nodir bylchau o ran gwydnwch yn yr adroddiad blynyddol hwn, mae'r camau gweithredu a'r cerrig milltir allweddol wedi'u hymgorffori yn y cynllun gwaith blynyddol. Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol i edrych ar drefniadau ar alwad, gan arwain at sgôr sicrwydd cyfyngedig. Mae gwaith pellach yn digwydd ar y polisi ar alwad, rheoli gorffwys gorfodol a hyfforddiant.

Wrth edrych ymlaen at 2026/27, bydd blaenoriaethau'r sefydliad yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau'r gallu parhaus i ymateb i unrhyw ddigwyddiadau a all godi. Mae gweithredoedd maleisus a ffliw pandemig yn parhau i fod yn fygythiadau sylweddol o fewn y dirwedd risg genedlaethol, a rhaid i baratoadau ar gyfer y peryglon hyn barhau i fod yn gryf. Yn ogystal, mae effaith gynyddol newidiadau amgylcheddol yn parhau i gynyddu tebygolrwydd a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol. Mae cyfnodau o wres dwys, oerfel hirfaith, glawiad uchel a gwyntoedd cryfion i gyd yn peri risg o amharu ar wasanaethau iechyd a'r system ehangach. Bydd sicrhau parodrwydd ar gyfer yr heriau hyn yn faes ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn i ddod.

5. FFRAMWAITH RHEOLI

Cod Llywodraethiant Corfforaethol

Y Cod Llywodraethiant Corfforaethol sy'n berthnasol ar hyn o bryd i gyrff y GIG yw 'Llywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog: cod arfer da' (diweddarwyd Ionawr 2024).

Yn debyg i sefydliadau eraill GIG Cymru, nid yw'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gydymffurfio â holl elfennau'r Cod. Fodd bynnag, mae prif egwyddorion y Cod yn berthnasol i bob corff yn y sector cyhoeddus.

Caiff y Cod Llywodraethu Corfforaethol ei adlewyrchu mewn polisïau a gweithdrefnau allweddol. Ar ben hynny, mae amrywiaeth o fecanweithiau ar waith yn ein system rheoli mewnol sydd wedi'u cynllunio i fonitro ein cydymffurfiaeth â'r Cod. Mae'r rhain yn cynnwys hunanasesu, archwilio mewnol ac allanol, ac adolygiadau annibynnol.

Mae'r Bwrdd yn cydymffurfio ag egwyddorion perthnasol y Cod ac yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â gofynion y Cod. Ni fu unrhyw weithredu yn groes i'r Cod fel y mae'n berthnasol i gyrff y GIG yng Nghymru.

Cafodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mai 2025.

Torri Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

Adroddir ar achosion o dorri amodau ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac mae'r mathau o doriadau yr adroddir arnynt yn cynnwys:

- Rheolau ynghylch cyhoeddi papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau
- Rheolau'n ymwneud â chontractau a chaffael

Nododd y Pwyllgor Archwilio fod 9 o achosion o dorri'r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â chyhoeddi papurau'n hwyr. Bu gwaith yn ystod 2024/25 i wella prosesau busnes ac amseroldeb papurau gan gynnwys llunio templed corfforaethol newydd a chyflwyno cynllun hyfforddi ar ysgrifennu adroddiadau. Er bod cynnydd yn y maes hwn, mae ansawdd y papurau, er ei fod yn gwella, wedi arwain at rywfaint o oedi yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn faes gwella parhaus a nodwyd ar gyfer 2026/27.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi nodi bod 20 o achosion o dorri'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi'u hadrodd yn ystod 2025/26, hyd at ddiwedd chwarter 3. Defnyddir nodiadau ffeil i gofnodi torri amodau prosesau ariannol a chaffael yn ffurfiol lle nad yw hepgoriadau ôl-weithredol yn briodol. Mae eu defnydd cynyddol wedi tynnu sylw at yr angen am gydymffurfiaeth well. Maent yn darparu tryloywder, yn cryfhau goruchwyliaeth, ac yn atgyfnerthu atebolrwydd unigol, â disgwyliad clir y caiff gofynion llywodraethu eu hystyried yn llawn cyn ymrwymo i wariant.

O ganlyniad i dorri'r amodau hyn, comisiynwyd archwiliad mewnol a rhoddwyd rheolaethau ychwanegol ar waith fel rhan o'r gwaith i gryfhau trefniadau llywodraethu. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn monitro cynnydd o'i gymharu â'r cynlluniau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

Torri Amodau Caffael

Yn ystod 2025/26, parhaodd y bwrdd iechyd i gryfhau ei drefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI), Rheolau Sefydlog a rheoliadau caffael cysylltiedig. Er gwaethaf hyn, nodwyd nifer o enghreifftiau o dorri amodau yn ymwneud â chaffael yn ystod y flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i oruchwyliaeth rheolwyr, gweithgarwch archwilio mewnol a chraffu gan y Pwyllgor Archwilio.

Nododd adolygiadau archwilio mewnol o weithgarwch caffael, gan gynnwys yr adolygiad o drefniadau caffael a rheoli contractau Cyfarwyddiaethau Corfforaethol, faterion sy'n codi dro ar ôl tro yn ymwneud â diffyg cydymffurfio ag SFI 11: Caffael a Chontractio ar gyfer Nwyddau a Gwasanaethau, yn fwyaf nodedig o ran cymhwyso'r gofyniad "Dim Gorchymyn Prynu, Dim Tâl" a defnyddio archebion prynu ôl-weithredol. Roedd y toriadau hyn yn adlewyrchu gwendidau mewn cynllunio, dealltwriaeth o ofynion caffael a glynu wrth brosesau sefydledig yn hytrach nag osgoi rheolaethau yn fwriadol.

Yn ogystal, amlygodd adroddiadau Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio achosion lle defnyddiwyd fframweithiau galw uniongyrchol heb ymgysylltu digonol yn gynnar â

Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP). Rhoddodd hyn sicrwydd cyfyngedig ynghylch gwerth am arian a chysondeb â threfniadau caffael cenedlaethol. Er bod y defnydd o hepgoriadau caffael ffurfiol yn parhau i fod yn gyfyngedig, roedd nifer y trefniannau fframwaith yn ôl y gofyn a wnaed heb gyfranogiad caffael yn dangos bod angen atgyfnerthu rolau, cyfrifoldebau a llwybrau uwchgyfeirio ar draws y sefydliad.

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio adroddiadau rheolaidd ar dorri Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog drwy gydol y flwyddyn ac roedd yn benodol wrth gydnabod cydymffurfiaeth caffael fel maes risg blaenoriaeth. Mewn ymateb i'r materion a nodwyd, cymerwyd nifer o gamau gweithredu uniongyrchol a chymesur gan y rheolwyr, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr a dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Roedd y rhain yn cynnwys rheolaethau cyn cymeradwyo cryfach ar gyfer dyfarniadau uniongyrchol, craffu gwell ar weithgarwch caffael risg uchel, a chomisiynu adolygiadau archwilio mewnol wedi'u targedu i asesu effeithiolrwydd rheolaethau a chydymffurfiaeth ddiwylliannol.

Darparwyd sicrwydd pellach drwy waith archwilio mewnol dilynol ar weithredu argymhellion yn deillio o'r Adolygiad Annibynnol o Reoli Caffael Contractau. Daeth y gwaith hwn i'r casgliad y gellid rhoi sicrwydd rhesymol yn gyffredinol, wrth nodi hefyd, y meysydd y mae angen sylw pellach gan reolwyr, gan gynnwys amseroldeb cyflawni camau gweithredu, tystiolaeth o gwblhau camau gweithredu a chysondeb o ran adrodd ar gydymffurfiaeth i'r Pwyllgor Archwilio.

Yn bwysig, ar gyfer torri amodau caffael, mae'r bwrdd iechyd wedi mabwysiadu dull a arweinir gan ddysg, gan gydnabod bod gwelliant cynaliadwy yn gofyn am reolaethau cryfach a mwy o allu. Yn ystod 2025/26, aeth gwaith rhagddo i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ofynion caffael ymhlith deiliaid cyllidebau, atgyfnerthu pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar ag arbenigwyr caffael, ac ymgorffori atebolrwydd am gydymffurfiaeth o yn nhrefniadau llywodraethu cyfarwyddiaethau.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio wedi'i gwneud hi'n glir bod cydymffurfio â chaffael yn rhan annatod o gyfrifoldebau stiwardiaeth ariannol, llywodraethu a rheoli risg ehangach y bwrdd iechyd. Bydd cynnydd yn erbyn y camau gwella y cytunwyd arnynt yn parhau i gael ei fonitro trwy ddilyniant archwilio mewnol, adrodd yn rheolaidd ar dorri rheolau ac amodau, a threfniadau sicrwydd gwell yn ystod 2026/27, gyda'r disgwyliad y bydd gwendidau a nodwyd yn cael eu datrys yn llawn a bod ail ddigwyddiadau'n cael eu lleihau i'r lleiafswm.

Llywodraethiant Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestwrydd

Yng Nghymru, mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn rhoi diffiniad cyson o ansawdd sy'n berthnasol i holl Weinidogion Cymru a chyrff GIG Cymru, sef *'diwallu anghenion y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu'n barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy'.*

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn nodi'r ddyletswydd ansawdd. Diben y Ddyletswydd Ansawdd yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru a chyrff y GIG yn sicrhau gwelliannau o ran ansawdd y

gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae'r ddyletswydd yn cynrychioli'r uchelgais o gyflawni safonau uwch o ran gwasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru.

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ofyniad cyfreithiol ar Sefydliadau'r GIG yng Nghymru i fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gofal a thriniaeth. Amlinellir hyn yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol os yw'r gofal a ddarparwn wedi cyfrannu at niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth, yn annisgwyl neu'n anfwriadol.

Wrth ddod yn sefydliad a arweinir gan ansawdd ac sydd wedi ymrwymo i weithredu gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd, mae'r bwrdd iechyd wedi:

- Cyhoeddi ei Adroddiad Ansawdd Blynyddol Adroddiad Ansawdd Blynyddol
- Mynd ati'n weithredol i geisio a derbyn cymorth gan Weithrediaeth y GIG (Gwelliant Cymru) a Chronfa Risg Cymru
- Wedi gweithredu Polisi Pryderon Integredig, storfa ddysgu, Fforwm Dysgu Sefydliadol sy'n cwmpasu adolygiad thematig a Dangosfwrdd Ansawdd a Cherdyn Sgorio Ansawdd

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ddangos y cynnydd a wnaed yn o ran cydymffurfio â gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o sut mae'r Pwyllgorau a'r Bwrdd yn ystyried y Ddyletswydd Ansawdd i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argymhellion cenedlaethol y dylai pob sefydliad yng Nghymru fabwysiadu dull System Rheoli Ansawdd (QMS), ac ym mis Ionawr 2025, ymrwymodd y bwrdd iechyd i ddatblygu fframwaith cynhwysfawr sy'n ymgorffori diwylliant o ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn.

Wrth wneud hynny, mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddyletswydd Ansawdd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ddangos gwelliannau parhaus, dibynadwy a chynaliadwy yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar draws y sefydliad.

Mae cynnydd ar y gweill o ran gweithredu System Rheoli Ansawdd (QMS) effeithiol, gan fanteisio ar gymorth ac arweiniad Perfformiad a Gwella'r GIG. Mae angen cynnydd pellach ac mae wedi'i gynnwys yng nghynllun y sefydliad Cynllun Tair Blynedd 2026-2929.

Yn ystod 2025/26, mae'r bwrdd iechyd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau a sicrhau bod dysgu'n cael ei drosi'n welliant cynaliadwy. Mae'r Polisi Pryderon Integredig (yn fyw o 1 Medi 2024) wedi'i ymgorffori trwy Hwb Pryderon Integredig amlddisgyblaethol dyddiol a threfniadau goruchwylio gweithredol, gan gefnogi'r egwyddor o "ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda" trwy gysylltu digwyddiadau, cwynion ac adolygiadau marwolaethau yn Datix, comisiynu

adolygiadau/ymchwiliadau dysgu cymesur, ac olrhain cyflawniad camau dysgu a gwella.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi cryfhau ei ddull o ddysgu a lledaenu gwybodaeth sefydliadol, gan gynnwys cyflwyno cronfa ddysgu strwythuredig a dulliau thematig i nodi materion sy'n codi dro ar ôl tro a chomisiynu adolygiadau dyfnach lle bo angen, ochr yn ochr â ffocws mwy ar weithgarwch ataliol fel dysgu Atal Marwolaethau yn y Dyfodol a dilyniant ar ôl cwest. Ochr yn ochr â hyn, mae Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau (LFERs) sy'n ofynnol gan Gronfa Risg Cymru ar gyfer hawliadau ac iawndal wedi bod yn destun llywodraethu cryfach, gan gynnwys atebolrwydd cliriach ar lefel cyfarwyddwyr, goruchwyliaeth wythnosol a disgwyliadau o ran cyflwyno'n fewnol yn gynharach; mae hyn wedi sicrhau gostyngiad cynaliadwy mewn LFERs hwyr o 60 (Ebrill 2025) i 11 (ar 31 Mawrth 2026), gyda'r rhai hwyr sy'n weddill bellach yn adlewyrchu'r gofynion tystiolaethu ac ansawdd sy'n gysylltiedig â gohiriadau Cronfa Risg Cymru yn hytrach na methu â chyflwyno.

Canfu Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2025 fod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol gyda thrafodaeth a her agored, gan nodi bod perfformiad cyffredinol yn parhau i fod dan bwysau, gyda rhai gwelliannau nodedig gan gynnwys ymateb yn well i gwynion. O ran llywodraethu ansawdd, cadarnhaodd Archwilio Cymru ei fod yn cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y bwrdd iechyd, gan gynnwys dilyn camau gweithredu o'i Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd yn 2022 ac ystyried gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, gyda chynlluniau ar gyfer adrodd yn gynnar yn 2026. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod y bwrdd iechyd yn hyderus bod y System Rheoli Ansawdd (QMS) newydd yn cryfhau gallu'r sefydliad i fonitro ac ymateb i gwynion, gan gefnogi goruchwyliaeth a sicrwydd gwell.

Mae Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol gyda thrafodaeth a her agored, wedi'u cefnogi gan welliannau llywodraethiant penodol megis cyflwyno adroddiadau uchafbwyntiau "Rhybuddio, Sicrhau, Cynghori" (a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2024) i grynhoi penderfyniadau pwyllgor a phwyntiau sicrwydd ar gyfer y Bwrdd, a datblygu protocol ffurfiol (Tachwedd 2025) i gryfhau ymweliadau aelodau'r Bwrdd ac adborth gan wasanaethau.

Mae Archwilio Cymru hefyd yn cofnodi bod y bwrdd iechyd yn hyderus bod ei System Rheoli Ansawdd (QMS) yn cefnogi monitro ac ymateb cryfach i gwynion, a bydd yr adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y bwrdd iechyd (gan gynnwys dilyniant i adolygiad 2022 ac ystyriaeth o Ddyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Gonestrwydd), gyda chynllun adrodd ar ddechrau 2026, yn cael ei adrodd yn 2026.

Ffynonellau allanol sy'n cynnig mewnwelediadau ar gyfer gwella ansawdd gwasanaethau

Yn ystod 2025/26, bu nifer o ffynonellau allanol o fewnwelediad i gefnogi'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws y bwrdd iechyd, gan gynnwys adolygiad Archwilio Cymru o Ofal Brys ac Achosion Brys: Trefniadau ar gyfer Rheoli'r Galw, a Mynd i'r Afael â Heriau Gofal wedi'i Gynllunio.

Mae'r adroddiadau hyn yn cefnogi'r cynnydd y mae'r bwrdd iechyd wedi'i wneud o ran gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, er bod cynnydd amlwg mewn nifer o feysydd gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio, nid yw'r cynnydd wedi bod ar y cyflymder sydd ei angen a bydd y sefydliad yn canolbwyntio'n llwyr ar hyn wrth symud ymlaen.

Yn ystod 2026, bydd y bwrdd iechyd yn gweithio i wella'r gwaith o oruchwylio ei bwyllgorau i fonitro cynnydd a wneir yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan gyrff nad ydynt yn gyrff archwilio. Mae Archwilio Cymru wedi argymell y dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno goruchwyliaeth effeithiol gan Bwyllgorau i fonitro cynnydd a wneir yn erbyn argymhellion rheoleiddwyr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Crwner, Comisiynydd y Gymraeg, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu

Sefydlwyd Fforwm Dysgu Sefydliadol oruchwylio dull y bwrdd iechyd o ymgorffori diwylliant o ddysgu parhaus yn strategol. Caiff ei ategu gan storfa ddysgu ganolog, sy'n galluogi dysgu o ddigwyddiadau a meysydd arfer da i gael ei gasglu, ei rannu a'i gymhwyso'n systematig ar draws y sefydliad. Mae'r trefniadau hyn yn hyrwyddo lledaenu dysgu'n rheolaidd ac yn atgyfnerthu'r gwerth a roddir ar gyfleoedd a chyflawniadau gwella.

Mae'r dull hwn wedi cryfhau trawsnewidiad y sefydliad o wasanaethau gwybodaeth gorfforaethol draddodiadol i fodel sy'n canolbwyntio ar ddeallusrwydd a mewnwelediad, gan sicrhau bod dysgu sefydliadol yn cael ei yrru gan ddata ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r dull yn cael ei alinio â datblygiad System Rheoli Ansawdd (QMS) y sefydliad, gan ddarparu fframwaith cryfach ar gyfer ymgorffori dysgu i arfer arferol. Er bod hyn yn sefydlu sylfaen gadarn, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod dysgu wedi'i ymgorffori'n gyson ac yn sbarduno gwelliannau cynaliadwy amlwg ar draws yr holl wasanaethau yn unol â'r Fframwaith Rheoli Ansawdd diwygiedig.

Mae blaenoriaethau allweddol yn cynnwys cryfhau dysgu o ddigwyddiadau a gwella ansawdd gofal. Mae adolygiadau dysgu atal heintiau arferol ac adolygiadau ôl-haint ar gyfer pob Haint sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAIs) yn sicrhau dull cyson a systematig, gyda chynlluniau gwella yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r themâu a nodwyd.

Mae dysgu o'r adolygiadau hyn wedi llywio mentrau wedi'u targedu, gan gynnwys yr ymgyrch HABITs (Hylendid Dwylo, Techneg Aseptig Heb Gyffwrdd, Noeth Islaw'r Penelinoedd, Ynysu, Triniaeth a Rhagofalon Safonol). Mae hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach i gynnwys cleifion a'r cyhoedd yn weithredol, gan atgyfnerthu perchnogaeth a rennir dros ddysgu a helpu i ymgorffori arferion diogel ar y pwynt gofal.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn gofynion statudol, safonau cenedlaethol, polisïau a chanllawiau. Mae AGIC hefyd yn monitro'r defnydd o'r Ddeddf

Iechyd Meddwl ac yn adolygu gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau bod pobl agored i niwed yn derbyn gofal diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel.

Yn ystod y cyfnod adrodd, parhaodd y Bwrdd Iechyd i gydweithio ag AGIC, Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth GIG Cymru a phartneriaid ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y Rhaglen Chwe Nod Genedlaethol, i wella diogelwch, ansawdd a phrofiad gofal. Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae perfformiad o fewn meysydd gofal brys ac argyfwng yn parhau i fod yn her weithredol sylweddol ac yn parhau i fod yn faes ffocws rheoleiddiol.

Mae systemau a phrosesau cadarn ar waith i sicrhau bod pob arolygiad AGIC, adolygiad a chais am sicrwydd yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddefnyddio'r system Archwilio, Rheoli ac Olrhain (AMaT) i gofnodi, monitro a rhoi sicrwydd yn erbyn pob cam gwella AGIC. Mae'r dull hwn wedi cryfhau goruchwyliaeth sefydliadol ac wedi gwella ansawdd a chysondeb y dystiolaeth a ddarperir i'r rheoleiddiwr.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno diweddariadau ffurfiol chwarterol rheolaidd i AGIC, a gynhyrchir yn uniongyrchol o system AMaT. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi sicrwydd tryloyw ar gynnydd yn erbyn cynlluniau gwella y cytunwyd arnynt a'r dystiolaeth ategol eu bod wedi'u cwblhau.

Adroddir ar holl weithgarwch AGIC drwy strwythurau llywodraethu sefydledig, gan gynnwys y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a'r Grŵp Sicrwydd Rheoleiddio. Mae'r grwpiau hyn yn cynnig goruchwyliaeth o gydymffurfiaeth reoleiddiol gan uwch reolwyr, yn sicrhau bod risgiau'n cael eu huwchgyfeirio'n briodol, ac yn hyrwyddo dysgu sefydliadol sy'n deillio o ganfyddiadau arolygiadau.

Mae perthynas adeiladol a chydweithredol ag AGIC wedi'i chynnal drwy gydol y flwyddyn, gyda chefnogaeth arweinydd perthynas dynodedig sy'n hyrwyddo cyfathrebu effeithiol a gweithio ar y cyd.

Mae proses Adolygu Ansawdd gan Gymheiriaid y Bwrdd Iechyd yn cryfhau trefniadau sicrwydd mewnol ymhellach drwy efelychu methodoleg arolygu AGIC. Mae'r dull hwn sy'n cael ei arwain gan wybodaeth yn tynnu ar ddata ansoddol a meintiol, gan gynnwys gwybodaeth o'r Dangosfwrdd Ansawdd a Sicrwydd, er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni gwelliannau parhaus a pharodrwydd ar gyfer arolygiadau rheoleiddiol.

Crynodeb o Arolygiadau AGIC 2025–2026

Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026, cynhaliodd AGIC saith arolygiad ar wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Arweiniodd yr arolygiadau hyn at gyfanswm o 146 o argymhellion a 264 o gamau gwella cysylltiedig, gan adlewyrchu cwmpas y craffu rheoleiddiol a graddfa'r gweithgareddau gwella sy'n cael eu rheoli.

Cynhaliwyd arolygiadau ar draws gwasanaethau acíwt, cymunedol, iechyd meddwl ac arbenigol, gan gynnwys gofal brys ac argyfwng, wardiau cleifion mewnol, gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol. Cododd y nifer mwyaf arwyddocaol o gamau gweithredu o arolygiadau o wasanaethau acíwt a chleifion mewnol, yn enwedig ym

meysydd gofal brys ac argyfwng, gan adlewyrchu'r pwysau a'r cymhlethdodau parhaus ar y system.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd un adroddiad arolygu (Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Conwy) yn aros i gael ei gyhoeddi, ac roedd un arolygiad (Gwasanaethau Niwclear, Ysbyty Gwynedd) wedi'i gwblhau ond heb ei adrodd eto.

Sicrwydd a Gwelliannau Parhaus

Mae cynnydd yn erbyn pob un o gamau gweithredu AGIC yn cael ei fonitro'n agos, gyda risgiau'n cael eu huwchgyfeirio trwy lwybrau llywodraethu priodol lle bo angen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyflawni gwelliannau amserol a chynaliadwy, gyda phwyslais penodol ar y meysydd risg a nodwyd.

Caiff dysgu o arolygiadau AGIC ei rannu'n weithredol ar draws y sefydliad i gynorthwyo gwelliannau ar draws y system, cryfhau cydymffurfiaeth a gwella ansawdd a diogelwch gofal i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Lleoliad	Dyddiad yr Arolygiad	Argymhellion	Camau gweithredu cysylltiedig	Adroddiad yn llawn
Adran Achosion Brys, Ysbyty Gwynedd	14 - 15 Ebrill 2025	**28**	**66**	ED Ysbyty Gwynedd - Adroddiad.pdf
Canolfan Iechyd Criccieth	15 Gorffennaf 2025	**18**	**18**	Canolfan Iechyd Criccieth
Ward Cemlyn, Ysbyty Cefni	28-30 Gorffennaf 2025	**19**	**40**	Ward Cemlyn, Ysbyty Cefni
Ward Hergest, Ysbyty Gwynedd	8-10 Medi 2025	**25**	**47**	Ward Hergest
Ward Pantomime, Ysbyty Maelor	14-15 Hydref 2025	**18**	**42**	Ward Pantomime
Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Conwy	10-11 Chwefror 2026	**18**	**51**	Dyddiad cyhoeddi ym mis Mai 2026

Lleoliad	Dyddiad yr Arolygiad	Argymhellion	Camau gweithredu cysylltiedig	Adroddiad yn llawn
Arolygiad Niwclear, Ysbyty Gwynedd	26-27 Mawrth	Dim dyddiad hyd yma		Cynhaliwyd arolygiad yn ddiweddar. Nid oes adroddiad hyd yma

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Erlyniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Codymau Cleifion

Yn dilyn ymchwiliad manwl, cyhoeddodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) Hysbysiad Tramgwydd a Hysbysiad Gwella i'r Bwrdd Iechyd, gan nodi methiannau yn y ffordd y rheolir risg codymau cleifion mewnol yn ei ysbytai acíwt rhwng Ionawr 2022 ac Ionawr 2023. Daeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'r casgliad nad oedd y Bwrdd Iechyd, cyn belled ag yr oedd yn rhesymol ymarferol, wedi sicrhau bod systemau digonol ar waith i asesu, rheoli ac adolygu'r risg o godymau cleifion, yn enwedig ar gyfer cleifion agored i niwed yr oedd eu cyflyrau clinigol wedi gwaethygu. Tynnodd yr Hysbysiadau sylw at ddiffygion defnydd cyson o asesiadau risg codymau, eglurder a gweithrediad mesurau rheoli risg, ac effeithiolrwydd trefniadau sicrwydd i sicrhau bod gofynion polisi wedi'u hymgorffori yn yr ymarfer o ddydd i ddydd.

Mewn ymateb, cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau dysgu a gwella sefydliadol helaeth, yn ystod yr ymchwiliad, ac yn dilyn yr Hysbysiadau. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau'r Polisi Atal Codymau, adolygu a safoni prosesau asesu risg codymau, gwella mecanweithiau uwchgyfeirio ac adolygu pan gynyddodd risg cleifion, ac atgyfnerthu gofynion hyfforddi ar gyfer staff parhaol, dros dro ac asiantaeth. Gwellwyd trefniadau llywodraethu a sicrwydd i ddarparu goruchwyliaeth weithredol gliriach, monitro cydymffurfiaeth yn gryfach, ac adrodd gwell i sicrhau bod dysgu'n cael ei drosi'n welliannau cynaliadwy a system-gyfan o ran diogelwch cleifion.

Ym mis Ebrill 2025, cafodd y Bwrdd Iechyd ei erlyn yn ffurfiol gan yr HSE am dorri adran 3(1) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974. Plediodd y Bwrdd Iechyd yn euog cyn gynted â phosibl, gan adlewyrchu ei fod yn derbyn y methiannau'n agored ac yn onest, a chafodd ddirwy o £250,000, ynghyd â chostau ychwanegol o £11,766. Cydnabu'r llys gydweithrediad y Bwrdd Iechyd â'r HSE, ei statws a'i bwysau ariannol fel corff cyhoeddus, a'r dystiolaeth sylweddol o ddysgu a gwella a weithredwyd ers y digwyddiadau. Serch hynny, roedd yr erlyniad yn pwysleisio pwysigrwydd systemau diogelwch cadarn a sicrwydd parhaus i atal yr un peth rhag digwydd eto - mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella ei arferion yn barhaus ac i ddysgu o ddigwyddiadau codymau cleifion mewnol.

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Hysbysiad Tramgwydd a Hysbysiad Gwella, Risg Hunan-niweidio

Yn dilyn marwolaeth claf mewnol yn Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd, ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) Hysbysiadau

Tramgwydd a Hysbysiadau Gwella o dan adran 3(1) o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999. Daeth yr HSE i'r casgliad nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag atal cleifion mewnol rhag hunan-niweidio yn effeithiol. Yn benodol nodwyd diffygion yn y modd y nodir, asesir a rheolir risgiau clymu o fewn yr amgylchedd clinigol. Yn benodol, cododd yr HSE bryderon ynghylch presenoldeb pwyntiau angori clymu ar Ward Tegid yn Uned Ablett, a digonolrwydd y systemau sydd ar waith i sicrhau bod risgiau amgylcheddol yn cael eu nodi a'u lliniaru mewn ffordd amserol a systematig. Roedd y gofynion gwella ar unwaith yn cynnwys gwaith addasu a defnydd gwell o offer gwrthglymu, ochr yn ochr â chamau gweithredu ehangach i gryfhau trefniadau rheoli risg o glymu.

Mewn ymateb, gweithredodd y Bwrdd Iechyd y camau gweithredu amgylcheddol gofynnol i liniaru'n brydlon ac ymgymerodd â dysgu sefydliadol pellach a oedd yn canolbwyntio ar gryfhau prosesau lleihau risg clymu ar draws lleoliadau cleifion mewnol iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys atgyfnerthu goruchwylio'r llywodraethiant o risg clymu, gwella trefniadau arolygu a sicrwydd, a sefydlu atebolrwydd cliriach ar gyfer nodi a mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol. Cryfhawyd gwaith rhaglen lleihau risg clymu'r Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i sicrhau bod dysgu o'r digwyddiad yn cael ei drosi'n waith i leihau risg yn barhaus a gwella gwasanaethau, gyda'r HSE yn ymgysylltu ac yn monitro'n barhaus fel rhan o'r broses hysbysiad gwella.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am benderfyniad gan yr HSE ar unrhyw gamau gorfodi pellach yn dilyn cwblhau ei ymchwiliad.

Trefniadau Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y GIG o ran Safon Weithredol 013 Gwrth-dwyll y Llywodraeth. Bydd y Ffurflen Safonol Swyddogaethol yn cael ei chyflwyno ym mis Mehefin 2026 ac mae'n debygol o ddangos gwelliant o'i gymharu â ffurflen 2025-26.

Mae'r Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yn ymchwilio i unrhyw honiadau o dwyll yn y Bwrdd Iechyd.

Er mwyn sicrhau eu bod yn ddiduedd ac yn dryloyw, nid yw'r tîm Gwasanaethau Atal Twyll Lleol yn ymchwilio i honiadau o lwgrwobrwyo a llygredd neu honiadau o dwyll sy'n ymwneud ag uwch reolwyr y sefydliad. Anfonir yr honiadau hyn at y Gwasanaeth Atal Twyll yng Nghymru i'w hymchwilio.

Ar lefel weithredol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sydd â'r cyfrifoldeb dirprwyedig am reolaeth weithredol y Gwasanaethau Atal Twyll Lleol. Pennaeth y Gwasanaethau Atal Twyll Lleol sy'n rheoli'r Gwasanaeth Atal Twyll o ddydd i ddydd. Mae gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol rôl fel Hyrwyddwr Atal Twyll.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi monitro cynnydd Cynllun Gwaith Atal Twyll Blynyddol 2025/26 drwy adroddiadau cynnydd gan y Pennaeth Atal Twyll. Mae cynllun gwaith wedi'i gyflawni. Bydd y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno ar Gynllun Gwaith Atal Twyll Blynyddol 2026/27 yn gynnar yn y flwyddyn ariannol.

Rhoddir diweddariadau i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, drwy'r Pennaeth Atal Twyll yn rheoliad er mwyn monitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun a thrafod ymchwiliadau sydd ar y gweill neu wedi'u cau, pan fo hynny'n ofynnol.

Cynhelir asesiadau risg twyll drwy gydol y flwyddyn i asesu a nodi amlygiad y Bwrdd Iechyd i risgiau twyll, ac mae Asesiad Risg Gwrth-dwyll sefydliadol ar y gweill i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r risg o fygythiad a'r darlun o risg.

Defnyddir canlyniadau'r asesiadau i'w cymharu â'r polisi risg corfforaethol i gynnal cofrestr risg twyll. Mae hyn yn cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i werthuso, lliniaru a monitro risgiau sy'n deillio o dwyll, ac mae trefniadau ar gael i uwchgyfeirio'n briodol.

Mae'r trefniadau dilynol ar waith:

- Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn cymryd camau rhagweithiol ac adweithiol i atal a nodi twyll, yn ogystal ag annog staff i roi gwybod am dwyll; caiff unrhyw enghreifftiau o wrthdaro buddiannau eu datgan ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau.
- Mae Rhaglen hyfforddi e-ddysgu gorfodol ar Ymwybyddiaeth o Dwyll ac mae nifer wedi tanysgrifio iddi.
- Mae prosesau'r Bwrdd Iechyd wedi'u halinio i barhau i gydymffurfio â'r canllawiau polisi presennol ar wrthdaro buddiannau; mae system newydd wedi'i sefydlu gan y Bwrdd Iechyd i gryfhau'r oruchwyliaeth.
- Mae trefniadau gweithredol ar waith i alluogi hysbysu'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol neu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid drwy law'r Cyfarwyddwr Cyllid: Cyllid Gweithredol, yn brydlon am bryderon sy'n ymwneud â thwyll.. Mae pryderon o'r fath hefyd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio ar ddibenion goruchwyliaeth a sicrwydd.
- Mae Archwilio Mewnol a'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol wedi ymgysylltu er mwyn trafod meysydd risg uchel, yn ôl yr angen. Os bydd rheolwyr yn nodi risgiau sy'n ymwneud â thwyll, caiff y rhain eu hychwanegu at y gofrestr risg, ynghyd â mesurau lliniaru cysylltiedig.
- Bydd Pennaeth Atal Twyll yn cyfarfod yn breifat gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio pan fo angen, i ganiatáu i unrhyw faterion perthnasol gael eu trafod yn gyfrinachol.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau cynnydd chwarterol ac adroddiad blynyddol ar gyflawni cynllun gwaith yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a chanlyniadau adroddiadau ymchwiliol, os bydd hynny'n briodol. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu polisïau a gweithdrefnau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd y Bwrdd Iechyd ac mae cynrychiolydd o'r Tîm Atal Twyll yn aelod o'r Grŵp Goruchwylio Polisi Gweithredol.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn cwblhau hunanasesiad blynyddol ynghylch ei drefniadau atal twyll, yn unol â Datganiad Safonol Gweithredol Atal Twyll Swyddfa Cabinet y DU (CFFSR), ynghylch nifer o Ofynion y GIG yn Safon Swyddogaethol y Llywodraeth GovS013: Atal Twyll, ac anfonir yr hunanasesiadau hynny at y corff rheoleiddio atal twyll, sef Awdurdod Atal Twyll y GIG.

Trefniadau Cynllunio

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd ddatblygu cynllun tair blynedd mantoledig, a elwir yn Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), yn unol â gofynion Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cymeradwyo'r IMPT, rhaid nodi yn y cynllun sut bydd:

- Yn gwella iechyd y boblogaeth
- Yn gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd; ac
- Amlygu sefyllfa ariannol fantoledig dros gyfnod tair blynedd y cynllun.

Mae datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd yn elfen allweddol o fframwaith uwchgyfeirio'r Mesurau Arbennig. Os na all un o sefydliadau'r GIG gyflawni cynllun sy'n bodloni'r gofynion i gymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig, rhaid iddo ddatblygu Cynllun Blynyddol a chytuno arno, i sicrhau y ceir set eglur o amcanion cyflawni a ategir gan gynlluniau cyllid, gweithlu a gweithredol ar gyfer y sefydliad.

Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd a chyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Tymor Canolig Integredig cyntaf mantoledig cyntaf ar gyfer 2025/2028. Er gwaethaf adeiladu ar gynnydd i ddatblygu ei alluoedd cynllunio a chryfhau ei aeddfedrwydd cynllunio, ni chafodd IMTP y Bwrdd Iechyd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Serch hynny, gweithredodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun, a thrwy ddatblygu ei Gynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2025/2026, mae wedi monitro ei gynnydd tuag at gyflawni'r cynllun, gan ddarparu adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru.

Adeiladu ar sylfeini gwersi a ddysgwyd, adborth a thyfu aeddfedrwydd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau sylweddol ymlaen o ran cryfhau ei aeddfedrwydd cynllunio a mabwysiadu dull mwy cydlynol, disgybledig a seiliedig ar dystiolaeth.
Ym mis Hydref 2025, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd hunanasesiad gan ddefnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd Cynllunio (PMM) a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae adborth Llywodraeth Cymru a'r PMM yn parhau i lywio datblygiad disgyblaeth gynllunio'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r sefydliad bellach yn gweithredu'n gyson ar Lefelau aeddfedrwydd 2-3 ac yn bwrw ymlaen â chynllun gweithredu cytunedig i sicrhau rhagor o welliannau parhaus.

Roedd datblygu **Fframwaith Cynllunio Integredig (IPF)** Fframwaith Cynllunio Integredig a'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn Nhachwedd 2025 yn garreg filltir sylweddol yn y daith tuag at gyflawni aeddfedrwydd cynllunio. Caiff yr IPF ei lywio gan y PMM a chanllawiau cenedlaethol, ac mae'n cyfleu:

- Egwyddorion cynllunio'r sefydliad.
- Disgwyliadau eglur ynghylch cynlluniau ar lefelau arbenigeddau a gwasanaethau ac ar y lefelau gweithredol a chorfforaethol.
- Safoni prosesau a thempledi cynllunio.
- Dull unedig i fodelu galw, gweithgarwch, gweithlu, cyllid a pherfformiad.
- Integreiddio â System Rheoli Ansawdd (QMS), Prosesau Rheoli Risgiau, a Fframweithiau Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Ategir yr IPF gan Ganllawiau Cynllunio ymarferol, pecynnau cymorth a gofynion o ran gwybodaeth sy'n galluogi cyflawni, gan sicrhau dull cynllunio cyson ar draws y Bwrdd

Iechyd. Mae'r fframwaith yn ymgorffori dyletswyddau statudol yn benodol, gan gynnwys y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, ac yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod pob cynllun yn gyson â blaenoriaethau cenedlaethol, safonau ansawdd a Fframweithiau Cynllunio a Pherfformiad GIG Cymru.

Bu ymgysylltu cynharach a mwy dwys o fewn a thu allan i'r sefydliad yn welliant allweddol eleni. Fe wnaeth sgyrsiau pennu blaenoriaethau rhwng y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol, gan adeiladu ar Sesiynau Pwyllgorau'r Bwrdd a Sesiynau Datblygu, sefydlu naratif a rennir a set bendant o ddisgwyliadau ar gyfer y cylch cynllunio.

Pwysleisiodd y sesiynau hyn yr angen i:

- Nodi blaenoriaethau yn gynharach ac yn fwy cyson
- Cyfyngu ar nifer y blaenoriaethau a chanolbwyntio arnynt, a
- Dyfnhau cyfranogiad clinigol a gweithredol.
- Gwella'r gyfatebiaeth rhwng bwriadau strategol, y Strategaeth 10 Mlynedd sy'n cael ei datblygu, a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol
- Sicrhau bod data, modelu a disgwyliadau realistig o ran cyflawni yn sail i gynllunio

Fe wnaeth y pontio o'r Mesurau Arbennig gyflymu datblygiad system gynllunio fwy cadarn, integredig a thryloyw ymhellach.

Ar 13 Chwefror 2026, fe wnaeth Prif Weithredwr, ar ran y Bwrdd Iechyd, gyflwyno llythyr Swyddog Atebol i Lywodraeth Cymru yn nodi, ar y cam hwnnw o'r gwaith, na fyddai'r Bwrdd yn barod i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) mantoledig oherwydd y dirwedd ariannol hynod heriol a'r bwlch sylweddol rhwng y cyllid a oedd ar gael a'r angen i gynnal gwasanaethau diogel a chynaliadwy.

Felly, y Cynllun Blynyddol yw'r cynllun ar gyfer 2026/29 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2026, Cynllun y Bwrdd Iechyd 2026-2029 wedi'i osod mewn cyd-destun tair blynedd sy'n cyd-fynd â'r pedwar Datganiad o Fwriad Strategol newydd, a fydd wrth wraidd y Strategaeth 10 Mlynedd a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol newydd sy'n cael eu datblygu.

Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r dull aeddfedol o wreiddio cynllunio parhaus, gan gefnu ar gynllunio ar adeg benodol bob blwyddyn a sefydlu cylch cynllunio sy'n digwydd trwy gydol y flwyddyn ac yn rhoi pwyslais ar ragweld, ymgysylltu, cyflawni ac adolygu.

Mae cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2026/29 yn un sy'n anfantoledig ond yn hygred, gan amlygu trywyddau eglur o ran arbedion, rhagdybiaethau cyflawni realistig, a thryloywder llawn ynghylch risgiau ariannol a dulliau lliniaru.

Parhau â'r Daith Cynllunio

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i sicrhau rhagor o welliannau yn ei aeddfedrwydd cynllunio, a bydd y gwaith yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

Cryfhau Galluoedd a Diwylliant Cynllunio	Cynllun Mwy Integredig, Strategol a Chyraeddadwy	Parhau â'r Daith

Mae cryfhau galluoedd y sefydliad wedi cael sylw bwriadol trwy gydol y flwyddyn. Mae'r camau wedi cynnwys: ▪ Datblygu hyfforddiant ynghylch cynllunio ar sawl haen (Cyrsiau Cnoi Cil, Hanfodion Cynllunio, ar lefel Diplomâu). ▪ Egluro rolau a chyfrifoldebau yn y system gynllunio. ▪ Sicrhau ymgysylltu ehangach ag amrywiaeth o broffesiynau ▪ Gwreiddio cynllunio yn y cylch perfformiad blynyddol a'r prosesau atebolrwydd. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynorthwyo i gyflawni'r uchelgais tymor hwy i sefydlu cynllunio fel disgyblaeth graidd ar lefel y sefydliad.	Mae Cynllun eleni yn mabwysiadu dull mwy strategol a chydlynol, sy'n cyd-fynd â'r **pedwar Datganiad o Fwriad Strategol newydd a fydd wrth wraidd** y Strategaeth 10 Mlynedd a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol newydd wrth iddynt ddatblygu yn 2026/27. Mae cynlluniau ar lefelau arbenigeddau a gwasanaethau wedi'u cryfhau trwy gyfrwng gofynion eglurach ynghylch: ▪ Deilliannau i'w cyflawni yn unol ag amserlen benodol. ▪ Effeithiau a fesurir a thrywyddau perfformiad. ▪ Integreiddio ansawdd, y gweithlu, cyllid a risgiau. ▪ Cyfatebiaeth â swyddogaethau i alluogi cyflawni, yn cynnwys digidol, ystadau, comisiynu a rheoli newid. ▪ Gweithredu egwyddorion cynllunio sefydliadol a gofynion QMS	Er bod y Cynllun hwn yn ddatblygiad sylweddol o ran ein dull, rydym yn cydnabod fod yn rhaid gwneud rhagor. Bydd y sefydliad yn parhau i gryfhau ei aeddfedrwydd cynllunio, gwreiddio modelu unedig, a sicrhau y daw cynllunio yn broses integredig a di-baid sy'n cynorthwyo i gyflawni gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n cael eu hysgogi gan yr angen i sicrhau gwerth. Felly, dylid ystyried bod y cynllun hwn yn gam ystyrlon ymlaen ac yn fan cychwyn rhagor o fireinio a chydgrynhoi dros y blynyddoedd nesaf.

Lefel 5 y Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd (Mesurau Arbennig)

Cafodd y Bwrdd Iechyd ei uwchgyfeirio ar Lefel 5 ar draws pob un o chwe maes y fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd (a oedd yn ei le bryd hynny), a chafodd fframwaith Mesurau Arbennig Llywodraeth Cymru ei adnewyddu wedi hynny yn 2025 i bennu disgwyliadau a meini prawf dad-ddwysáu eglurach ar draws meysydd: Cyllid, Strategaeth a Chynllunio; Perfformiad a Deilliannau; Gwasanaethau Clinigol; Llywodraethu ac Arweinyddiaeth (gan gynnwys arweinyddiaeth, gallu a diwylliant); Ansawdd Gofal; ac Iechyd y Boblogaeth ac Atal.

Adnewyddwyd y meysydd ym mis Gorffennaf 2025 fel a ganlyn:

Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu cynnydd ym mhob maes yn rheolaidd, gan nodi'r cyflawniadau a fydd wedi digwydd a'r meysydd y bydd angen rhagor o sylw iddynt. Mae llywodraethu a goruchwyliaeth gan y Bwrdd wedi'u cryfhau, gan gynnwys mwy o ddiffuantrwydd ac eglurder a dull mwy strwythuredig o gynnig sicrwydd drwy drefniadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Mae'r gallu i reoli risgiau hefyd wedi'i gryfhau'n sylweddol, gan gynnwys datblygu dull mwy aeddfed o reoli risgiau busnes (ERM) sydd wedi cael cydnabyddiaeth allanol drwy wobr y Bwrdd Iechyd yng Ngwobrau Rheoli *Continuity, Insurance & Risk* (CIR) 2025 (Tîm Rheoli Risgiau Gorau'r Flwyddyn).

Mae ffocws cryf ar allu a diwylliant ym maes arweinyddiaeth wedi'i ategu trwy weithredu Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig, gan gynnig llwybrau arweinyddiaeth blaengar o ddarpar oruchwylwyr a goruchwylwyr newydd hyd at uwch arweinwyr clinigol a gweithredwyr, ac mae canlyniadau cadarnhaol wedi'u hadrodd mewn gwerthusiadau. Mae aeddfedrwydd cynllunio wedi parhau i ddatblygu, gan gynnwys gwaith i gryfhau cynllunio integredig ac i sefydlu cyfeiriad strategol eglurach, ac fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo pedwar datganiad o fwriad strategol ym mis Ionawr 2026, i baratoi at ddatblygu strategaeth tymor hwy a Chynllun Gwasanaethau Clinigol.

Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod heriau sylweddol yn parhau o ran cynnig gofal prydlon ac effeithiol ar raddfa eang, yn enwedig ym meysydd Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng, Gofal Wedi'i Gynllunio a Gwasanaethau Canser, ac mae pwysau yn ymwneud â diagnosio yn cyfrannu at berfformiad a llif llwybrau gofal. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwella'r GIG wedi cefnogi model Tîm Ymyriadau integredig, am gyfnod, i gyflymu gwelliannau cynaliadwy ar draws maes Gofal Brys ac Mewn Argyfwng, Gofal Wedi'i Gynllunio a Gwasanaethau Canser. Bwriedir i'r model weithredu o fewn (nid dyblygu) trefniadau llywodraethu a sicrwydd statudol y Bwrdd

Iechyd, a cheir trefniadau adrodd a goruchwylio eglur drwy ddulliau presennol y Bwrdd a'r Pwyllgor. Ochr yn ochr â hyn, mae Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru yn cydnabod, er bod trefniadau sicrwydd a rheoli risgiau wedi aeddfedu, bod angen rhagor o waith i sicrhau bod mesurau lliniaru yn troi'n effaith ddangosadwy, gan gynnwys symudiad mewn sgorau risgiau a gwelliannau cynaliadwy o ran canlyniadau perfformiad, ac i gryfhau sut yr amlygir cyflawniadau ac effaith trwy ddulliau adrodd a sicrwydd yr IMTP.

Ar y cyfan, er bod gwelliannau wedi'u nodi ac er bod sylfeini'r sefydliad yn gryfach, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod heriau sylweddol yn parhau o ran gallu cynnig gofal prydlon ac effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â gofal brys ac mewn argyfwng, gwasanaethau canser, a gofal wedi'i gynllunio. Yr her yn ystod y flwyddyn nesaf fydd sicrhau gwelliannau cynaliadwy o ran perfformiad ar raddfa fawr ar draws ystod o ddeilliannau gweithredol er mwyn gwella profiad cleifion a diogelwch cleifion, gan gydnabod y gwelir gwelliannau ar draws y meysydd clinigol hyn yn cael eu gweld fel llinyn mesur allweddol o gynnydd cyffredinol y sefydliad.

7. DATGANIADAU DATGELU

7.1 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae adolygiad o amcanion cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd wedi'i gwblhau, a chyhoeddwyd Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024–2028 ar 27 Mawrth 2024.

Mae fframwaith polisi Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Bwrdd Iechyd wedi'i sefydlu drwy WP8 - Polisi Cydraddoldeb Amrywiaeth a Hawliau Dynol, sy'n nodi disgwyliadau o ran cydymffurfiaeth â gofynion statudol (gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) a'r gofyniad i sicrhau bod prosesau a dogfennaeth llywodraethu yn adlewyrchu deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei fonitro drwy lwybrau llywodraethu sefydledig (gan gynnwys Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a dulliau rhanddeiliaid), ac ategir ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol drwy grwpiau cynrychioliadol (gan gynnwys trefniadau gwaith sy'n cyfeirio at gydweithio â Llais).

Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Cydraddoldeb Adroddiadau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy'r **Pwyllgor Pobl a Diwylliant** sy'n ei argymell i'w gymeradwyo gan y Bwrdd, a chaiff ei gyhoeddi a bydd ar gael i'r cyhoedd.

Caiff ein hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb ei adlewyrchu mewn sawl ffordd arall:

- Bydd y Bwrdd yn cynnal sesiwn datblygu cydraddoldeb flynyddol i sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'u dyletswydd i roi 'sylw dyledus' i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- Mae'r Bwrdd wedi nodi ei ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws y Bwrdd Iechyd.

- Mae'r Cynllun Blynyddol yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a hawliau dynol, yn ogystal â'r trefniadau i ymgymryd ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.
- Mae cyfleoedd wedi'u nodi i ymgorffori'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol mewn dulliau cynllunio a chyflawni gwasanaethau a'r system i sicrhau gwelliannau.
- Caiff Strategaeth y Gweithlu a gwaith datblygu polisïau eu llywio gan wybodaeth yng nghyd-destun cydraddoldeb am y gweithlu ac asesiadau o effeithiau ar gydraddoldeb.
- Mae Hyfforddiant ynghylch Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ofynnol i bob aelod o'r staff.
- Hwylusir rhaglen o hyfforddiant ynghylch asesu effeithiau ar gydraddoldeb ynghyd â chymorth ac arweiniad trwy waith cymell. Cryfhawyd trefniadau i graffu ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb eleni.
- Mae risgiau sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth wedi'u nodi a'u cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Mae'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Cyflwynir adroddiadau am gynnydd i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cydraddoldeb (allanol). Mae aelodaeth y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o blith y cyhoedd sydd â buddiant mewn materion yn ymwneud â chydraddoldeb, gan gynnwys Llais.

7.2 Cynllun Pensiwn a Threfniadau Cyflogres y GIG

Fel cyflogwr sydd â staff sydd â hawl i ymaelodi â Chynllun Pensiwn y GIG, mae gan y Bwrdd Iechyd fesurau rheoli ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â holl rwymedigaethau cyflogwyr yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflogau, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r Cynllun yn cyd-fynd â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion cynlluniau pensiwn aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.

Caiff y systemau a'r prosesau hyn eu harchwilio a'u hadolygu'n rheolaidd gan Archwilio Cymru fel rhan o'r archwiliad blynyddol o'r datganiadau ariannol, ac archwiliad mewnol o systemau'r gyflogres

Fel cyflogwr sylweddol, mae gan y Bwrdd Iechyd reolaethau hefyd sy'n sicrhau ei fod yn ymdrin yn gywir â didynnu trethi gweithwyr a thalu trethi'r cyflogwr. Yn ychwanegol, mae gennym reolaethau ar waith i sicrhau ein bod yn rheoli trethi sylweddol eraill yn gywir (e.e., TAW). Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi asesu'r Bwrdd Iechyd gan bennu sgôr risg busnes isel ar sail eu hasesiad a'n hanes blaenorol. Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio am hyn.

7.3 Cynlluniau Cyflawni Lleihau Carbon

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer camau gweithredu yn y tymor byr a'r tymor canolig, a fydd yn arwain at hwb mawr o ran ein hamcan i sicrhau statws Sero Net o ran Allyriadau Carbon erbyn 2030. Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu gan y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2022 ac mae'n cynnwys cyflawni cyfres o welliannau effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu trydan adnewyddadwy ar draws yr ystâd. Mae'r rhaglenni hyn yn cyfuno mesurau

effeithlonrwydd ynni fel inswleiddio, goleuadau effeithlon iawn a Systemau Rheoli Adeiladau yn ogystal â chynhyrchu ynni trydanol trwy gynlluniau megis paneli ffotofoltäig (defnyddio ynni'r haul i gynhyrchu trydan). Yn ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried ymgorffori gwasanaethau cynaliadwy gan ystyried effaith y newidiadau ar garbon, datblygu cyfleusterau sy'n wydn o ran yr hinsawdd ond hefyd y defnydd effeithlon ac effeithiol o ystadau a'r gostyngiad strategol yn y lle sydd gan y bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael cymorth trwy gydol y broses gan Bartneriaeth Llywodraeth Leol a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

Gan gydnabod y gwaith i'w wneud, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd recriwtio Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau ar ddechrau 2025, ac mae cynaliadwyedd wedi'i gynnwys yn y portffolio hwnnw a bydd yn gweithredu rhagor o gamau yn ystod 2026/2027.

Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, mae cofrestr risgiau wedi'i datblygu i nodi risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r rhaglen.

Ym mis Ionawr 2024, cychwynnodd y Bwrdd Iechyd broses gaffael drwy fframwaith Re:fit i gynorthwyo i ddatblygu nifer o Fesurau Arbed Ynni i gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio. Cyhoeddwyd yr Asesiad Lefel Uchel cychwynnol o gynigion ymarferol ym mis Mawrth 2025 i'w datblygu ac roedd yn cynnwys gwaith gwerth tua £7.1m i arbed cyfanswm dros oes y mesurau o dros 14,650 tunnell fetrig o CO_2. Mae'r cynigion hyn bellach yn cael eu datblygu ymhellach i'w rhoi ar waith yn amodol ar gyllid grantiau.

Ar wahân ac wedi'i ariannu drwy Lywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu cynnig ar gyfer fferm solar ar safle un ysbyty acíwt. Gallai'r cyfleuster gyflawni 15.6% o alw ynni brig y safle a disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith erbyn dechrau 2027.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cadarnhau cydymffurfiaeth â'r datganiad canlynol: Mae'r sefydliad wedi cynnal asesiad o'r risgiau ac mae Cynlluniau Cyflawni Lleihau Carbon ar waith yn unol â gofynion parodrwydd am argyfyngau ac argyfyngau sifil posibl yn seiliedig ar ragolygon tywydd UKCIP 2009 i sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaeth y sefydliad o dan Ddeddf y Newid yn yr Hinsawdd a'r gofynion i Adrodd am Addasiadau.

Wrth i waith ar becyn cymorth addasu i'r niwed yn yr hinsawdd barhau drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal asesiadau risg hinsawdd gan ddefnyddio senarios rhagamcanu tywydd. Yna, bydd y Bwrdd Iechyd yn ailystyried y gofynion adrodd hyn pan fo'n briodol a phan fydd yn gallu cydymffurfio.

7.4 Sicrhau Ansawdd Data

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i fynd ati'n rheolaidd i wella ei drefniadau mewn perthynas ag ansawdd data er mwyn gwella ansawdd a manwl gywirdeb gwybodaeth allweddol.

Mae diffyg un cofnod cleifion electronig a dibyniaeth ar systemau tameidiog yn parhau i achosi heriau o ran ansawdd data gwael a dyblygu cofnodion cleifion (o fewn ac ar draws systemau). Rydym yn parhau i gydweithio â thimau gweithredol i ddatblygu gweithdrefnau gweithredu safonol a gwreiddio dulliau cyson o gasglu data ar draws

gwasanaethau. Darperir hyfforddiant wedi'i dargedu os ceir gwallau ansawdd data rheolaidd neu faterion sy'n peri pryder ac mae egwyddorion ansawdd data ac arfer gorau wedi'u hymgorffori yn hyfforddiant System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS).

Drwy gydol 2025-26, mae nod barcud ansawdd data wedi'i ddatblygu a'i gymhwyso i bedwar o'n setiau data adrodd allweddol. Mae'n cynnwys chwe dimensiwn, ac mae'n dynodi ansawdd data ar sail ffactorau megis dilysrwydd, cwblhau, amseroldeb a dyblygu. Mae'r nod barcud yn ddull gweledol o gyfleu ansawdd i'w arddangos ar adroddiadau a dangosfyrddau.

Yn ystod y flwyddyn, fe aethom i'r afael â'n hôl-groniad codio clinigol, ac ers yr ail chwarter, rydym wedi cyflawni'r targed misol o ran cyflawnrwydd codio clinigol, sef 95%.

Ym mis Tachwedd 2025, cafodd adroddiadau am amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT) y Bwrdd Iechyd eu hatal dros dro dilyn nodi gwall o ran data diwedd mis. Ynghyd ag ymchwiliad mewnol, comisiynwyd adolygiad cyflym allanol gan Lywodraeth Cymru. Archwiliwyd dulliau llywodraethu data a phrosesau technegol. Cywirwyd y data a chawsant eu hailgyflwyno yn ôl i fis Ebrill 2025, ac mae gwelliannau wedi digwydd o ran y gweithdrefnau cysoni a chymeradwyo misol. Gwelliannau yn yr amseroedd aros i gael apwyntiadau cleifion allanol

7.5 Cyfarwyddiadau'r Gweinidog a Chylchlythyrau Iechyd Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu nifer o Offerynnau Anstatudol yn ystod 2025/26. Mae manylion y rhain a chofnod o unrhyw Gyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru ar gael gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: Cyhoeddiadau | LLYW.CYMRU

Bu nifer o Gyfarwyddiadau i'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â'r Datganiad o Hawliau Ariannol, ac mae'r Bwrdd wedi gweithredu mewn ymateb i'r rhain. Mae cynnydd yn digwydd o ran ymateb i gyfarwyddiadau ynghylch cod ymarfer Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig 2026, cyfarwyddiadau ynghylch Gwasanaethau Gofal Sylfaenol dan Gontract, a'r rhai sy'n ymwneud â Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol.

Caiff Cylchlythyrau Iechyd Cymru (WHC) eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu dull cyfathrebu syml, tryloyw ac olrheiniadwy rhwng GIG Cymru a sefydliadau'r GIG. Mae'r Cylchlythyrau hyn yn ymwneud â meysydd gwahanol megis polisi, perfformiad a chyflawni, cynllunio, deddfwriaeth, gweithlu, cyllid, ansawdd a diogelwch, llywodraethu, technoleg gwybodaeth, gwyddoniaeth, ymchwil, iechyd y cyhoedd a llythyrau at weithwyr iechyd proffesiynol. Gellir cael manylion WHCs trwy glicio ar y ddolen ddilynol: Cylchlythyrau iechyd: 2024 i 2027 | LLYW.CYMRU

Ar ôl eu derbyn, caiff holl Gyfarwyddiadau'r Gweinidogion a Chylchlythyrau Iechyd Cymru eu cofnodi ar gofrestr, a chânt eu neilltuo i aelod arweiniol y Tîm Gweithredol, a fydd yn gyfrifol am weithredu'r camau gofynnol. Gofynnir am ddiweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd i sicrhau bod y gwaith gofynnol yn mynd rhagddo. Mae'r bwrdd wedi dynodi goruchwyliaeth dros y broses hon i bwyllgorau ar lefel y Bwrdd, a rhoddir adroddiadau cynnydd ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio.

8 ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD

Fel Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r gweithredwyr yn y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaethau mewnol, a'r sylwadau a geir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac mewn adroddiadau eraill.

8.1 Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu llif o sicrwydd am y system rheolaethau mewnol i mi, fel Swyddog Atebol, ac i'r Bwrdd, drwy'r Pwyllgor Archwilio. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi cael ei chyflwyno yn unol â safonau archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Byddaf yn cytuno ar gwmpas y gwaith hwn â chymorth y Pwyllgor Archwilio ac mae'n canolbwyntio ar feysydd y gallai risgiau sylweddol ddod i'r amlwg ynddynt a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu a rheoli risg yn rhan o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae rhaglen Archwilio Mewnol 2025/25 wedi nodi nifer o bryderon allweddol ynghylch Llywodraethu. Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae trefniadau caffael a rheoli contractau wedi amlygu rhywfaint o feysydd parhaus ble ceir diffyg cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog sydd heb ei ddatrys, gan nodi cyfle i gryfhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhellach ymhlith Gweithredwyr ac Uwch Arweinwyr, yn enwedig ochr yn ochr â chyflwyno deddfwriaeth caffael newydd.
Erys pryderon hefyd ynghylch llywodraethu cyfalaf, a chafwyd sicrwydd anfoddhaol ynghylch cynllun cyfalaf mawr am yr ail flwyddyn yn olynol, gan ei gwneud yn ofynnol i argymhellion o'r adolygiad a gomisiynwyd gan y Prif Weithredwr gael eu gweithredu ar frys. Cofnodwyd achosion o ddiffyg ymateb i geisiadau am dystiolaeth gan reolwyr gweithredol fel achosion o dramgwyddo Cyfarwyddyd Ariannol Sefydlog 3.2.2. Mae prydlondeb ymatebion rheolwyr i adroddiadau drafft wedi dirywio, ac fe wnaeth lefel y gydymffurfiaeth â'r targed o ugain (20) diwrnod gwaith ostwng o 85% yn 2024/25 i 64% yn 2025/26, gan gynnwys uwchgyfeirio anawsterau yn unol â gofynion y Siarter Archwilio Mewnol. Yn olaf, er bod rhywfaint o gynnydd wedi digwydd o ran dirwyn y camau gweithredu cytunedig i ben, nid yw hyn wedi cyflawni'r lefelau disgwyliedig, ac mewn rhai achosion, nid yw tystiolaeth a gyflwynwyd wedi dangos bod y camau gweithredu cytunedig wedi'u cwblhau'n llawn. Fel Swyddog Atebol, ystyriaf heb os fod y maes gwaith hwn yn hanfodol i Weithredwyr ac Uwch Reolwyr ar draws y sefydliad, a bod y rhain yn rhan o ddulliau adolygu perfformiad.

Mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi casglu:
Mai diben barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol a'r Bwrdd sy'n sail i

asesiad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol. Bod cynllun cymeradwy'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar risg, ac felly, bydd angen i'r Bwrdd integreiddio'r canlyniadau hyn â ffynonellau sicrwydd eraill wrth wneud asesiad crwn o reolaeth at ddibenion y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Dyma'r farn gyffredinol ar gyfer 2025/26:

Sicrwydd cyfyngedig		Gellir cynnig sicrwydd cyfyngedig i'r Bwrdd bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn y meysydd sy'n cael eu hadolygu wedi cael eu cynllunio addas a'u bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae angen i reolwyr ymdrin â materion mwy sylweddol. **Effaith gymedrol** ar amlygiad i risgiau gweddilliol hyd nes y cânt eu datrys

O ran Cyflawni Cynllun y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, mae'r cynllun wedi'i gyflawni yn unol â'r amserlen gytunedig a'r newidiadau sydd eu hangen yn ystod y flwyddyn, fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio (y 'Pwyllgor'). Yn ychwanegol, mae adroddiadau cynnydd rheolaidd gan y gwasanaeth archwilio wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor. Er bod newidiadau wedi'u gwneud i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, gallwn gadarnhau ein bod wedi ymgymryd â digon o waith archwilio yn ystod y flwyddyn i allu cynnig barn gyffredinol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Cyffredinol.

Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Mewnol blwyddyn ariannol 2025/26 i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2025. Gwnaed newidiadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn ac mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'i hysbysu am newidiadau hyn fel rhan o'n hadroddiadau cynnydd rheolaidd.

Wrth grynhoi Aseiniadau Archwilio, mewn rhai achosion, efallai y cynhwysir gwaith archwilio o flynyddoedd blaenorol hefyd, ac os felly, rhoddir manylion. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyfeirio at sicrwydd a gafwyd drwy archwiliadau mewnol o systemau rheoli a weithredir gan sefydliadau eraill GIG Cymru.

Mae cwmpas yr archwilio yn y cynllun y cytunwyd arno â'r rheolwyr wedi canolbwyntio'n fwriadol ar feysydd risg strategol a gweithredol allweddol; felly, gall canlyniad yr adolygiadau hyn gan y Gwasanaeth Archwilio amlygu gwendidau o ran rheoli sy'n effeithio ar y farn gyffredinol ynghylch sicrwydd.

Ar y cyfan, gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnig y sicrwydd a ganlyn i'r Bwrdd bod y trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol wedi'u cynllunio'n addas a'u gweithredol effeithiol yn y meysydd sylweddol a rhesymol a nodir yn y tabl isod.

Lle cawsom Sicrwydd Cyfyngedig neu Anfoddhaol yn eu cylch, mae rheolwyr yn ymwybodol o'r anawsterau penodol a nodwyd ac maent wedi cytuno ar gynlluniau

gweithredu i wella rheolaethau yn y meysydd hyn. Dylid cyfeirio at y gwelliannau arfaethedig hyn i reolaethau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ble mae'n briodol gwneud hynny.

Yn ychwanegol, fe wnaethom hefyd ymgymryd ag adolygiadau cynghori ac adolygiadau nad oeddent yn farn i ategu ein barn gyffredinol. Ceir crynodebau o'r archwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r canlyniadau yn nhabl 1 isod.

Tabl 1 - Crynodeb o Archwiliadau 2025/25

Sgôr sicrwydd	Adolygiad gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol
Sicrwydd Sylweddol	• Cydymffurfiaeth â Gofynion Statudol Rheoli Asbestos
Sicrwydd Rhesymol	• Fframwaith Rheoli Risgiau a Sicrwydd y Bwrdd • Iechyd y Cyhoedd Atal ac Ymyriadau Cynnar - gweithgarwch a ariennir ag arian grantiau • Gosod Cyllidebau (adolygiad Cymru Gyfan) • Profiad Cleifion • Cwynion • Buddion digidol a newid • Gwasanaethau Cymunedol • Gofal Meddygol Sylfaenol - Fframwaith Sicrwydd Contractau • Diwylliant a Datblygu Arweinyddiaeth - Cyflawni Blaenoriaethau • Cardiau prynu ac arian mân
Sicrwydd Cyfyngedig	• Cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Gorfforaethol - Deddf Argyfyngau Sifil 2004 • Safonau Cynnal Busnes • Llywodraethu Pwyllgorau'r Gweithredwyr • Gwerth a Chynaliadwyedd - cyflawni gwelliannau o ran ansawdd • Dysgu - adroddiadau rheoleiddiol • TG nas rheolir gan y Tîm Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT) • Gwasanaethau Gofal sy'n Wynebu Heriau - Cynlluniau Gwella • Rhaglen Newid Mawr Gofal Wedi'i Gynllunio - Llywodraethu a Chyflawni • Codi Llais heb Ofn • Trefniadau dyletswyddau ar alwad

Sgôr sicrwydd	Adolygiad gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol
	• Cydymffurfiaeth â chanllawiau NICE • Rheoli Ystadau - Hysbysiadau Ystadau a Chyfleusterau • Rheoli contractau a chaffael - swyddogaethau corfforaethol Gweithredwyr a Chyfarwyddwyr • Cydymffurfiaeth â Gofynion Rheolaethol gan y Gwasanaethau Fferylliaeth
Anfoddhaol	• Cynllun Archwilio Integredig - Meddygaeth Niwclear (Drafft)
Cynghorol/Dim Barn	• Dilyniant yn sgil argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol • Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Gweithredu camau Archwilio Cymru • Dilyniant ynghylch Cynllunio Swyddi Meddygon Ymgynghorol • Dilyniant ynghylch Rheoli Codymau • Rheoli contractau a chaffael - Digidol, Data a Thechnoleg (Cynghorol) • Trefniadau Llywodraethu Cyfalaf (Cynghorol) • Y Ganolfan Dros Iechyd Meddwl a'r Gymdeithas (Cynghorol)

Sylwer: wrth lunio'r farn gyffredinol, ystyriwyd hefyd nifer yr archwiliadau sydd wedi'u gohirio yn ystod y flwyddyn a'u harwyddocâd, ac unrhyw wybodaeth arall a gafwyd yn ystod y flwyddyn y tybiwyd ei bod yn berthnasol.

8.2 Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru

Mae Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2025 Asesiad Strwythuredig 25-26 yn broses flynyddol sy'n ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, gan gynnwys pa mor dda y mae'r Bwrdd yn gweithio; sut mae'n cadw golwg ar risgiau, perfformiad, ansawdd gwasanaethau ac argymhellion; sut mae'n llunio cynlluniau a strategaethau allweddol; a sut mae'n rheoli ei gyllid. Cafodd y Bwrdd Iechyd yr adroddiad terfynol ar 26 Mawrth 2026 ac roedd hefyd yn adolygu cynnydd tuag at weithredu argymhellion o adroddiadau asesiadau strwythuredig blaenorol ac adroddiad Archwilio Cymru 2024 ynghylch arbedion costau.

Casglodd Archwilio Cymru fod y Bwrdd a'i Bwyllgorau'n gweithredu'n effeithiol â thrafodaeth agored a her effeithiol, ond fe wnaeth nodi bod angen sicrhau bod trefniadau arweinyddiaeth weithredol yn cael eu cryfhau ymhellach i gefnogi mwy o arweinyddiaeth sefydliadol ar y cyd, dirprwyo priodol a gwydnwch ar lefel y Tîm Gweithredol. Fe wnaeth yr asesiad hefyd gydnabod nad yw'r model gweithredu presennol yn addas i'r diben ac fe wnaeth ddwyn sylw at yr angen am atebolrwydd eglurach am berfformiad, gan nodi bod Sylfeini'r Dyfodol yn rhaglen briodol o ran bod

yn uchelgeisiol. Fodd bynnag, roedd gweithredu'r rhaglen yn cymryd mwy o amser nag a gynlluniwyd yn wreiddiol. O ran rheolaeth ariannol, fe wnaeth Archwilio Cymru gydnabod gwelliannau o ran adrodd a chraffu, ond nododd fod heriau ariannol yn parhau, gan gynnwys sefyllfa ddiffyg a ragwelid ar gyfer deg mis ar gyfer 2025/26 a dyroddi/llofnodi cytundebau atebolrwydd yn hwyr yn ystod y flwyddyn.

Fe wnaeth Archwilio Cymru gynnig naw argymhelliad ar gyfer y Bwrdd Iechyd, wedi'u grwpio ar draws: cynyddu tryloywder o fewn busnes y bwrdd; cryfhau llinellau sicrwydd i Bwyllgorau'r Bwrdd; cryfhau gwytnwch o fewn y Tîm Gweithredol; sicrhau bod rheolaethau ariannol yn cael eu deall yn dda, wedi'u mynegi'n glir ac wedi'u cytuno a sicrhau digon o allu rheoli rhaglenni ar gyfer adolygu ei strwythurau gweithredu. Mae'r argymhellion yn ymwneud â llywodraethu wedi'i hymgorffori yn y Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol, a chaiff cynnydd ei fonitro trwy law'r Pwyllgor Archwilio a chyflwynir adroddiadau am hynny i'r Bwrdd at ddibenion sicrwydd.

9. CASGLIAD

Fel Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yr wyf i, ar sail y broses adolygu a amlinellir uchod, wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol o ran rheolaeth fewnol. Gallaf gadarnhau bod y Bwrdd a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ymwybodol o'u hatebolrwydd o ran rheolaethau mewnol, yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi gweithredu system ddarparu sicrwydd sy'n cyd-fynd ag amcanion corfforaethol i gynorthwyo i nodi a rheoli risgiau. Mae'n bwysig nodi bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dal yn destun camau monitro 'Mesurau Arbennig' fel rhan o drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth GIG Cymru. Felly, mae'n cael ei oruchwylio'n fanylach na chyrff eraill y GIG.

Er bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd wedi parhau i aeddfedu yn ystod 2025-26, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu her sylweddol o ran perfformiad gweithredol, yn enwedig ym meysydd Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng, Gofal Wedi'i Gynllunio, Gwasanaethau Canser a Diagnosteg, ble mae pwysau o ran perfformiad yn dal yn bodoli ac yn gofyn am barhau i ganolbwyntio ar wella. Mewn ymateb, mae rhagor o gapasiti ac arbenigedd ym maes gwella wedi'u rhoi ar waith trwy becyn cymorth/Tîm Ymyrraeth integredig dros dro y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwelliant GIG Cymru, sy'n canolbwyntio ar gyflymu gwelliannau cynaliadwy ar draws gwasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, Gofal Wedi'i Gynllunio a Gwasanaethau Canser, â threfniadau eglur ar gyfer llywodraethu, adrodd a sicrwydd trwy ddull presennol y Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fynd ati'n rhagweithiol i nodi meysydd yr oedd angen eu gwella ynghyd â'r rhai a nodwyd yn fframwaith y Mesurau Arbennig a gofynnodd i'r Archwilwyr Mewnol gynnal asesiadau manwl er mwyn rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. Gwneir rhagor o waith i sicrhau bod argymhellion sy'n deillio o adolygiadau'r archwilwyr yn cael eu gweithredu, yn enwedig yn achos sgôr sicrwydd cyfyngedig. Bydd gwaith hefyd yn parhau i ymgorffori rheoli risgiau a'r fframwaith sicrwydd ar y lefelau corfforaethol a gweithredol.

O ran rheoli risgiau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei Fframwaith Rheoli Risgiau yn ystod 2025/26, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd Bwrdd mwy cadarn sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ac adroddiadau rheolaidd ynghylch risgiau

strategol a chorfforaethol trwy lwybrau llywodraethu sefydledig. Fodd bynnag, er gwaethaf cynnydd o ran cryfhau prosesau goruchwylio a llywodraethu risgiau, mae Archwilio Cymru yn nodi nad yw sgorau risgiau wedi gostwng fel mater o drefn yn ystod y flwyddyn ac mai ychydig iawn o sgorau risgiau corfforaethol sydd wedi newid, gan amlygu angen i ganolbwyntio'n fwy manwl ar effaith fesuradwy camau lliniaru ac effeithiolrwydd sicrwydd o ran ysgogi gwelliannau.

Yn yr un modd, mae gwaith i gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi parhau i gael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r adroddiad cynnydd ynghylch y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dangos bod camau gweithredu cynlluniedig wedi'u cwblhau'n gryfach. Fodd bynnag, mae Archwilio Cymru wedi nodi bod newidiadau o ran adrodd yn golygu ei bod hi'n anoddach olrhain yr hyn sydd wedi'i gwblhau ym mhob cyfnod ac i amlygu effaith y camau gweithredu ar y canlyniadau bwriadedig yn eglur. Bydd gweithredu Blaenoriaethau Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd, a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28 yn parhau i gryfhau effeithiolrwydd y Bwrdd a'r system rheolaethau mewnol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn cadarnhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi parhau i gymryd camau cadarnhaol i aeddfedu fel sefydliad, ac er y ceir meysydd y dylid eu cryfhau, ni nodwyd unrhyw anawsterau sylweddol yn ymwneud â rheolaethau mewnol na llywodraethu.

Mae gan y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol system gadarn ac effeithiol o reolaethau mewnol ar waith sy'n cynnig sicrwydd rheolaidd ac sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a risgiau strategol y sefydliad. Ar y cyd â'r Bwrdd, byddaf yn parhau i ysgogi gwelliannau a byddaf yn ceisio cynnig sicrwydd i'n dinasyddion a'n rhanddeiliaid bod ein dull gweithredu a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol, ac wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion a disgwyliadau cleifion. Mae'n hysbys iawn bod y gofynion ar y system iechyd a gofal yn parhau i fod dan bwysau sylweddol, gan gynyddu anghydraddoldebau iechyd, a chynnal heriau yn ymwneud â'r economi a chostau byw. Felly bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fyfyrio ac ymateb yn rheolaidd i'r gofynion a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried ac yn ymateb i'r angen hwn.

……..
Carol Shillabeer, Prif Weithredwr

Dyddiad: 25 Mehefin 2026

Atodiad 1 - Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau 2025-26

Enw	Swydd	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd
Dyfed Edwards	Cadeirydd	• Cadeirydd y Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Tâl
Carol Shillabeer	Y Prif Weithredwr	• Aelod o'r Bwrdd • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol • Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol
Emma Adamson	*Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	• Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (o 13.05.25) • Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Tehmeena Ajmal	Prif Swyddog Gweithredu	• Aelod o'r Bwrdd • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Dr Sreeman Andole	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol (Dros Dro)	• Aelod o'r Bwrdd (hyd at 26.09.25) • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio
Karen Balmer	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd (hyd at 31.07.25) • Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Clare Budden	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd, Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau - Cadeirydd • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Russell Caldicott	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	• Aelod o'r Bwrdd • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio • Cyfarwyddwr Arweiniol, y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Cyfarwyddwr Arweiniol, y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth • Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol

Enw	Swydd	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd
Clara Day	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	• Aelod o'r Bwrdd (o 29.09.25) • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol	• Aelod o'r Bwrdd (o 01.02.26) • Cyfarwyddwr Arweiniol, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Tâl
Urtha Felda	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Pwyllgor Archwilio • Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
Christopher Lothian-Field	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth • Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
Dyfed Jones	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant • Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
Paul Lambert	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd (o 13.10.25) • Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Yr Athro Mike Larvin (Deon Meddygaeth)	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Aelod o'r Pwyllgor Tâl
Peter Lewis	*Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	• Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (o 30.07.25) • Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Enw	Swydd	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd
Dr Jane Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	• Aelod o'r Bwrdd • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
William Nichols Undeb Llafur	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol • Aelod o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant • Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd	• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol, y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Mike Parry	*Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	• Aelod o'r Bwrdd (hyd at 30.06.25) • Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Fôn Roberts	*Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	• Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Georgina Roberts	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol	• Aelod o'r Bwrdd (01.07.25 - 31.01.26) • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Tâl • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Paolo Tardivel	Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid a Chynllunio Strategol	• Aelod o'r Bwrdd • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Cyfarwyddwr Arweiniol, y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
Dr Caroline Turner	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau

Enw	Swydd	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Archwilio • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth • Aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
Gareth Williams	Is-gadeirydd	• Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth • Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl • Aelod o'r Pwyllgor Tâl • Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
Angela Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad • Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol • Hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth

Sylwer: Nid yw'r sawl y ceir * wrth deitl eu swydd yn aelodau o'r Bwrdd at ddibenion pleidleisio.
Mae nifer o Aelodau'r Bwrdd wedi cael eu penodi'n Hyrwyddwyr y Bwrdd yn ogystal â'u rôl fel Aelod Annibynnol.

Atodiad 2 - Cyfarfodydd Y Bwrdd Iechyd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2025/26

Cyfarfod	Ebrill 2025	Mai 2025	Mehefin 2025	Gorffennaf 2025	Awst 2025	Medi 2025	Hydref 2025	Tachwedd 2025	Rhagfyr 2025	Ionawr 2026	Chwefror 2026	Mawrth 2026
Y Bwrdd Iechyd	-	29.05.25	26.06.25	17.07.25 31.07.25	-	25.09.25	-	27.11.25	-	29.01.26	-	26.03.26
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad	-	01.05.25	-	03.07.25	-	04.09.25	-	06.11.25	-	15.01.26	-	05.03.26
Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth	-	06.05.25	25.06.25	-	26.08.25	-	22.10.25	-	18.12.25	-	24.02.26	-
Pwyllgor Tâl	07.04.25	19.05.25*	26.06.25*	02.07.25	-	-	07.10.25 16.10.25*	-	18.12.25*	12.01.26		17.03.26
Y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl	-	08.05.25	-	-	07.08.25	-	-	13.11.25	-	-	05.02.26	-
Y Pwyllgor Archwilio	-	08.05.25	24.06.25	-	19.08.25	-	21.10.25	-	16.12.25	-	17.02.25	-
Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	-	-	03.06.25	-	-	02.09.25	-	-	02.12.25	27.01.26	-	09.03.26
Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau	-	01.05.25	-	03.07.25	-	04.09.25	28.10.25	-	-	15.01.26	-	05.03.26
Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant	10.04.25	-	12.06.25	-	14.08.25	-	16.10.25	-	04.12.25	-	12.02.26	-

Atodiad 3 - Presenoldeb Aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2025/26

O = Yn bresennol N = Ddim yn bresennol

Enw	Swydd	29.05.25	26.06.26	17.07.25*	31.07.26	25.09.25	27.11.25	29.01.26	26.03.26
Angela Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	O	O	N	O	O	O	N	O
Carol Shillabeer	Y Prif Weithredwr	O	O	O	O	O	O	O	O
Caroline Turner	Aelod Annibynnol	O	O	O	O	O	N	O	O
Chris Lothian-Field	Aelod Annibynnol	O	N	N	O	O	O	O	O
Clara Day	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol						O	O	O
Clare Budden	Aelod Annibynnol	O	N	O	O	O	O	O	O
Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol								O
Dyfed Edwards	Cadeirydd	O	O	O	O	O	O	O	O
Dyfed Jones	Aelod Annibynnol	O	O	O	O	O	O	O	N
Emma Adamson	Aelod Cyswllt		O	O	N	O	O	O	O

Enw	Swydd	29.05.25	26.06.26	17.07.25*	31.07.26	25.09.25	27.11.25	29.01.26	26.03.26
Gareth Williams	Is-gadeirydd	O	O	O	O	O	O	N	O
Georgina Roberts	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol			N	O	N	O	O	
Jane Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	O	N	O	O	O	O	O	O
Karen Balmer	Aelod Annibynnol	O	N	O	O				
Yr Athro Mike Larvin	Aelod Annibynnol	O	N	O	O	O	O	O	O
Paolo Tardivel	Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid a Chynllunio Strategol	N	O	N	O	O	O	O	O
Paul Lambert	Aelod Annibynnol						O	O	O
Peter Lewis	Aelod Cyswllt					O	O	O	O
Mike Parry	Aelod Cyswllt	O	N						

Enw	Swydd	29.05.25	26.06.26	17.07.25*	31.07.26	25.09.25	27.11.25	29.01.26	26.03.26
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol	O	O	N	O	O	O	O	O
Russell Caldicott	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	O	O	O	O	O	O	O	O
Dr Sreeman Andole	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol (Dros Dro)	O	O	O	O	N			
Tehmeena Ajmal	Prif Swyddog Gweithredu	O	O	O	O	O	O	O	O
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd	O	O	O	O	O	O	O	O
Urtha Felda	Aelod Annibynnol	O	O	O	O	O	O	O	O
William (Billy) Nichols	Aelod Annibynnol	O	O	O	O	O	O	O	O

Hefyd yn Bresennol

Enw	Swydd	29.05.25	26.06.25	17.07.25*	31.07.25	25.09.25	27.11.25	29.01.26	26.03.26
Dylan Roberts	Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth	N	N	N	N	N	N	N	N
Georgina Roberts	Uwch Gyfarwyddwr Cyswllt, Gwasanaethau Pobl	O	O						
Helen Stevens-Jones	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu	O	O	O	O	O	O	O	O
Jason Brannan	Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl	O	N	O		O			
Justine Parry	Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg							O	O
Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	O	O	O	O	O	O	O	O
Phylis Makurunje	Darpar Aelod o'r Bwrdd	N	O	N	O	O	O	N	N
Stephen Powell	Cyfarwyddwr Perfformiad a Chomisiynu	O	O	N	N	N			
Stuart Keen	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau	O	O	O	O	O	O	O	O

* Cyfarfod Eithriadol

2. Adroddiad Tâl 2025-26

Polisïau ynghylch Tâl Staff ac Uwch Reolwyr

Yr Uwch Reolwyr yw'r rhai sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo a rheoli gweithgareddau mawr y Bwrdd Iechyd cyfan; mae'r diffiniad hwn yn cynnwys yr Aelodau hynny o'r Tîm Gweithredol sy'n bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Caiff enwau a theitlau aelodau'r Bwrdd eu datgelu yn y tabl cyflogau uchod.

Yn Hydref 2004, cyflwynwyd proses Agenda ar gyfer Newid (AfC) y GIG, i gyflawni cysondeb o ran contractau ac amodau a thelerau ledled GIG Cymru. Rhoddir y contract Cymru gyfan perthnasol i'r holl staff a'r rheolwyr (ac eithrio cyfarwyddwyr) pan gânt eu penodi. Cytunir ar gontractau Cymru gyfan ar wahân ar gyfer Meddygon a Deintyddion, a Chyfarwyddwyr.

Fe wnaeth llythyr cyflogau AfC (W) 02/2025 (a gyhoddwyd ar 29 Mai 2025) sicrhau cynnydd o 3.6% yn y graddfeydd cyflog o 1 Ebrill 2025 ar gyfer yr holl staff ar delerau ac amodau AfC.

Yn ystod 2025/26, gweithredodd GIG Cymru'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn unol ag argymhellion y Sefydliad Cyflog Byw. O 1 Ebrill 2025 ymlaen, gweithredwyd cynnydd ymlaen llaw cyn y dyfarniad cyflog blynyddol ar gyfer 2025/26 ar gyfer holl staff y GIG a gyflogir yn uniongyrchol i £12.60 yr awr yn unol â chyfradd y Sefydliad Cyflog Byw (AfC(W) 01/2025).

Roedd llythyr cyflogau staff Meddygol a Deintyddol (W) 01/2025, a gyhoeddwyd ar 29 Mai 2025, yn manylu ar gynnydd o 4% yn y cyflog sylfaenol, wedi'i ôl-ddyddio i 01 Ebrill 2025 ar gyfer Meddygon Ymgynghorol, Meddygon ag Arbenigeddau a Meddygon Arbenigol Cyswllt ar Gontract 2008, Meddygon Arbenigol a Meddygon Arbenigol ar gontract 2021 ac Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol Cyflogedig. Cafodd Meddygon Preswyl gynnydd o 4% i'w cyflog sylfaenol ynghyd â thaliad cyfunol ychwanegol o £750.

Cadarnhaodd Llythyr Cyflogau staff Meddygol a Deintyddol (W) 01/2025 v2 gywiriad i bwyntiau cyflog MN25.00 ac MN25.01 ar gyfer Cofrestryddion Arbenigol a chadarnhaodd Llythyr Cyflogau staff Meddygol a Deintyddol (W) 01/2025 v3 gynnydd o 4% yng nghyflogau sylfaenol Meddygon Teulu cyflogedig.

Telir Gweithredwyr a Chyfarwyddwyr drwy ddefnyddio Graddfa Gyflog Gweithredwyr ac Uwch Reolwyr (ESP), a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Penderfynir ar dâl ar y lefel genedlaethol a defnyddir y dyfarniadau yn lleol ar sail cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth llythyr cyflogau ESP(W) 01/2026 ddarparu ar gyfer cynnydd o 3.25% i'w dalu o 1 Ebrill 2025 i unigolion sy'n ddeiliaid swyddi Gweithredwyr ac Uwch Reolwyr.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system tâl ar sail perfformiad ar gyfer Rheolwyr Uchel Iawn. Mae'r holl gontractau ar gyfer rolau parhaol yn rhai parhaol a thri mis yw cyfnod y rhybudd yn achos rheolwyr ar lefelau uchel iawn.

Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o hyd at bedair blynedd, a gellir eu hailbenodi am bedair blynedd ychwanegol. Ni ddylai uchafswm y cyfnod fod yn fwy nag wyth mlynedd. Bydd Aelodau Annibynnol yn cael tâl a bennir ar y lefel genedlaethol yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Mae cyflogau ar gyfer y rolau hyn wedi bod yn sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, cadarnhawyd cynnydd i Fyrddau Iechyd ar 15 Ebrill 2026, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ionawr 2026.

Mae'r Protocol Lwfans Gweithio Hybrid a gymeradwywyd yn wreiddiol yng nghyfarfod y Pwyllgor Tâl ar 19 Awst 2024 yn parhau i fod ar waith. Mae'r protocol yn berthnasol i staff â chontract ESP sydd newydd eu penodi ond sydd ddim yn adleoli'n llwyr i Ogledd Cymru. Rhaid i bob cais sy'n cyd-fynd â'r protocol hwn gael ei gytuno gan y Prif Weithredwr a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl. Telir swm amhensiynadwy (hyd at £8,000) yn flynyddol nes bydd dyfarniadau yn gysylltiedig â chostau byw wedi erydu'r taliad. Mae'r swm yn debyg i lwfans adleoli, ac os caiff ei ddefnyddio, ni all y gweithiwr hawlio unrhyw dreuliau o leoliad ei gartref i Ogledd Cymru.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

O ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), caiff y Bwrdd Iechyd gymorth gan Dîm Cydraddoldeb penodol. Mae'r tîm yn cynnig cyngor a chymorth i alluogi cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cynnig canllawiau, hyfforddiant a sicrwydd i'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol, rheolwyr a staff, yn enwedig mewn perthynas ag Asesiadau o Risgiau yn ymwneud â Chydraddoldeb ac ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredu yn unol â'i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ochr yn ochr â strategaethau a chynlluniau gweithredu sy'n cael eu llywio gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith eraill) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+, y Cynllun Menywod, Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch, y Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth, a'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Caiff y cynlluniau gweithredu hyn (ynghyd ag Amcanion Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd) eu llunio ar y cyd â staff a rhanddeiliaid allanol i sicrhau bod ymgysylltu ystyrlon a phrofiad bywyd yn llywio'r ddarpariaeth.
Cynorthwyir y Bwrdd Iechyd gan nifer o rwydweithiau staff sy'n ymdrin â chydraddoldeb, gan gynnwys:

- **BCUnity**, yn cynorthwyo staff o grwpiau ethnig lleiafrifol
- **Celtic Pride**, yn cynorthwyo staff LHDTC+
- **The Gen**, yn cynnig cymorth â materion rhywedd
- **RespectAbility**, yn cynorthwyo staff anabl

- **Rhwydwaith Niwroamrywiaeth (ND)**, yn rhoi sylw i staff niwrowahanol

Yn ychwanegol, mae cymorth ar gael drwy Gaffis Menopos a dulliau anffurfiol eraill. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cyflawni rôl bwysig o ran cynorthwyo i gynnal lles staff ac i gyd-lunio cynlluniau gweithredu EDI ar draws y Bwrdd Iechyd.

Yn ystod y broses ymsefydlu, caiff staff newydd Lawlyfr Staff sy'n cynnwys manylion rhwydweithiau staff, gwasanaethau cymorth a chyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael. Mae mewnrwyd y Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnwys amrywiaeth o dudalennau adnoddau, gan gynnwys canllawiau i reolwyr ynghylch addasiadau rhesymol a chymorth ynghylch Mynediad at Waith.

Mae ystod o hyfforddiant sy'n ymdrin ag EDI ar gael i staff, gan gynnwys hyfforddiant Gwylwyr Gweithredol, ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth, cymhwysedd diwylliannol, a hyfforddiant sy'n ymdrin â nodweddion gwarchodedig penodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o fod wedi cynnal ei statws **Lefel 3: Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd** yng Nghynllun Hyderus o ran Anabledd Llywodraeth y DU. Mae cyflawni Lefel 3 yn gofyn am asesiad annibynnol a chynnig tystiolaeth gadarn sy'n dangos sut mae'r sefydliad yn cynorthwyo darpar weithwyr anabl a gweithwyr anabl presennol.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau ac adnoddau, gan gynnwys:

- Polisi Absenoldeb Arbennig GIG Cymru
- Polisi Gweithio Oriau Hyblyg GIG Cymru
- Polisi Parch a Datrys GIG Cymru
- Canllawiau ynghylch Trin Pobl Anabl yn Deg yn y Gwaith yn BIPBC
- Atodiad A - Addasiadau Rhesymol a Phwrpasol: Rhagor o Wybodaeth
- Atodiad B - Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith GIG Cymru Polisi (Addasiadau Rhesymol)
- Polisi Ail-leoli
- HS01 Polisi Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch Pobl ac Eiddo
- Gweithdrefn Gweithio Oriau Hyblyg
- Y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad
- Gweithdrefn y Lwfans Anafiadau Dros Dro
- Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol
- Cymorth â Lles Ariannol

Y Pwyllgor Tâl

Bydd Pwyllgor Tâl y Bwrdd Iechyd yn cytuno ar Dâl a Thelerau Gwasanaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Prif Weithredwr, ac yn eu hadolygu'n gyson. Bydd y Pwyllgor hefyd yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr unigol (â chyngor gan y Prif Weithredwr yn achos y Cyfarwyddwyr). Dyfed Edwards, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, oedd Cadeirydd y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor Tâl yn ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth werthuso a phennu cyflogau i Gyfarwyddwyr, yn enwedig mewn perthynas â rhywoedd ac ethnigrwydd o ran lefelau cyflog, yn unol â Fframwaith Llywodraeth Cymru.

Trefnwyd i'r Pwyllgor gynnal cyfarfodydd bob deufis yn ystod y cyfnod adrodd, a chafodd pump cyfarfod arferol eu cynnal. Er mwyn gallu bwrw ymlaen â gwaith recriwtio neu gymeradwyo penodiadau, bu'n rhaid newid rhai o'r dyddiadau oedd wedi'u pennu a chynnal pedwar cyfarfod ychwanegol. Felly, yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaeth y Pwyllgor Tâl gynnal naw cyfarfod.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Tâl ar 7 Ebrill 2025, adolygwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. Ymgymerwyd â chamau gweithredu'r Cadeirydd mewn perthynas â 4 penderfyniad i benodi, a gadarnhawyd wedi hynny yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Yn ychwanegol, cytunwyd y bydd adroddiadau Panel Penodi Meddygon Ymgynghorol y Pwyllgor Penodi Meddygon Ymgynghorol yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Dyma oedd prif eitemau allweddol yr agenda a ystyriwyd yn ystod cyfnod adrodd 2025-26:-

- Penodi, newid, amcanion a gwerthusiadau Cyfarwyddwr Gweithredol, gan gynnwys adolygu portffolios a chyflogau;
- Rheoli Achosion a Thribiwnlysoedd (Gweithredwyr a Rheolwyr Uchel Iawn), yn cynnwys cyd-drafod setliadau;
- Diweddariadau ynghylch penodi a hwyhau penodiadau Uwch Reolwyr o Asiantaethau
- Sylfeini'r Dyfodol (FftF) – Model Gweithredu;
- Hwyhau secondiadau Rheolwyr Uchel Iawn tra'n disgwyl i raglen FftF gael ei gweithredu;
- Ymddygiad, Gallu ac Iechyd Meddygon a Deintyddion;
- Cynyddu tâl cyflogeion a gweithwyr sydd ar gyfraddau tâl ad hoc;
- Adolygiad o Gylch Gorchwyl a Chylch Busnes y Pwyllgor;
- Adolygiad Annibynnol – Ymateb y Rheolwyr;
- Protocol i dalu Lwfans Gweithio Hybrid ar gyfer Staff â Chontract ESP / Treuliau Lwfans Rheolwyr (Protocol Gweithio Hybrid a Pholisi Adleoli)
- Hwyhau penodiadau Ymgynghorwyr Arbennig;
- Cadarnhad ynghylch penodi Staff Ymgynghorol gan Baneli'r Pwyllgor Penodi Staff Cynghori i gyfarfod Ebrill 2025
- Adolygiad o weithdrefnau recriwtio a dulliau dethol Gweithredwyr
- Hyfforddiant Caffael ar gyfer Gweithredwyr - Cydymffurfiaeth â Gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (2024/013)
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Tâl 2024/25
- Cynnydd mewn Tâl ar gyfer 2025/26
- Cymorth gan Lywodraeth Cymru - penodiadau dros dro

Y canlynol oedd aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

Rôl yn y Pwyllgor	Enw	Teitl y Swydd	Dyddiadau
Cadeirydd	Dyfed Edwards	Cadeirydd y Bwrdd Iechyd	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026
Aelod	Gareth Williams	Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026
Aelod	Karen Balmer	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd	1 Ebrill 2025 - 31 Gorffennaf 2025
Aelod	Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026
Aelod	Syr Paul Lambert	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd	13 Hydref 2025 - 31 Mawrth 2026
Aelod	Yr Athro Mike Larvin	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026
Aelod	Clare Budden	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026
Aelod	Cynghorydd Dyfed Jones	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026
Aelod	Urtha Felda	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026
Aelod	Caroline Turner	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026

Hefyd yn bresennol:

Rôl yn y Pwyllgor	Enw	Teitl y Swydd	Dyddiadau

Hefyd yn bresennol	Carol Shillabeer	Y Prif Weithredwr	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026
Hefyd yn bresennol	Jason Brannan	Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl	1 Ebrill 2025 - 19 Mai 2025
Hefyd yn bresennol	Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol	1 Chwefror 2026 - 31 Mawrth 2026
Hefyd yn bresennol	Georgina Roberts	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol	1 Gorffennaf 2025 - 31 Ionawr 2026
Hefyd yn bresennol	Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026

Perthnasoedd Tâl

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr / gweithiwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thâl cydnabyddiaeth 25ain canradd, canolrif a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn y Cyfrifon Blynyddol, Nodyn 9.6.

Y Prif Weithredwr oedd y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn 2025-26, fel yn y flwyddyn flaenorol. Yn 2025-26, cafodd 18 o weithwyr (2024-25, 19) dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo

Mae manylion am yr holl daliadau diswyddo y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn ar gael yn Nodyn 9.5 yn y Cyfrifon Blynyddol ac yn Atodiad 1 y ddogfen hon.

Datgeliadau Cyflog a Phensiwn a Chyfanswm Ffigur Tâl Unigol Uwch Reolwyr

Mae cyfanswm y ffigurau yn y tabl isod (Cyfanswm y Ffigur Tâl Unigol) ar gyfer pob Uwch Reolwr yn cynnwys ffigur ar gyfer buddion pensiwn yn ystod y flwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan Asiantaeth Bensiynau'r GIG. Nid yw'r ffigur hwn yn cynrychioli'r swm gwirioneddol a gafodd ei dalu i unigolyn yn ystod y flwyddyn ac mae'n adlewyrchu asesiad cyfrifyddu o'r cynnydd mewn buddion hirdymor wedi'u haddasu am chwyddiant. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn gan gynnwys newidiadau i gyflog unigolyn, cyfraniadau ychwanegol a wnaed gan unigolion a ffactorau prisio isorweddol ar y cynllun cyfan.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn wedi'i asesu gan actiwariaid sydd wedi'i gronni gan aelod ar adeg

benodol. Y buddion wedi'u prisio yw buddion yr aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn i briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion sydd wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan â'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn rôl uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn arall mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol â'u harian eu hunain. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV: Y cynnydd gwirioneddol yw'r cynnydd yn sgil cronni buddion ychwanegol (h.y., o ganlyniad i newidiadau yn ymwneud â chyflog a gwasanaeth) a ariennir gan y cyflogwr. Bydd yn llai na'r gwahaniaeth rhwng y CETVs cychwynnol a therfynol oherwydd nid yw'n cynnwys unrhyw gynnydd yng ngwerth y pensiwn oherwydd chwyddiant neu oherwydd y cyfraniadau a delir gan y gweithiwr neu werth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall. Nid yw ychwaith yn cynnwys unrhyw gynnydd (neu ostyngiad) oherwydd unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn yn y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo CETVs.

Cyfanswm Ffigur Tâl Unigol Uwch Reolwyr

				2025-26					2024-25				
Nodiadau	Enw	Rôl	Dyddiadau - Dechrau a Diwedd	Cyflog £'000 Bandiau o £5,000	Buddion mewn Nwyddau Y £100 agosaf	Buddion Pensiwn Y £1,000 agosaf	Cyfanswm Bandiau o £5,000	Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yn flwyddyn rannol) £'000	Cyflog £'000 Bandiau o £5,000	Buddion mewn Nwyddau Y £100 agosaf	Buddion Pensiwn Y £1,000 agosaf	Cyfanswm Bandiau o £5,000	Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yn flwyddyn rannol) £'000
1	C Shillabeer	Y Prif Weithredwr	01/04/2025 - 31/03/2026	270 - 275	-	50	320 -325	-	260 - 265	-	180	440 - 445	-
2	D Edwards	Cadeirydd	01/04/2025 - 31/03/2026	70 - 75	3,700	-	70 - 75	-	65 - 70	900	-	70 - 75	-
3	T Ajmal	Prif Swyddog Gweithredu	01/04/2025 - 31/03/2026	180 - 185	-	-	180 - 185	-					
4	P Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	01/04/2025 - 31/03/2026	150 - 155	-	-	150 - 155	-	150 - 155	200	40	190 - 195	-
5	R Caldicott	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	01/04/2025 - 31/03/2026	190 - 195	-	44	235 - 240	-	175 - 180	-	162	340 - 345	-
	T Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd	01/04/2025 - 31/03/2026	155 - 160	-	106	265 - 270	-	100 - 105	-	-	100 - 105	150 - 155
	J Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	01/04/2025 - 31/03/2026	140 - 145	-	42	180 - 185	-	90 - 95	-	-	90 - 95	135 - 140

				2025-26					2024-25				
Nodiadau	**Enw**	**Rôl**	**Dyddiadau - Dechrau a Diwedd**	**Cyflog £'000 Bandiau o £5,000**	**Buddion mewn Nwyddau Y £100 agosaf**	**Buddion Pensiwn Y £1,000 agosaf**	**Cyfanswm Bandiau o £5,000**	**Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yn flwyddyn rannol) £'000**	**Cyflog £'000 Bandiau o £5,000**	**Buddion mewn Nwyddau Y £100 agosaf**	**Buddion Pensiwn Y £1,000 agosaf**	**Cyfanswm Bandiau o £5,000**	**Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yn flwyddyn rannol) £'000**
6	C Day	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	29/09/2025 - 31/03/2026	110 - 115	-	7	115 - 120	220 – 225					
7	S Andole	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol (Dros Dro)	01/04/2025 - 26/09/2025	100 - 105	-	-	100 - 105	210 - 215	70 - 75	-	101	170 - 175	210 - 215
8	D Eyitayo	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol	01/02/2026 - 31/03/2026	25 - 30	-	-	25 - 30	170 – 175					
9	G Roberts	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol	01/07/2025 - 31/01/2026	85 - 90	-	216	300 - 305	145 - 150					
10	P Tardivel	Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid a Chynllunio Strategol (Dros Dro)	01/04/2025 - 31/03/2026	135 - 140	1,300	29	165 - 170	-	10 - 15	100	3	10 - 15	135 - 140
	A Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a	01/04/2025 - 31/03/2026	160 - 165	-	35	195 - 200	-	155 - 160	-	58	210 - 215	-

				2025-26					2024-25				
Nodiadau	**Enw**	**Rôl**	**Dyddiadau - Dechrau a Diwedd**	**Cyflog £'000** **Bandiau o £5,000**	**Buddion mewn Nwyddau** Y £100 agosaf	**Buddion Pensiwn** Y £1,000 agosaf	**Cyfanswm** **Bandiau o £5,000**	**Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yn flwyddyn rannol)** **£'000**	**Cyflog £'000** **Bandiau o £5,000**	**Buddion mewn Nwyddau** Y £100 agosaf	**Buddion Pensiwn** Y £1,000 agosaf	**Cyfanswm** **Bandiau o £5,000**	**Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yn flwyddyn rannol)** **£'000**
		Bydwreigiaeth											
11	G Williams	Is-gadeirydd	01/04/2025 - 31/03/2026	55 - 60	200	-	55 - 60	-	40 - 45	600	-	40 - 45	55 - 60
12	R Watcyn Jones	Aelod Annibynnol	01/04/2025 - 31/03/2026	15 - 20	1,400	-	15 - 20	-	15 - 20	2,100	-	15 - 20	-
13	K Balmer	Aelod Annibynnol	01/04/2025 - 31/07/2025	5 - 10	300	-	5 - 10	15 – 20	15 - 20	700	-	15 - 20	-
14	P Lambert	Aelod Annibynnol	13/10/2025 - 31/03/2026	5 - 10	900	-	5 - 10	15 – 20					
15	Yr Athro M Larvin	Aelod Annibynnol	01/04/2025 - 31/03/2026	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
12	D Jones	Aelod Annibynnol	01/04/2025 - 31/03/2026	15 - 20	1,200	-	15 - 20	-	15 - 20	300	-	15 - 20	-
12	C Budden	Aelod Annibynnol	01/04/2025 - 31/03/2026	15 - 20	200	-	15 - 20	-	15 - 20	200	-	15 - 20	-
12	U Felda	Aelod Annibynnol	01/04/2025 - 31/03/2026	15 - 20	1,200	-	15 - 20	-	15 - 20	1,200	-	15 - 20	-
12	Dr C Turner	Aelod Annibynnol	01/04/2025 - 31/03/2026	15 - 20	2,300	-	15 - 20	-	15 - 20	3,000	-	15 - 20	-

				2025-26					2024-25				
Nodiadau	Enw	Rôl	Dyddiadau - Dechrau a Diwedd	Cyflog £'000 Bandiau o £5,000	Buddion mewn Nwyddau Y £100 agosaf	Buddion Pensiwn Y £1,000 agosaf	Cyfanswm Bandiau o £5,000	Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yn flwyddyn rannol) £'000	Cyflog £'000 Bandiau o £5,000	Buddion mewn Nwyddau Y £100 agosaf	Buddion Pensiwn Y £1,000 agosaf	Cyfanswm Bandiau o £5,000	Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (os yn flwyddyn rannol) £'000
16	W Nichols	Aelod Annibynnol	01/04/2025 - 31/03/2026	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	C Lothian-Field	Aelod Annibynnol	01/04/2025 - 31/03/2026	15 - 20	-	-	15 - 20	-	15 - 20	-	-	15 - 20	-
17	F Roberts	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	01/04/2025 - 31/03/2026	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
17	M Parry	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	01/04/2025 – 20/06/2025	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
17	P Lewis	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	30/07/2025 - 31/03/2026	-	-	-	-	-					
17	E Adamson	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	13/05/2025 - 31/03/2026	-	-	-	-	-					

Nodiadau

1. C Shillabeer, Prif Weithredwr . Mae lwfans cyfrifoldebau gwerth £13,668.24 wedi'i gynnwys yn ffigur y cyflog.
2. Cafodd D Edwards, y Cadeirydd, dreuliau teithio trethadwy gwerth £3,700.
3. Penodwyd T Ajmal, Prif Swyddog Gweithredu, ar sail barhaol, ar 1 Ebrill 2025. Mae lwfans gweithio hybrid gwerth £8,000 wedi'i gynnwys yn ffigur y cyflog. Nid yw adroddiadau a ddarperir drwy'r Asiantaeth Bensiynau yn cynnig darlun cywir o'r cynnydd mewn buddion pensiynau yn ystod y Flwyddyn Ariannol, felly nid yw'r gwerth wedi'i gynnwys.
4. P Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r rôl barhaol yn cynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau swydd Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae lwfans gweithio hybrid gwerth £3,371 wedi'i gynnwys yn ffigur y cyflog.

5. Penodwyd R Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, yn barhaol, gan gychwyn ar 1 Ebrill 2025. Mae lwfans gweithio hybrid gwerth £8,000 wedi'i gynnwys yn ffigur y cyflog.
6. Penodwyd C Day, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, yn barhaol, gan gychwyn ar 29 Medi 2025. Mae lwfans gweithio hybrid gwerth £4,000 wedi'i gynnwys yn ffigur y cyflog.
7. Roedd S Andole, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro, yn y swydd tan 26 Medi 2025. Mae lwfans rheolwr gwerth £648 wedi'i gynnwys yn ffigur y cyflog.
8. Penodwyd D Eyitayo, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, ar sail barhaol, gan ddechrau ar 1 Chwefror 2026.
9. G Roberts, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, rhwng 1 Gorffennaf 2025 a 31 Ionawr 2026. Oddi allan i'r cyfnod hwn, cyflogir G Roberts gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol. Mae'r budd pensiwn a ddatgelwyd wedi'i gyfleu ar sail pro-rata i adlewyrchu'r cyfnod pan dalwyd cyflog gweithredwr.
10. Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid a Chynllunio Strategol (Dros Dro) Cafodd y gweithiwr fuddion aberthu cyflog gwerth £1,300. Mae taliadau aberthu cyflog gwerth £6,284 wedi'u didynnu o'r ffigur cyflog. Mae'r band cyflog gros cyn addasiadau aberthu cyflog yn £140,000 - £145,000. Datgelir ffigurau'r flwyddyn flaenorol gan gynnwys taliadau aberthu cyflog.
11. Cafodd G Williams, yr Is-gadeirydd, dreuliau teithio trethadwy gwerth £200.
12. Mae'r Aelodau Annibynnol a gafodd dreuliau teithio trethadwy yn cynnwys R Watcyn Jones (£1,400), D Jones (£1,200), U Felda (£1,200) a Dr C Turner (£2,300).
13. Bu K Balmer, Aelod Annibynnol, yn y swydd tan 31 Gorffennaf 2025. Cafodd y gweithiwr dreuliau teithio trethadwy gwerth £300.
14. Penodwyd P Lambert, Aelod Annibynnol, ar 13 Hydref 2025. Cafodd y gweithiwr dreuliau teithio trethadwy gwerth £900.
15. Mae'r Athro M Larvin, Aelod Annibynnol, yn Ddirprwy Is-ganghellor dros Feddygaeth ac Iechyd ac yn Ddeon Meddygaeth ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Athro Larvin yn gynrychiolydd y brifysgol ac nid yw'n cael ei dalu gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r rôl hon.
16. Caiff W Nichols, Aelod Annibynnol, ei gyflogi ar sail barhaol gan y Bwrdd Iechyd. Mae W Nicholls yn Gynrychiolydd Undeb Llafur ac nid yw'n cael ei dalu gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r rôl hon.
17. Mae Aelodau Cyswllt y Bwrdd yn aelodau o'r Bwrdd na all bleidleisio, ac nid ydynt yn cael eu talu gan y Bwrdd Iechyd am gyflawni'r rolau hyn. Fe wnaeth P Lewis ac E Adamson ymuno â'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, ar 30 Gorffennaf ac 13 Mai yn y drefn honno..

Tabl Buddion Pensiwn

Enw	Rôl	Dyddiadau - Dechrau a Diwedd	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig Bandiau o £2,500	Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliadau Bandiau o £2,500	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2026 **Bandiau o £5,000**	Cyfandaliadau yn Ymwneud â Phensiwn Cronedig ar 31 Mawrth 2026 Bandiau o £5,000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2025	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2026	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod
			£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
C Shillabeer	Y Prif Weithredwr	01/04/2025 - 31/03/2026	5.0 – 7.5	2.5 – 5.0	105 - 110	260 - 265	2,274	2,458	112
T Ajmal nodyn 1	Prif Swyddog Gweithredu	01/04/2025 - 31/03/2026	-	-	-	-	-	-	-
P Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	01/04/2025 - 31/03/2026	-	-	5 - 10	-	296	85	-
R Caldicott	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	01/04/2025 - 31/03/2026	2.5 - 5.0	2.5 - 5.0	65 - 70	155 - 160	1,333	1,457	84
T Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd	01/04/2025 - 31/03/2026	5.0 - 7.5	10.0 - 12.5	65 - 70	170 - 175	1,434	1,634	153

Enw	Rôl	Dyddiadau - Dechrau a Diwedd	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig Bandiau o £2,500	Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliadau Bandiau o £2,500	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2026 **Bandiau o £5,000**	Cyfandaliadau yn Ymwneud â Phensiwn Cronedig ar 31 Mawrth 2026 Bandiau o £5,000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2025	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2026	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod
			£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Dr J Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	01/04/2025 - 31/03/2026	2.5 - 5.0	-	90 - 95	-	1,579	1,718	100
Dr C Day	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	29/09/2025 - 31/03/2026	0.0 - 2.5	-	0 - 5	-	-	31	15
S Andole	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol (Dros Dro)	01/04/2025 - 26/09/2025	-	-	-	-	1,117	-	-
D Eyitayo Nodyn 2	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol	01/02/2026 - 31/03/2026	-	-	-	-	-	-	-
G Roberts	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gwasanaethau Pobl a	01/07/2025 - 31/01/2026	10.0 - 12.5	-	15 - 20	-	-	300	157

Enw	Rôl	Dyddiadau - Dechrau a Diwedd	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig Bandiau o £2,500	Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliadau Bandiau o £2,500	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2026 **Bandiau o £5,000**	Cyfandaliadau yn Ymwneud â Phensiwn Cronedig ar 31 Mawrth 2026 Bandiau o £5,000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2025	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2026	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod
			£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Datblygu Sefydliadol								
P Tardivel	Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid a Chynllunio Strategol (Dros Dro)	01/04/2025 - 31/03/2026	2.5 - 5.0	-	35 - 40	-	441	493	36
A Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	01/04/2025 - 31/03/2026	2.5 - 5.0	0.0 - 2.5	40 - 45	90 - 95	889	982	77

1. Nid yw adroddiadau a ddarperir drwy'r Asiantaeth Bensiynau yn cynnig darlun cywir o'r cynnydd mewn buddion pensiynau yn ystod y Flwyddyn Ariannol, felly nid yw'r gwerthoedd wedi'u cynnwys.
2. Mae adroddiadau a ddarperir drwy law'r Asiantaeth Bensiynau yn anghyflawn oherwydd dyddiad dechrau'r gweithiwr yn y Flwyddyn Ariannol. Felly, mae gwerthoedd perthnasol wedi'u hadrodd fel dim.

Adroddiad Staff

Adroddir ar nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gyflogwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2025-26 isod.

Grŵp Proffesiynol	Staff Parhaol	Staff ar Secondiad Mewnol	Staff Asiantaethau	Hyfforddai Arbennig (SLE)	Staff Banc Cydweithredol	Arall	Cyfanswm
Staff Gweinyddol a Chlercyddol ac Aelodau'r Bwrdd	3,605	7	6	0	0	0	3,618
Meddygol a Deintyddol	1,167	18	10	506	0	85	1,786
Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig	5,901	0	98	0	0	0	5,999
Staff Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	797	6	2	0	0	0	805
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	3,876	2	0	0	0	0	3,878
Proffesiynau Perthynol i Iechyd	1,269	0	26	0	0	23	1,318
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	322	0	0	0	0	2	324
Ystadau ac Ategol	1,318	0	0	0	0	0	1,318
Myfyrwyr	27	0	0	0	0	0	27
Cyfanswm	**18,282**	**33**	**142**	**506**	**0**	**110**	**19,073**

Roedd cyfanswm gwirioneddol y staff yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2026 yn 21,439 ac mae manylion y gymysgedd o ran y rhywiau i'w gweld yn y tabl isod.

Cymysgedd Staff	Benywod	Gwrywod	Cyfanswm
Gweithredwr	7	2	9
Rheolwr	140	72	212
Staff	17,153	4,065	21,218
Cyfanswm	**17,043**	**4,058**	**21,439**

*At ddiben yr adroddiad hwn, diffinnir rheolwr fel aelod o staff ar lefel Band 8c neu'n uwch (neu lefel gyfatebol ar gyfer staff meddygol) yn gweithio mewn swyddogaeth gorfforaethol neu Uwch Adran weithredol ac sydd â chyfrifoldebau sylweddol o ran rheoli a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan. Nid yw rheolwyr yn cynnwys swyddi Nyrsys Ymgynghorol, Bydwragedd Ymgynghorol a Gwyddonwyr Clinigol Ymgynghorol

Isod, darperir y data ynghylch absenoldebau oherwydd salwch ar gyfer 2025-26.

	2024-25	2025-26
Diwrnodau FTE a gollwyd (hirdymor)*1	280,894	288,069
Diwrnodau FTE a gollwyd (byrdymor)*1	124,545	120,230
Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd	**405,439**	**408,299**
Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd*2	14	14
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer yr unigolion)*2	20,958	21,259
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod cyfnod na fu'n absennol o gwbl (nifer yr unigolion)*3	5,944	6,274
Canran y staff na fu'n absennol o gwbl oherwydd salwch	**28%**	**29%**

*1 - Caiff y ffigurau hyn eu cyfrifo ar sail Cyfwerth ag Amser Llawn. Caiff absenoldeb oherwydd salwch ei fesur gan ddefnyddio diwrnodau calendr ar system y Cofnod Staff Electronig, sy'n cynnwys yr holl ddiwrnodau o ddechrau hyd at ddiwedd cyfnod absenoldeb, yn cynnwys penwythnosau neu ddiwrnodau pan na fyddai aelod o staff wedi cael ei roi ar y rhestr ddyletswyddau i weithio. Felly, mae nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn llai na'r ffigur sy'n ymwneud â diwrnodau a gollwyd.
*2 - Cyfartaledd dros 12 mis
*3 - Nifer yr unigolion yw cyfanswm yr Aseiniadau Sylfaenol

*Sylwch fod hyn yn cynnwys staff newydd a ddechreuodd yn ystod y cyfnod adrodd fel yr argymhellir gan safonau data Cymru Gyfan.

Roedd cyfanswm cyffredinol yr absenoldeb oherwydd salwch yn 2025-26 yn 6.09% (2024-25: 6.05%). Roedd lefelau'r absenoldeb oherwydd salwch yn debyg i lefelau'r flwyddyn flaenorol. Prif achosion absenoldeb yw gorbryder, straen ac iselder, ac mae oddeutu 30% o'r holl absenoldebau oherwydd salwch yn deillio o hynny. Yn anecdotaidd, dywedir wrthym fod hyn yn gyfuniad o straen gwaith a phersonol oherwydd caledi ariannol a chyfrifoldebau gofalu. Mae Timau Gwasanaethau Pobl yn cydweithio â rheolwyr i reoli absenoldebau ac i annog pobl i weithio'n hyblyg er mwyn helpu staff i reoli eu bywydau personol a phroffesiynol, gan leddfu straenachoswyr personol. Y rhesymau eraill a gofnodwyd ynghylch cyfnodau hir o absenoldeb yw cynnydd mewn cyflyrau cronig, cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran ac amseroedd aros i gael triniaethau. Yn sgil y nifer cynyddol o'r staff sy'n dewis gweithio'n hirach, mae'r gydberthynas gref rhwng oedran y gweithlu a lefelau cyffredinol absenoldebau yn parhau. Dywedir hefyd yn anecdotaidd fod Meddygon Teulu yn dyroddi nodiadau ffitrwydd am gyfnodau hirach, ac yn gwneud hynny'n aml heb weld yr aelod o'r staff.

Ymrwymiadau oddi ar y Gyflogres a Gwaith Ymgynghori

Gweithio oddi ar y gyflogres yw'r term a ddefnyddir gan Gyllid a Thollau EF (CThEF) i ddisgrifio sefyllfa pan fydd gweithiwr unigol yn darparu ei wasanaeth personol ei hun i sefydliad.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu gwariant ar ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac ar waith ymgynghori. Mae'r tablau isod yn amlinellu manylion yr ymrwymiadau oddi ar y gyflogres sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd. Dylid nodi bod Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi sefydlu rheolau newydd ynghylch rheoliadau treth a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2017. Mae'r newidiadau hyn wedi ehangu cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd o ran rheoli'r ymrwymiadau oddi ar y gyflogres, ac yn achos y rhan fwyaf o'r ymrwymiadau

oddi ar y gyflogres, telir trethi ac Yswiriant Gwladol trwy drefniadau'r lleoliad ble cyflawnir y gwaith hwnnw.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal asesiadau IR35 ar gyfer yr holl ymrwymiadau oddi ar y gyflogres sy'n berthnasol.

Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2026, yn ennill £245 y dydd neu fwy

Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2026	279
O blith y rhain...	
Y nifer sy'n bodoli ers llai na blwyddyn	123
Y nifer sy'n bodoli ers rhwng blwyddyn a dwy	70
Y nifer sy'n bodoli ers rhwng dwy flynedd a thair	20
Y nifer sy'n bodoli ers rhwng tair blynedd a phedair	22
Y nifer sy'n bodoli er pedair blynedd neu ragor	44

Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a gyflogid ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, yn ennill £245 y dydd neu fwy

Nifer y gweithwyr oddi ar y gyflogres dros dro a gyflogid yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026	123
O blith y rhain;	
Ddim yn destun deddfwriaeth yn ymwneud ag ymrwymiadau oddi ar y gyflogres	123
Yn destun deddfwriaeth yn ymwneud ag ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac y pennwyd fod IR35 yn berthnasol iddynt	0
Yn destun deddfwriaeth yn ymwneud ag ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac y pennwyd nad yw IR35 yn berthnasol iddynt	0
Nifer yr ymrwymiadau a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0
O blith y rhain: Nifer yr ymrwymiadau y cafwyd newid i'w statws IR35 yn sgil adolygiad	0

Mae'r tablau uchod yn manylu ar yr holl ymrwymiadau oddi ar y gyflogres o fewn system y gyflogres.

Nifer yr ymrwymiadau oddi ar gyflogres gan aelodau'r bwrdd a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026

Nifer yr ymrwymiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau'r bwrdd a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol.	0
Cyfanswm yr unigolion y pennwyd eu bod yn "aelodau o'r bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol" yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymiadau ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres.	27

*Aelodau'r Bwrdd a'r Uwch Swyddogion yr ystyrir eu bod yn Uwch Reolwyr yw'r unigolion y mae manylion eu cyflogau wedi'u datgelu ar y tudalennau o dudalen 127 i dudalen 131 yn yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, £0.642m oedd gwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau ymgynghori allanol.

Atodiad 1 - Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo

	2025-26								2024-25	
Band costau Pecynnau Ymadael (gan gynnwys unrhyw daliad arbennig)	Nifer y Diswyddiadau Gorfodol	Cost Diswyddiadau Gorfodol	Nifer yr Ymadawiadau Eraill	Cost yr Ymadawiadau Eraill	Cyfanswm nifer y Pecynnau Ymadael	Cyfanswm cost Pecynnau Ymadael	Nifer yr Ymadawiadau Lle Gwnaed Taliadau Arbennig	Cost yr elfen arbennig mewn Pecynnau Ymadael	Cyfanswm nifer y Pecynnau Ymadael	Cyfanswm cost Pecynnau Ymadael
	Rhifau cyfan yn unig	£	Rhifau cyfan yn unig	£	Rhifau cyfan yn unig	£	Rhifau cyfan yn unig	£	Rhifau cyfan yn unig	£
Llai na £10,000	1	6,943	70	244,038	71	250,981	0	0	60	222,254
£10,000 - £25,000	0	0	4	52,521	4	52,521	0	0	10	178,848
£25,000 - £50,000	0	0	2	74,581	2	74,581	0	0	0	0
£50,000 - £100,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
£100,000 - £150,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
£150,000 - £200,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**1**	**6,943**	**76**	**371,140**	**77**	**378,083**	**0**	**0**	**70**	**401,102**

3. Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd Iunio a chyhoeddi Adroddiad Atebolrwydd, y caiff ei gynnwys ei ragnodi gan Lywodraeth Cymru.

Cysondeb gwariant

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn diffinio rheoleidd-dra fel y gofyniad i'r holl eitemau gwariant dderbyn sylw yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdodau dirprwyedig a rheolau perthnasol Cyfrifyddu Llywodraethol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd y grym i wario yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac mae'n derbyn dyraniadau refeniw ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Nod proses pennu cyllideb y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar draws y sefydliad at ddibenion dilys. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau dirprwyedig gyda deiliaid cyllideb ac mae'n rhaid iddynt weithredu'n unol â'u Cytundebau Atebolrwydd a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) y Bwrdd Iechyd.

Mae trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r SFIs hyn ac adroddir ar y rhain wrth bob Pwyllgor Archwilio trwy'r Adroddiad Cydymffurfiaeth. Yn ogystal â rhaglen gynhwysfawr o Archwilio Mewnol, mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Atal Twyll Lleol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â safonau adrodd cydnabyddedig i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Sector Cyhoeddus a chaiff y cyfrifon eu llunio'n unol â'r Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Caiff ffurflenni monitro ariannol misol eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn cynnwys esboniadau dros amrywiannau

Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra ynghylch datganiadau ariannol blynyddol 2025-26 oherwydd nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y cyfnod tair blynedd 2023-24 i 2025-26 (methiant i gyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf). Cafodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £17.257m yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw yn ystod y flwyddyn â diffyg cronnus o £49.164m dros gyfnod tair blynedd 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2026.

Ffioedd a chostau

Ni chodir ffioedd a thaliadau ar gleifion y GIG fel mater o drefn oni chaniateir i'r Bwrdd Iechyd godi tâl o dan y ddeddfwriaeth. Byddai enghreifftiau'n cynnwys gwaith deintyddol a mynediad at gofnodion iechyd. Cadarnheir, hyd eithaf ein gwybodaeth, fod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfraddau codi tâl.

Rhwymedigaethau digwyddiadol pell

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd gyfrifyddu o ran yr holl rwymedigaethau digwyddiadol pell yn unol â Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 37 (IAS37). Hyd ag y gwyddom ni, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw rwymedigaethau o'r fath lle byddai angen eu datgelu.

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Senedd Cymru

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 dan Adran 61 Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad am Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti Talwyr Trethi a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu perthnasol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yn gyfreithiol gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU, fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 31 Mawrth 2026 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed yno gan Weinidogion Cymru.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio'r mater a ddisgrifir yn adran Sail ar gyfer Barn Amodol ar Reoleidd-dra fy adroddiad, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

Sail ar gyfer Barn Amodol ar reoleidd-dra

Rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i'w derfyn adnoddau drwy wario £49.16 miliwn dros y swm yr awdurdodwyd iddo ei wario yn ystod y cyfnod o dair blynedd rhwng 2023-24 a 2025-26. Mae'r gwariant hwn yn gyfystyr a gwariant afreolaidd.

Nodir rhagor o fanylion am hyn yn fy Adroddiad, ar dudalen 146.

Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10

‘Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar y Bwrdd yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i’m barnau

Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy’n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o’r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y cyfarwyddwyr mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o’r dystysgrif hon.

Mabwysiedir y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy’n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi’r datganiadau ariannol pan fyddant yn rhagweld y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i’r dyfodol.

Gwybodaeth Arall

Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw’r datganiadau ariannol a’m hadroddiad archwilydd arnynt.

Y Prif Weithredwr sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu’r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â’r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o’r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae’n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i’r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol sydd i'w harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed yno gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed yno gan Weinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol na rhan archwiliedig yr Adroddiad Atebolrwydd yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru am gydnabyddiaeth ariannol na thrafodion eraill;
- ni wneir datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol penodol a bennir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w archwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol;
- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;

- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra y trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu sy'n angenrheidiol fel y gellir paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob tro yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwiliad mewnol yr endid archwiliedig, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi dyddlyfrau anarferol.

- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol eraill y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithredu yn unol â hwyl, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd wedi cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a oedd wedi cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio, ynghylch ymgyfreithiadau a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll yn sgil rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a
- gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu nad oes a wnelont â busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli hwy.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w cynnig ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
26 Mehefin 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd,
CF10 4BZ

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, rwyf yn gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Rwyf yn adrodd ar y datganiadau ariannol hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 er mwyn dwyn sylw at faterion allweddol ar gyfer fy archwiliad. Mae'r rhain yn fethiant yn erbyn y ddyletswydd ariannol gyntaf, ac amodi fy marn ar 'reoleidd-dra' yn sgil hynny, a methiant yr ail ddyletswydd ariannol. Nid wyf wedi amodi fy marn 'wir a theg' mewn perthynas â'r materion hyn.

Dyletswyddau ariannol

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol, sef y ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswydd ariannol fel y'u gelwir.

Yn 2025-26, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail.

Methiant i gyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf

Mae'r **ddyletswydd ariannol gyntaf** yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i Fyrddau Iechyd drwy ganiatáu iddynt fantoli eu hincwm gyda'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Y cyfnod tair blynedd sy'n cael ei mesur dan y ddyletswydd hon yw 2023-2024 hyd 2025-2026.

Fel y gwelir yn Nodyn 2.1 i'r Datganiadau Ariannol, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd reoli ei wariant refeniw o fewn cwmpas yr adnoddau a ddyfarnwyd iddo yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn, gan wario £49.16 miliwn yn fwy na'i gyfyngiad adnoddau refeniw cronnus gwerth £6,899 miliwn.

Os na fydd Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fantoli dros gyfnod treigl tair blynedd, bydd unrhyw wariant ar ben yr adnoddau a ddyrannwyd iddo (h.y. y cyfyngiad gwariant) yn ystod y tair blynedd hynny yn fwy na'r hyn y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i awdurdodi i'w wario, felly mae'n 'afreolaidd'. Dan amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid i mi amodi fy 'marn am reoleidd-dra', faint bynnag fo gwerth y gwariant gormodol.

Methiant i gyflawni'r ail ddyletswydd ariannol

Mae'r **ail ddyletswydd ariannol** yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig ar gyfer cyfnod treigl o dair blynedd, a chael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i'r cynllun hwnnw. Mae'r ddyletswydd hon yn sail hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o ansawdd. Ystyrir y bydd Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2025-26 os bydd wedi cyflwyno cynllun wedi'i gymeradwyo gan ei Fwrdd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2025 a 2028 i Weinidogion Cymru, yr oedd yn ofynnol iddynt adolygu'r cynllun ac ystyried ei gymeradwyo.

Fel y gwelir yn Nodyn 2.3 y Datganiadau Ariannol, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni ei ail ddyletswydd ariannol i sefydlu cynllun tymor canol integredig tair blynedd yn cwmpasu'r cyfnod o 2025 i 2028.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
26 Mehefin 2026

Rhan Tri – Y Datganiadau Ariannol
1. Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig 2025-26